# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 11/06/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi—Adroddiad Blynyddol 2013
Statement: The Wales Infrastructure and Investment Plan for Growth and Jobs—Annual Report 2013

Datganiad: Datganiad Polisi ar Addysg Uwch
Statement: Higher Education Policy Statement

Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013
Apprenticeships (Alternative Welsh Completion Conditions) Regulations 2013

Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013
Public Bodies (Abolition of the Administrative Justice and Tribunals Council) Order 2013

Y Frech Goch a Phwysigrwydd Rhaglenni Brechu
Measles and the Importance of Vaccination Programmes

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer a Ohiriwyd o 8 Mai 2013: Gwybod am y Gwenyn: Rôl Gwyddoniaeth o ran Gwarchod Iechyd Gwenyn fel Peillwyr
Short Debate Postponed from 8 May 2013: Bee Aware: The Role of Science in Protecting the Health of Bees as Pollinators


*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Gwasanaethau GIG

### NHS Services

13:30

## Andrew R.T. Davies

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau GIG yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1113(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the provision of NHS services in South Wales Central? OAQ(4)1113(FM)*

13:31

## Carwyn Jones

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We want to ensure that the people of South Wales Central continue to receive high-quality services that are safe, sustainable, and provided as close to their homes as possible.

Gwnaf. Rydym eisiau sicrhau bod pobl Canol De Cymru yn parhau i dderbyn gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n ddiogel, yn gynaliadwy, ac yn cael eu darparu mor agos i'w cartrefi â phosibl.

13:31 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you for that answer, First Minister. One of the things that you were busy promoting 18 months ago was this recruitment campaign that the Welsh Government was launching to bring new clinicians into Wales to help complement the rotas. I have questioned you and your Minister for health several times to ascertain how successful or unsuccessful that campaign has been. Are you able to update us on the effectiveness of that campaign, as it forms a critical part of the south Wales programme, that is, the ability to have clinicians in hospitals?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Un o'r pethau yr oeddech chi'n brysur yn eu hyrwyddo 18 mis yn ôl oedd yr ymgyrch recriwtio honno yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei lansio i ddod â chlinigwyr newydd i Gymru i helpu i ategu'r rotas. Rwyf wedi eich holi chi a'ch Gweinidog iechyd sawl gwaith i ddarganfod pa mor llwyddiannus neu aflwyddiannus y bu'r ymgyrch honno. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar effeithiolrwydd yr ymgyrch honno, gan ei bod yn rhan hanfodol o raglen de Cymru, hynny yw, y gallu i gael clinigwyr mewn ysbytai?

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. In terms of vacancies, we know that in Wales the vacancy rate is running at around 4%, so we know that most places have been taken.

Gallaf. O ran swyddi gwag, rydym yn gwybod mai tua 4% yw canran y swyddi gwag yng Nghymru, felly rydym ni'n gwybod bod y rhan fwyaf o leoedd wedi eu cymryd.

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Do you agree with the Royal College of Physicians, which has stated that it is time to take action and that we cannot wait for unplanned chaos—a reference to what was happening in England, I think—to force these decisions, as our national health service is too important?

A ydych chi'n cytuno â Choleg Brenhinol y Ffisigwyr, sydd wedi dweud ei bod yn amser cymryd camau ac na allwn aros am anhrefn nas cynlluniwyd—cyfeiriad at yr hyn a oedd yn digwydd yn Lloegr, rwy'n credu—i orfodi'r penderfyniadau hyn, gan fod ein gwasanaeth iechyd gwladol yn rhy bwysig?

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I do. It is important that change occurs and, of course, change for the better.

Ydw, mi ydwyf. Mae'n bwysig bod newid yn digwydd ac, wrth gwrs, newid er gwell.

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, it is clear that the proposals of the health board, if seen through, will lead to a greater reliance on midwife-led units, which will have to be staffed safely, of course, so that they can identify cases where rapid transfers may be needed. Can you tell us why, then, midwife numbers have been cut for the third year running, and why the number of midwife training places has been reduced?

Brif Weinidog, mae'n amlwg y bydd cynigion y bwrdd iechyd, os cânt eu cyflawni, yn arwain at fwy o ddibyniaeth ar unedau dan arweiniad bydwragedd, y bydd yn rhaid iddynt gael eu staffio yn ddiogel, wrth gwrs, fel y gallant nodi achosion lle gallai fod angen trosglwyddiadau cyflym. A allwch chi ddweud wrthym felly, pam mae niferoedd y bydwragedd wedi eu torri am y drydedd flwyddyn yn olynol, a pham mae nifer y lleoedd hyfforddi bydwragedd wedi ei leihau?

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Far from it. We believe that midwife numbers are robust in Wales. It is right to say that, as services change in the future, they must be staffed properly. That is exactly what the south Wales programme board, and, indeed, the other plans, have very much in mind.

Dim o gwbl. Rydym ni'n credu bod niferoedd bydwragedd yng Nghymru yn gadarn. Mae'n iawn i ddweud, wrth i wasanaethau newid yn y dyfodol, y bydd yn rhaid iddynt gael eu staffio'n briodol. Dyna'n union yr hyn sydd gan fwrdd rhaglen de Cymru, ac, yn wir, y cynlluniau eraill, mewn golwg.

Senedd.tv Fideo Video

## Cymorth Cyfreithiol

## Legal Aid

13:32 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ba drafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch y newidiadau arfaethedig i gymorth cyfreithiol? OAQ(4)1116(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on what discussions he has had with the UK Government about the proposed changes to legal aid? OAQ(4)1116(FM)*

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid yw'r cyfrifoldeb am gymorth cyfreithiol wedi'i ddatganoli. Rydym wedi mynegi'n gryf ein pryderon am yr effaith bosibl a sylweddol ar bobl Cymru ac ar y proffesiwn cyfreithiol, a byddwn yn parhau i wneud y sylwadau angenrheidiol i Lywodraeth y DU.

Responsibility for legal aid is not devolved. We have expressed strongly our concerns about the potential and significant impact on the people of Wales and the legal profession, and will continue to make the necessary representations to the UK Government.

13:33 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth San Steffan ar fin tendro am y gwaith o gymorth cyfreithiol i nifer cyfyngedig o gwmnïau cyfreithiol yn y maes troseddol. Yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru, dim ond pedwar cwmni a fydd yn derbyn y gwaith hwnnw, ac felly bydd cyfreithwyr annibynnol mewn trefi fel Aberteifi, Aberystwyth a Llanbed yn colli allan ar y gwaith hwn i gwmnïau mawr fel G4S a Grŵp Stobart. O ran eich ymateb i Lywodraeth San Steffan, a ydych wedi gnwneud ymateb ysgrifenedig, ac a wnewch ei ryddhau fel y gallwn i gyd weld eich barn fel Llywodraeth? A wnewch hefyd bwysleisio i Lywodraeth San Steffan fod y rôl bwysig y mae cyfreithwyr yn ei chwarae yn yr economi leol, ac yn gyffredinol mewn ardaloedd gwledig, o dan fygythiad gan y polisi newydd hwn gan Lywodraeth San Steffan?

Thank you for that response, First Minister. As you know, the Westminster Government is about to tender for legal aid work, limiting it to a small number of legal companies in the criminal sphere. In the Mid and West Wales region, only four companies will receive that work, so independent solicitors in towns such as Cardigan, Aberystwyth and Lampeter will lose out on this work to larger companies such as G4S as the Stobart Group. In terms of your response to the Westminster Government, have you made a written response, and will you release that so that we can all study your views as a Government? Will you also emphasise to the Westminster Government that the important role that solicitors play in the local economy, and in general in rural areas, is under threat from this new policy emerging from Westminster?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r pethau hyn i gyd yn yr ymateb. Dywedaf yn blwmp ac yn blaen os yw hyn yn parhau na fydd cwmnïau cyfreithwyr yng nghefn gwlad achos ni fydd gwaith gyda nhw. Gwaith cyfreithwyr cefn gwlad yw gwaith teuluol, ac mae cymorth cyfreithiol ar gyfer hynny wedi mynd fwy neu lai, gwerthu tai—a bach iawn o hynny sydd ar hyn o bryd—a delio gydag ewyllysiau. Mae'r gwaith hwnnw yn dal yna, ond nid yw'n ddigon, ar ben ei hunan, i gadw pethau i fynd. Mae'n wir i ddweud, os nad yw pobl yn medru cynrychioli pobl leol yn y llysoedd barn neu'r llysoedd troseddol, bydd y cwmnïau hynny yn mynd. Rydym yn hollol yn erbyn yr hyn mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisiau ei wneud. Ni fydd pobl yn gallu cael eu cynrychioli yn y llys, a bydd pobl ddi-brofiad yn cynrychioli rhai pobl yn Llys y Goron mewn achosion difrifol. Mae hynny'n golygu y bydd ein system gyfiawnder bresennol yn mynd yn waeth ac yn waeth.

All of these issues are contained in the response. I will say, quite frankly, that if this continues there will not be any solicitors' firms in rural areas, because they will not have any work. The work of the country lawyer is family work, and legal aid for that has more or less gone, conveyancing work—very little of that takes place at present—and dealing with wills. That work is still there, but is not enough on its own to keep them going. It is true to say that, if they cannot represent local people in the law courts or criminal courts, then those companies will disappear. We are completely against what the United Kingdom Government wants to do. People will not be able to be represented in courts, and inexperienced people will represent some people in the Crown Court in serious cases. That means that the justice system that we have at present will deteriorate.

13:35 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When this comes into force, the introduction of charges will mean that workers will have to pay to take their employers to tribunal. For some people who have just lost their job, a £1,200 fee will mean that they cannot afford to contest their case, especially when we consider that help with legal fees is also being drastically cut. Therefore, Minister, do you agree that these changes will mean that trade union representation will be even more important in coming years, and is there more that we can do to further raise the profile of trade unions in Wales?

Pan ddaw hyn i rym, bydd cyflwyno ffioedd yn golygu y bydd yn rhaid i weithwyr dalu i fynd â'u cyflogwyr i dribiwnlys. I rai pobl sydd newydd golli eu swydd, bydd ffi o £1,200 yn golygu na allant fforddio ymladd eu hachos, yn enwedig pan fyddwn yn ystyried bod cymorth gyda ffioedd cyfreithiol yn cael ei dorri'n sylweddol hefyd. Felly, Weinidog, a ydych chi'n cytuno y bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd cynrychiolaeth undeb llafur hyd yn oed yn fwy pwysig yn y blynyddoedd i ddod, ac a oes mwy y gallwn ni ei wneud i godi proffil undebau llafur yng Nghymru ymhellach?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. We work closely with the Wales Trades Union Congress. However, the proposals as they currently stand, in terms of legal aid, will mean that fewer and fewer people can get representation in court, not just in employment tribunals but in other courts as well. There is another side to this, of course. It is said that this is a saving, but the reality is that, when you have litigants in person, it takes three or four times as long for a case to proceed through the courts. That means that there is another cost on top of that, and a delay further on down the line. This is a false saving, which will deprive people of justice while at the same time creating costs elsewhere in the justice system.

Oes, yn sicr. Rydym ni'n gweithio'n agos gyda Chyngres Undebau Llafur Cymru. Fodd bynnag, mae'r cynigion fel y maent ar hyn o bryd, o ran cymorth cyfreithiol, yn golygu bod llai a llai o bobl yn gallu cael eu cynrychioli yn y llys, nid yn unig mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth ond mewn llysoedd eraill hefyd. Ceir ochr arall i hyn, wrth gwrs. Dywedir bod hyn yn arbed arian, ond y gwir amdani, pan fydd gennych ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, yw ei bod yn cymryd tair neu bedair gwaith yn hirach i achos wneud ei ffordd drwy'r llysoedd. Mae hynny'n golygu bod cost arall ar ben hynny, ac oedi yn ddiweddarach yn y broses. Arbediad ffug yw hwn, a fydd yn amddifadu pobl o gyfiawnder gan greu costau mewn rhannau eraill o'r system gyfiawnder ar yr un pryd.

13:36 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the Welsh Language Commissioner has stated that the legal aid consultation document does not make it clear that it is adhering to the fundamental principles of the Welsh Language Act 1993, which will be essential when providing services, including services that are provided through competition. Could you confirm what representations you have made on this issue?

Brif Weinidog, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi datgan nad yw'r ddogfen ymgynghori ar gymorth cyfreithiol yn ei gwneud yn eglur ei bod yn cydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a fydd yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu trwy gystadleuaeth. A allech chi gadarnhau pa sylwadau yr ydych chi wedi eu gwneud ar y mater hwn?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have made representations with regard to the Welsh language. For example, it is possible, under the current proposals, that someone might have to travel from north Montgomeryshire to Llanelli to get legal advice. That is bound to have an effect on the quality of advice, as well as being inconvenient for them, with a potential seven or eight-hour round trip. However, it also means that no adequate provision is being made in the current proposals for the provision of legal advice through the medium of Welsh. Again, it is an example of a policy that has been designed elsewhere that does not fit in Wales, and it will deprive justice to very many people in Wales.

Rydym ni wedi cyflwyno sylwadau yng nghyswllt yr iaith Gymraeg. Er enghraifft, mae'n bosibl, dan y cynigion presennol, y gallai fod yn rhaid i rywun deithio o ogledd Sir Drefaldwyn i Lanelli i gael cyngor cyfreithiol. Mae hynny'n sicr o gael effaith ar ansawdd y cyngor, yn ogystal â bod yn anghyfleus iddyn nhw, gyda thaith ddwy ffordd o saith neu wyth awr o bosibl. Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu nad oes darpariaeth ddigonol yn cael ei gwneud yn y cynigion cyfredol ar gyfer darparu cyngor cyfreithiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Unwaith eto, mae'n enghraifft o bolisi sydd wedi cael ei gynllunio yn rhywle arall nad yw'n gweithio yng Nghymru, a bydd yn atal llawer iawn o bobl yng Nghymru rhag cael cyfiawnder.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, today, we are going to try to get through three questions without the First Minister referring to the English NHS. Are you content—[Interruption.]

Lywydd, rydym ni'n mynd i geisio mynd drwy dri chwestiwn heddiw heb i'r Prif Weinidog gyfeirio at y GIG yn Lloegr. A ydych chi'n fodlon—[Torri ar draws.]

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not have great expectations from your own benches on this, First Minister. Are you content with your ministerial colleague Leighton Andrews and his comments about NHS configuration in south Wales?

Nid oes gen i unrhyw ddisgwyliadau mawr o'ch meinciau chi eich hun yn hyn o beth, Brif Weinidog. A ydych chi'n fodlon gyda'ch cyd-Weinidog Leighton Andrews a'i sylwadau am drefn y GIG yn ne Cymru?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Members are able to make representations on behalf of hospitals in their areas. However, there are certain tramlines within which all Cabinet Ministers must operate.

Caiff aelodau wneud sylwadau ar ran ysbytai yn eu hardaloedd hwy. Fodd bynnag, ceir ffiniau penodol y mae'n rhaid i holl Weinidogion y Cabinet weithredu'n unol â nhw.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is interesting that you use the word 'tramlines', First Minister. The Minister for Education and Skills has talked about services disappearing from the Royal Glamorgan Hospital. He is shaking his head, but, on 22 May, he issued a press release that mentioned services, particularly accident and emergency services, disappearing from the Royal Glamorgan Hospital. His colleague, Chris Bryant, talked about the closure of emergency services, and other services, at the Royal Glamorgan Hospital. Your backbench friend, Mick Antoniw, and the Shadow Secretary of State for Wales, have also issued such press releases. Is it not the case, First Minister, that you are allowing certain members of the Labour Party to play on people's worst fears about these reconfiguration proposals, and yet you defend these actions because they are not without the tramlines? What are the tramlines, First Minister?

Mae'n ddiddorol eich bod yn defnyddio'r gair 'ffiniau', Brif Weinidog. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi sôn am wasanaethau'n diflannu o Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'n ysgwyd ei ben, ond, ar 22 Mai, cyhoeddodd ddatganiad i'r wasg a oedd yn crybwyll gwasanaethau, a gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn benodol, yn diflannu o Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Siaradodd ei gydweithiwr, Chris Bryant, am gau gwasanaethau brys, a gwasanaethau eraill, yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae eich ffrind ar y meinciau cefn, Mick Antoniw, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid, hefyd wedi cyhoeddi datganiadau o'r fath i'r wasg. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, eich bod yn caniatáu i aelodau penodol o'r Blaid Lafur chwarae ar ofnau gwaethaf pobl am y cynigion ad-drefnu hyn, ac eto rydych chi'n amddiffyn y gweithredoedd hyn gan nad ydynt y tu allan i'r ffiniau? Beth yw'r ffiniau, Brif Weinidog?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have heard a new definition of irony in the Chamber this afternoon. We must always be careful of someone who is unaware of their own capacity for irony, which is something that we have seen from the leader of the opposition today. I am clear that Cabinet Ministers are not able to question the policy of reconfiguration, and no Cabinet Minister has done that. It is open to Ministers, in their capacity as Assembly Members, to make representations on behalf of hospitals—again, within certain tramlines.

Rwyf wedi clywed diffiniad newydd o eironi yn y Siambr y prynhawn yma. Mae'n rhaid i ni bob amser fod yn wyliadwrus o rywun nad yw'n ymwybodol o'i allu ei hun o ran eironi, sy'n rhywbeth yr ydym ni wedi ei weld gan arweinydd yr wrthblaid heddiw. Mae'n amlwg i mi na chaiff Gweinidogion y Cabinet gwestiynu'r polisi ad-drefnu, ac nid oes unrhyw Weinidog Cabinet wedi gwneud hynny. Mae'n agored i Weinidogion, yn rhinwedd eu swydd fel Aelodau'r Cynulliad, i gyflwyno sylwadau ar ran ysbytai—o fewn ffiniau penodol, unwaith eto.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

So, no Cabinet Minister—namely, the Minister for education—has raised the concerns that he is saying he is raising to his constituents, and issued a press release talking about disappearing services? Is it not the case, First Minister, that, instead of us having this empty rhetoric from your Cabinet colleagues, and indeed your Labour group here, what you should be doing is standing up and delivering a health service that is fit for the national health service here in Wales? Is it not the case, First Minister, that the NHS in Wales is not safe in your hands?

Felly, nid oes unrhyw Weinidog Cabinet—y Gweinidog addysg yn benodol—wedi codi'r pryderon y mae'n dweud ei fod yn eu codi i'w etholwyr, ac wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn trafod gwasanaethau sy'n diflannu? Onid yw'n wir, Brif Weinidog, yn hytrach na'n bod yn cael y rhethreg wag hon gan eich cydweithwyr yn y Cabinet, ac yn wir eich grŵp Llafur yma, mai'r hyn y dylech chi fod yn ei wneud yw sefyll i fyny a darparu gwasanaeth iechyd sy'n addas ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru? Onid yw'n wir, Brif Weinidog, nad yw'r GIG yng Nghymru yn ddiogel yn eich dwylo?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would listen more to the leader of the opposition if he had any plans at all for the NHS. He comes here, week after week, and criticises the plans for reconfiguration, which are supported by doctors. He knows better than doctors, of course. He knows better than doctors, although he has no plans himself. We have heard this in this Chamber for weeks now. We heard the Conservatives for many, many weeks saying that there were record-breaking cuts of £500 million to the NHS. After Whitsun, it was £800 million. Then it was £814 million, and then £800 million again. The question is: were they fibbing then, are they fibbing now, or are they always fibbing? I think that the people of Wales know the answer to that.

Byddwn yn gwrando mwy ar arweinydd yr wrthblaid pe byddai ganddo ef unrhyw gynlluniau o gwbl ar gyfer y GIG. Mae'n dod yma, wythnos ar ôl wythnos, ac yn beirniadu'r cynlluniau ar gyfer ad-drefnu, sy'n cael eu cefnogi gan feddygon. Mae'n gwybod yn well na meddygon, wrth gwrs. Mae'n gwybod yn well na meddygon, er nad oes ganddo unrhyw gynlluniau ei hun. Rydym ni wedi clywed hyn yn y Siambr hon ers wythnosau bellach. Clywsom y Ceidwadwyr yn dweud am wythnosau lawer bod toriadau uchaf erioed o £500 miliwn i'r GIG. Ar ôl y Sulgwyn, roedd yn £800 miliwn. Yna, roedd yn £814 miliwn, ac yna'n £800 miliwn eto. Y cwestiwn yw: a oedden nhw'n dweud celwydd bryd hynny, ydyn nhw'n dweud celwydd nawr neu ydyn nhw'n dweud celwydd drwy'r amser? Rwy'n credu bod pobl Cymru yn gwybod yr ateb i hynny.

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

While these games are being played between the leader of the opposition and the First Minister, local services are under threat. First Minister, I wonder whether you can tell us how many doctors are trained in Wales every year and how many are retained here for five years after training.

Tra bod y gemau hyn yn cael eu chwarae rhwng arweinydd yr wrthblaid a'r Prif Weinidog, mae gwasanaethau lleol dan fygythiad. Brif Weinidog, tybed a allwch chi ddweud wrthym faint o feddygon sy'n cael eu hyfforddi yng Nghymru bob blwyddyn a faint sy'n cael eu cadw yma am bum mlynedd ar ôl hyfforddi.

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Not enough doctors are being recruited at the moment, we understand that, but there are more medical staff in the NHS now than ever.

Nid oes digon o feddygon yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd, rydym ni'n deall hynny, ond mae mwy o staff meddygol yn y GIG nawr nag erioed.

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am surprised, First Minister, that you do not have those figures at your fingertips, given that this is such a hot topic. Do you accept that more home-trained doctors would stay here if they were incentivised to do so? Do you accept that we must plan for more doctors, because, as a country, we have far too few per head of population? What plans do you have to train more doctors and to keep more doctors? Do you see the proposals to reduce consultant-led A&E services across Wales from 13 to 11 as a lasting solution to these problems?

Rwy'n synnu, Brif Weinidog, nad yw'r ffigurau hynny gennych ar flaenau eich bysedd, o gofio bod hwn yn bwnc mor gyfredol. A ydych chi'n derbyn y byddai mwy o feddygon a hyfforddir gartref yn aros yma pe byddent yn cael eu cymell i wneud hynny? A ydych chi'n derbyn bod yn rhaid i ni gynllunio ar gyfer mwy o feddygon, oherwydd, fel gwlad, mae gennym ni lawer rhy ychydig fesul pen o'r boblogaeth? Pa gynlluniau sydd gennych chi i hyfforddi mwy o feddygon a chadw mwy o feddygon? A ydych chi'n credu bod y cynigion i leihau gwasanaethau damweiniau ac achosion brys a arweinir gan ymgynghorwyr ledled Cymru o 13 i 11 yn ateb parhaol i'r problemau hyn?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It is not a question of training alone. It is a question of attracting doctors. Quite frankly, no hospital in Wales would be able to last without doctors from abroad—we know that—or, indeed, without nursing staff from abroad. It is not a question of simply training more doctors, but of making the training environment more attractive and the environment for consultants more attractive. That is what doctors are telling us that reconfiguration will deliver. That is what doctors are telling us. You talk about playing games, but there is no greater game to play with the people of Wales than to suggest that things could stay exactly as they are. That goes against all the clinical evidence and against what doctors themselves are saying. Staying exactly as we are across the whole of Wales is a recipe for disaster.

Nid yw'n fater o hyfforddiant yn unig. Mae'n fater o ddenu meddygon. A dweud y gwir, ni fyddai unrhyw ysbyty yng Nghymru yn gallu para heb feddygon o dramor—rydym ni'n gwybod hynny—nac, yn wir, heb staff nyrsio o dramor. Nid yw'n fater syml o hyfforddi mwy o feddygon, ond o wneud yr amgylchedd hyfforddi yn fwy deniadol a'r amgylchedd i ymgynghorwyr yn fwy deniadol. Dyna mae meddygon yn ei ddweud wrthym y bydd ad-drefnu yn ei gynnig. Dyna mae meddygon yn ei ddweud wrthym. Rydych chi'n sôn am chwarae gemau, ond ni ellid chwarae gêm fwy gyda phobl Cymru nag awgrymu y gallai pethau aros yn union fel y maen nhw. Mae hynny'n mynd yn erbyn yr holl dystiolaeth glinigol ac yn erbyn yr hyn y mae meddygon eu hunain yn ei ddweud. Mae aros yn union fel yr ydym ledled Cymru gyfan yn ffordd sicr o wneud llanast o bethau.

13:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, it is a question of retention. If we are training doctors, and they are not staying within the Welsh NHS service, that is causing the problem that we are facing today. So, there is a question about training, and there is a question about retention, which you need to answer.

Brif Weinidog, mater o gadw yw hyn. Os ydym ni'n hyfforddi meddygon, ac nad ydynt yn aros o fewn gwasanaeth y GIG yng Nghymru, dyna sy'n achosi'r broblem rydym ni'n ei hwynebu heddiw. Felly, ceir cwestiwn am hyfforddiant, a chwestiwn am gadw, y mae angen i chi eu hateb.

This morning, my office received information from a concerned paramedic about ambulance cover in stations across the Valleys on the weekend. A number of ambulance stations in the area were closed on Friday, Saturday and Sunday. Reducing services at the Royal Glamorgan Hospital, as per your plans, cannot help this situation in Rhondda Cynon Taf, where we already have one of the worst ambulance response times in the whole of Wales. Can you tell us, then, why Labour members are wrong when they campaign, alongside Plaid Cymru and other campaigners, to retain services at the Royal Glamorgan Hospital?

Derbyniodd fy swyddfa wybodaeth y bore yma gan barafeddyg sy'n bryderus am y gwasanaeth ambiwlans sydd ar gael mewn gorsafoedd ledled y Cymoedd ar y penwythnos. Roedd nifer o orsafoedd ambiwlans yn yr ardal wedi cau ddydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul. Ni all lleihau gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, yn unol â'ch cynlluniau, helpu'r sefyllfa hon yn Rhondda Cynon Taf, lle mae gennym eisoes un o'r amseroedd ymateb ambiwlans gwaethaf yng Nghymru gyfan. A allwch chi ddweud wrthym, felly, pam mae aelodau Llafur yn anghywir pan eu bod yn ymgyrchu, ochr yn ochr â Phlaid Cymru ac ymgyrchwyr eraill, i gadw gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

She is not interested in any other hospital. She is not interested in anything other than her own patch. She is supposed to be the leader of Plaid Cymru across Wales, yet, week after week after week, there is no interest shown in any other hospital other than that on her own patch. That is something that she needs to look at very carefully. What is their solution? They want to introduce consultant-led A&E in every district general hospital in Wales. Where are those doctors coming from? Where are the doctors coming from to set up consultant-led A&E units across—[interruption.] The EU? The EU? We are recruiting from the EU at the moment. This is naivety gone mad. The reality is that you will never attract doctors into Wales unless they feel that they have the training opportunities that they need. If we do not change services, they will not come. Those are not my words, those are the words of doctors themselves, yet I have heard Plaid Cymru Members say that there is no clinical evidence for any change. That flies against reality, it flies against what doctors are telling us, and it flies against the best interests of the people of Wales.

Nid oes ganddi ddiddordeb mewn unrhyw ysbyty arall. Nid oes ganddi ddiddordeb mewn unrhyw beth heblaw ei milltir sgwâr ei hun. Hi yw arweinydd Plaid Cymru ledled Cymru i fod, ac eto, wythnos ar ôl wythnos ar ôl wythnos, ni ddangosir unrhyw ddiddordeb mewn unrhyw ysbyty arall ac eithrio'r un yn ei hardal ei hun. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen iddi ei ystyried yn ofalus iawn. Beth yw eu hateb hwy? Maen nhw eisiau cyflwyno adran damweiniau ac achosion brys a arweinir gan ymgynghorwyr ym mhob ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru. O ble mae'r meddygon hynny'n mynd i ddod? O ble mae'r meddygon yn mynd i ddod i sefydlu unedau damweiniau ac achosion brys a arweinir gan ymgynghorwyr—[torri ar draws.] Yr UE? Yr UE? Rydym ni'n recriwtio o'r UE ar hyn o bryd. Mae hyn yn naïfrwydd llwyr. Y gwir amdani yw na fyddwch byth yn denu meddygon i Gymru oni bai eu bod yn teimlo eu bod yn cael y cyfleoedd hyfforddiant sydd eu hangen arnynt. Os nad ydym yn newid gwasanaethau, ni fyddant yn dod. Nid fy ngeiriau i yw'r rhain, dyna eiriau meddygon eu hunain, ond eto rwyf wedi clywed Aelodau Plaid Cymru yn dweud nad oes unrhyw dystiolaeth glinigol ar gyfer unrhyw newid. Mae hynny'n mynd yn groes i'r gwirionedd, mae'n mynd yn groes i'r hyn y mae meddygon yn ei ddweud wrthym, ac mae'n mynd yn groes i fuddiannau gorau pobl Cymru.

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, in your Government's progress report you say that the overall picture of school performance is improving. With 65,000 pupils taught in LEAs that are in special measures and with your own inspectorate saying that literacy levels are substandard, if that is improvement, then what does failure look like?

Brif Weinidog, rydych chi'n dweud yn adroddiad eich Llywodraeth ar gynnydd bod y darlun cyffredinol o ran perfformiad ysgolion yn gwella. Mae 65,000 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn AALlau sydd mewn mesurau arbennig ac mae eich arolygiaeth chi eich hun yn dweud nad yw lefelau llythrennedd yn ddigon da, felly os yw hynny'n welliant, beth fyddai methiant?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We know that the percentage of pupils achieving better key stage 4 results is improving. We know that absence from schools is declining. We know that satisfaction with schools is very high; the national survey found that. However, there are still areas where there needs to be improvement, but the one thing that we are doing is providing stability, whereas, across the border, there is nothing but chaos.

Rydym ni'n gwybod bod canran y disgyblion sy'n cyflawni gwell canlyniadau cyfnod allweddol 4 yn gwella. Rydym ni'n gwybod bod absenoldebau o ysgolion yn gostwng. Rydym ni'n gwybod bod bodlonrwydd ag ysgolion yn uchel iawn; canfu'r arolwg cenedlaethol hynny. Fodd bynnag, ceir meysydd lle mae angen gwella o hyd, ond yr un peth yr ydym ni'n ei wneud yw darparu sefydlogrwydd, tra, ar draws y ffin, nid oes dim ond anhrefn.

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Let us be clear about 'across the border'. On results, the number of people getting A* to C grades is almost 10% lower than in England. At the current rate, it will take us 12 years to catch up. Despite the complacent tone of your Government's annual report and your answer this afternoon, you did acknowledge and recognise the need to catch up internationally. The last time I asked you about the expectations of the Programme for International Student Assessment results that will be published later this year, you said this:

Gadewch i ni fod yn eglur am 'ar draws y ffin'. O ran canlyniadau, mae nifer y bobl sy'n cael graddau A* i C bron i 10% yn is nag yn Lloegr. Ar y raddfa bresennol, bydd yn cymryd 12 mlynedd i ni ddal i fyny. Er gwaethaf naws hunanfodlon adroddiad blynyddol eich Llywodraeth a'ch ateb y prynhawn yma, rydych chi wedi cydnabod ac wedi gweld bod angen dal i fyny'n rhyngwladol. Y tro diwethaf i mi ofyn i chi am y disgwyliadau o ran canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr a fydd yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni, dywedasoch hyn:

'We expect to see improvement in the results of any tests that are taking place'.

'Rydym ni'n disgwyl gweld gwelliant yng nghanlyniadau unrhyw brofion sy'n cael eu cynnal'.

Do you stand by that statement?

A ydych chi'n dal i gytuno â'r datganiad yna?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We do. That is why we have introduced the literacy and numeracy tests and provided stability for pupils. The issue of whether we achieve the same grades as England will be redundant in future, because by then it will not have GCSEs. We know that it is introducing intermediate levels—the I-levels, or whatever they might be called. We are sticking with an established qualification that is widely recognised by the business community and the public.

Ydym. Dyna pam yr ydym ni wedi cyflwyno'r profion llythrennedd a rhifedd ac wedi darparu sefydlogrwydd i ddisgyblion. Ni fydd y cwestiwn o ba un a ydym ni'n cyflawni'r un graddau a Lloegr yn berthnasol yn y dyfodol, gan na fydd TGAU yno erbyn hynny. Rydym ni'n gwybod ei fod yn cyflwyno lefelau canolradd—yr I-levels, neu beth bynnag y byddan nhw'n cael eu galw. Rydym ni'n parhau â chymhwyster sefydledig a adnabyddir yn eang gan y gymuned fusnes a'r cyhoedd.

13:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased, First Minister, that you stand by your statement that we will see an improvement in PISA results when they are published. I am also glad that, yesterday, you very publicly decided to try to restore discipline in your Cabinet by slapping down the Minister for Education and Skills for subverting the Minister for Health and Social Services and for undermining your leadership. Can we expect the same treatment of him if those PISA results do not improve when they are published later this year?

Rwy'n falch, Brif Weinidog, eich bod yn dal i gytuno â'ch datganiad y byddwn yn gweld gwelliant i ganlyniadau PISA pan gânt eu cyhoeddi. Rwyf hefyd yn falch i chi benderfynu ddoe, yn gyhoeddus iawn, i geisio dod â disgyblaeth yn ôl i'ch Cabinet gan geryddu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am danseilio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac am danseilio eich arweinyddiaeth chithau. A allwn ni ddisgwyl yr un driniaeth ohono os nad yw'r canlyniadau PISA hynny'n gwella pan gânt eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

He is delivering improvement across the board in education. Ask teachers and they will tell you that they much prefer to work in Wales than in England. Just ask them. That is the one thing that you have to do.

Mae'n sicrhau gwelliant ym mhob rhan o faes addysg. Gofynnwch i athrawon a byddant yn dweud wrthych fod yn llawer gwell ganddynt weithio yng Nghymru nag yn Lloegr. Gofynnwch iddyn nhw. Dyna'r un peth y mae'n rhaid i chi ei wneud.

She has suggested that there is discord in Government, but if we ever get to the level of discord between the Tories and the Lib Dems in London, then we will be in trouble.

Mae hi wedi awgrymu bod anghytgord yn y Llywodraeth, ond os byddwn byth yn cyrraedd y lefel o anghytgord rhwng y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain, yna byddwn mewn trafferth o ddifrif.

### Teithiau Hedfan

### Flights

13:47 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y teithiau hedfan o faes awyr Caerdydd? OAQ(4)1112(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's plans to increase the number of flights from Cardiff airport? OAQ(4)1112(FM)*

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Attracting new routes is a key priority and plans for developing the airport are currently being finalised by the board of the airport. We have seen a proposed increase in the number of Aer Lingus flights, Vueling flights and chartered flights over the summer.

Mae denu llwybrau newydd yn flaenoriaeth allweddol ac mae cynlluniau ar gyfer datblygu'r maes awyr yn cael eu cwblhau gan fwrdd y maes awyr ar hyn o bryd. Rydym ni wedi gweld cynnydd arfaethedig i nifer y teithiau Aer Lingus, y teithiau Vueling a'r teithiau siarter dros yr haf.

13:48

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

You are on the record as saying that passengers will arrive when the flights are there, but if passengers cannot arrive, and, in fact, cannot leave either, it will be harder to attract those flights to the airport in the first place. Following news that the X91 service is to be cut on Sundays, when will you introduce the direct bus link to the airport that was promised in the national transport plan?

Rydych chi wedi dweud yn swyddogol y bydd teithwyr yn cyrraedd pan fydd y teithiau hedfan ar gael, ond os na all teithwyr gyrraedd, ac, yn wir, na allant adael chwaith, bydd yn anoddach denu'r teithiau hedfan hynny i'r maes awyr yn y lle cyntaf. Yn dilyn y newyddion bod y gwasanaeth X91 am gael ei derfynu ar y Sul, pryd wnewch chi gyflwyno'r cyswllt bws uniongyrchol i'r maes awyr a addawyd yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol?

13:48

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

August.

Ym mis Awst.

13:48

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Fantastic. Thank you. [Laughter.]

Gwych. Diolch yn fawr. [Chwerthin.]

13:48

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, will you join me in welcoming two things regarding the airport: first, the Lib Dems apparently coming off the fence at long last and, secondly, the fact that the Welsh Conservatives have had a complete u-turn over the public acquisition of Cardiff Airport?

Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu dau beth am y maes awyr: yn gyntaf, y Democratiaid Rhyddfrydol yn ôl pob golwg yn dod oddi ar y ffens o'r diwedd ac, yn ail, y ffaith fod Ceidwadwyr Cymru wedi gwneud tro pedol llwyr am gaffaeliad cyhoeddus Maes Awyr Caerdydd?

13:49

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

There is no greater flattery than imitation, and that is exactly what the Conservatives have done in terms of their plans for the airport. The difference is that we would not sell it off again so that it would end up in the same situation as before, which is exactly what they want to do. They talk about appointing an airlines director as if that has not been done already. They talk about attracting more routes as if that has not been done already. They have finally listened to some of their supporters in the business community who were telling them, 'For goodness' sake, stop digging a hole for yourselves—this is popular'. I welcome the conversion, belated though it is, of the Welsh Conservatives to the idea of us having a vibrant airport in Cardiff, which is something that, in the past, they did not want to see.

Nid oes unrhyw ganmoliaeth well nag efelychiad, a dyna'n union yr hyn y mae'r Ceidwadwyr wedi ei wneud o ran eu cynlluniau ar gyfer y maes awyr. Y gwahaniaeth yw na fyddem ni'n ei werthu eto fel y byddai yn yr un sefyllfa ag o'r blaen, sef yr union beth y maen nhw eisiau ei wneud. Maen nhw'n siarad am benodi cyfarwyddwr cwmnïau hedfan fel pe na byddai hynny wedi ei wneud eisoes. Maen nhw'n siarad am ddenu mwy o lwybrau fel pe na byddai hynny wedi ei wneud eisoes. Maen nhw wedi gwrando o'r diwedd ar rai o'u cefnogwyr yn y gymuned fusnes a oedd yn dweud wrthynt, 'Er mwyn popeth, rhowch y gorau i balu twll i'ch hunain—mae hyn yn boblogaidd'. Rwy'n croesawu tröedigaeth Ceidwadwyr Cymru, er ei fod yn hwyr, i'r syniad o gael maes awyr bywiog yng Nghaerdydd, sy'n rhywbeth, yn y gorffennol, nad oedden nhw'n dymuno ei weld.

13:49

## Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, you have left many people in Wales with the impression that your priority has been investment in upgrading the physical airport rather than attracting airlines and transport to and from the airport. Unless we secure low-cost airlines at Cardiff Airport through lowering operating costs, such as landing charges, there is little point in investing in vanity projects. Will you accept this point and outline exactly what you are doing with airlines?

Brif Weinidog, rydych chi wedi gadael llawer o bobl yng Nghymru dan yr argraff mai buddsoddi mewn uwchraddio'r maes awyr ffisegol fu eich blaenoriaeth, yn hytrach na denu cwmnïau hedfan a chludiant i'r maes awyr ac oddi yno. Oni bai ein bod yn sicrhau cwmnïau hedfan cost-isel ym Maes Awyr Caerdydd trwy ostwng costau gweithredu, fel ffioedd glanio, nid oes llawer o bwynt buddsoddi mewn prosiectau balchder. A wnewch chi dderbyn y pwynt hwn ac amlinellu beth yn union yr ydych chi'n ei wneud gyda'r cwmnïau awyrennau?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is a new one—it is a vanity project now. It did not take the opposition long to change its mind back again. How can the Member stand there and say that there needs to be a business plan that involves lowering landing charges when he would not have done anything in the first place? He would have left the airport to stew, and if it had closed it would have been tough luck because that is the free market—that is how they operate over on those benches. We made sure that the airport had a commercial future, while the opposition wanted to see it closed; it would have sat back and done nothing. Those benches exhibit the laziest of approaches to politics—do not save jobs, do not save the airport and do nothing, it does not matter. We take the opposite view; we will make sure that the airport has a future, and I am pleased that the opposition has finally come around to the same conclusion, even though Byron Davies has suddenly flown off-message again.

Dyna un newydd—mae'n brosiect balchder nawr. Ni chymerodd yn hir i'r wrthblaid newid ei meddwl yn ôl eto. Sut all yr Aelod sefyll yn y fan yna a dweud bod angen cael cynllun busnes sy'n cynnwys gostwng ffioedd glanio pan na fyddai ef wedi gwneud unrhyw beth yn y lle cyntaf? Byddai wedi gadael y maes awyr i fynd â'i ben iddo, a phe bai wedi cau byddai wedi bod yn anlwcus gan mai dyna yw'r farchnad rydd—dyna sut maen nhw'n gweithredu draw ar y meinciau yna. Gwnaethom ni'n siŵr bod gan y maes awyr ddyfodol masnachol, tra bod yr wrthblaid eisiau ei weld yn cau; byddai wedi eistedd yn ôl a gwneud dim. Mae'r meinciau yna'n dangos yr agwedd ddiocaf at wleidyddiaeth—peidiwch ag achub swyddi, peidiwch ag achub y maes awyr a pheidiwch â gwneud dim, does dim ots. Rydym ni o'r farn gyferbyniol; byddwn yn sicrhau bod gan y maes awyr ddyfodol ac rwy'n falch bod yr wrthblaid wedi dod i'r un casgliad o'r diwedd, er bod Byron Davies yn ddisymwth wedi mynd yn groes i bolisi ei blaid unwaith eto.

13:51 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, nid oes gen i fawr o ddiddordeb, mewn gwirionedd, ym mholisïau'r Blaid Geidwadol na'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y mater hwn. Holl bwynt y cwestiynau hyn yw gwybod beth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud yn awr eich bod wedi prynu'r maes awyr. Nid oeddwn yn gwrthwynebu hynny mewn egwyddor, ond dywedasom yn glir iawn ar y pryd ein bod eisiau gweld beth oedd y cynllun busnes.

First Minister, I do not have very much interest, to be honest, in the Conservative or Liberal Democrat policies on this matter. The whole point of these questions is to know what the Welsh Government intends to do now that it has acquired the airport. We did not oppose that in principle, but we did say very clearly at the time that we wanted to see a business case.

Mae dwy elfen i'r mater hwn. Y cyntaf yw'r siwrneiau i mewn ac allan o'r maes awyr i bobl sy'n ceisio hedfan i mewn ac allan. Yr ail yw'r cysylltiadau rhwng y maes awyr a Chaerdydd a gweddill Cymru. A wnewch ymrwymiad i edrych mewn ffordd cynhwysfawr a newydd ar y posibiliadau hyn? Yn amlwg, nid yw'r dulliau traddodiadol wedi gweithio, ac mae angen cael meddwl agored ynglŷn â photensial Maes Awyr Caerdydd.

There are two elements to this matter. The first is the journeys in and out of the airport for those who want to fly in and out. The second is the links between the airport and Cardiff and the rest of Wales. Will you make a commitment to look in a comprehensive and fresh way at these possibilities? The traditional methods, obviously, have not worked, and we need to keep an open mind as regards the potential of Cardiff Airport.

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n iawn. Fel y dywedais, mae'r bwrdd yn datblygu'r cynlluniau ar hyn o bryd. Mae'n rhaid cael mwy o bobl yn dod trwy'r maes awyr—mae hynny'n amlwg—er mwyn sicrhau bod dyfodol i'r siopau a'r bwytai sydd yna. Mae'n bwysig edrych ar ffabrig yr adeilad, ac mae hynny'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Hefyd, mae'n bwysig edrych ar sicrhau cysylltiad gwell rhwng y rheilffordd a'r maes awyr ac wedyn, yn y pen draw, edrych ar yr heolydd. Fodd bynnag, y peth cyntaf i'w wneud, wrth gwrs, yw sicrhau bod pobl yn defnyddio'r maes awyr, er mwyn sicrhau bod maes awyr yn bodoli. Y peth gwaethaf y gallai ddigwydd byddai adeiladu heol i faes awyr a fyddai ar gau unwaith y byddai'r heol yn cyrraedd.

That is right. As I said, the board is developing plans at present. We need to have more people coming through the airport—that is clear—to ensure that there is a future for the shops and restaurants that are there. It is important to look at the fabric of the building, and that is being done at present. Also, it is important that we look at securing better links between the railway and the airport and then, eventually, at the roads. However, the first thing to do, of course, is to ensure that people make use of the airport, in order to ensure that there is an airport there for the future. The worst thing that could happen would be to build a road to an airport that would be closed by the time that road had been constructed.

Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth gan feinciau Plaid Cymru i sicrhau dyfodol y maes awyr yn hytrach nag eistedd yn ôl a'i weld yn cau. Dyna'n gwmws beth fyddai'r Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr wedi'i wneud.

I am grateful for the support provided by the Plaid Cymru benches to ensure a future for the airport rather than to sit back and see it close. That is exactly what the Conservatives and the Liberal Democrats would have done.

## Gwasanethau Canser

## Cancer Services

13:52 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau canser yng Nghymru? OAQ(4)1106(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on cancer services in Wales? OAQ(4)1106(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae 'Law yn Llaw at Iechyd—Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser' yn nodi'r camau a gymerir gennym, a'r canlyniadau a ddisgwyliwn ar gyfer cleifion. Mae'r adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gennym fis Rhagfyr 2012 yn dangos y cynnydd sydd wedi digwydd yn y cyfamser.

'Together for Health—A Cancer Delivery Plan' sets out the actions that we are taking and the outcomes that we expect for patients. The annual report that we published in December 2012 shows the progress that has been made in the meantime.

13:53 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol bod y cynllun cyflawni ar gyfer canser yn ymrwymo byrddau iechyd lleol i gyhoeddi eu cynlluniau cyflawni lleol ar eu gwefannau erbyn Rhagfyr y llynedd. Yn anffodus, rwy'n deall bod rhai byrddau iechyd wedi methu â gwneud hyn. Mae'r rhain yn cynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, sydd, wrth gwrs, yn darparu gwasanaethau i'm hetholwyr i. Brif Weinidog, a allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod yr holl fyrddau iechyd lleol yn cydymffurfio â'r amserlenni a nodir o fewn cynllun Llywodraeth Cymru?

The First Minister will be aware that the cancer delivery plan commits health boards to present their local delivery plans by December of last year. Unfortunately, I understand that some health boards failed to do so. Those boards include the Hywel Dda Local Health Board, which, of course, provides services for my constituents. First Minister, can you tell us what the Welsh Government is doing to ensure that all local health boards conform to the schedule noted within the Welsh Government plan?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

O'r hyn yr wyf yn ei ddeall, nid yw Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda na Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys wedi dodi eu cynlluniau ar eu gwefan ar hyn o bryd. Rydym wedi dweud bod angen iddynt wneud hynny cyn gynted â phosibl, ac maent yn deall hynny ac yn mynd i wneud hynny. Maent yn deall ei bod yn bwysig dros ben fod gan y cyhoedd y gallu i edrych ar y cynlluniau hyn ar eu gwefannau.

As I understand it, neither Hywel Dda Local Health Board nor Powys Teaching Local Health Board have placed their plans on their website. We have told them that they will need to do this as soon as possible; they understand that and they will do so. They understand that it is extremely important that the public can look at the plans on their websites.

13:54 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the First Minister agree that it is very good news for cancer patients in Wales that Velindre Cancer Centre is in the process of procuring stereotactic radiotherapy equipment of the most advanced kind? This will result in cancer patients who presently have to travel outside Wales to Sheffield being able to receive their treatment in Wales.

A yw'r Prif Weinidog yn cytuno ei fod yn newyddion da iawn i gleifion canser yng Nghymru bod Canolfan Ganser Felindre wrthi'n caffael offer radiotherapi stereotactig o'r math mwyaf datblygedig? Bydd hyn yn golygu y bydd cleifion canser sy'n gorfod teithio y tu allan i Gymru i Sheffield ar hyn o bryd yn gallu derbyn eu triniaeth yng Nghymru.

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is indeed good news that the centre will soon have a linear accelerator that will provide stereotactic radiotherapy treatment, which is due to £4.6 million of capital funding by the Welsh Government. This will offer another form of treatment for those suffering from cancer.

Mae'n newyddion da yn wir y bydd gan y ganolfan gyflymydd llinellol yn fuan, a fydd yn darparu triniaeth radiotherapi stereotactig, sy'n dilyn £4.6 miliwn o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnig math arall o driniaeth i'r rhai sy'n dioddef o ganser.

13:55 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, yn y gogledd, mae'r cynllun yn ymddangos ar y safle we, ond eto, mae eich Llywodraeth yn credu y dylid cael cynlluniau unigol ar gyfer pob claf sydd yn dioddef o ganser. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth ynghylch pryd fydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod hynny'n digwydd. Yn ogystal, a ydych chi'n fodlon mai hunanasesu y bydd y byrddau iechyd yn ei wneud ynghylch a ydynt yn cydymffurfio â'ch polisïau chi?

First Minister, in north Wales, the plan does appear on the website, but yet again, your Government believes that there should be individual plans for every cancer patient. However, there is no information about when the health board will ensure that that happens. In addition, are you happy that the health boards will undertake a self-assessment regarding whether they conform to your policies or not?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Na; rydym ni'n eu hasesu hefyd. Mae'n bwysig dros ben bod ffordd o ddangos pa mor dda neu ddim ydyn nhw. Mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod gweithiwr allweddol gyda phob claf sydd â chanser, wrth gofio bod llawer o bethau yn effeithio ar fywydau pobl pan fydd canser arnynt, gan gynnwys materion ariannol, materion yn ymwneud â gwaith ac yn y blaen. Felly, mae cynlluniau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

No; we also assess them. It is very important that there is a means of demonstrating how well or not they are doing. There is work being done to ensure that every cancer patient has a key worker, bearing in mind that there are a number of things that can impact upon people's lives when they have cancer, including financial issues, work-related issues and so on. So, plans are being developed at the moment.

13:56 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, were you aware that last month Macmillan Cancer Support and the Aneurin Bevan Local Health Board launched a pilot scheme of support for cancer survivors in relation to the physical and psychological effect of their treatment? It is one of just 16 across the UK. If the pilot scheme is a success, would you consider rolling it out and including it in the future in your delivery plan?

Brif Weinidog, a oeddech chi'n ymwybodol bod Cymorth Canser Macmillan a Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan wedi lansio cynllun arbrofol y mis diwethaf o gefnogaeth i'r rhai sydd wedi goroesi canser o ran effaith corfforol a seicolegol eu triniaeth? Mae'n un o ddim ond 16 ledled y DU. Os bydd y cynllun arbrofol yn llwyddiant, a fyddech chi'n ystyried ei gyflwyno a'i gynnwys yn eich cynllun cyflawni yn y dyfodol?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are always keen to assess the success of any pilot scheme and to see whether that can be included in any plan. Therefore, we will keep an open mind and observe the progress of the project very closely.

Rydym bob amser yn awyddus i asesu llwyddiant unrhyw gynllun arbrofol ac i weld a ellid cynnwys hynny mewn unrhyw gynllun. Felly, byddwn yn cadw meddwl agored ac yn edrych ar gynnydd y prosiect yn ofalus iawn.

### Atal Llifogydd

### Flood Prevention

13:56 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fesurau atal llifogydd yn yr Wyddgrug? OAQ(4)1111(FM)*

*5. Will the First Minister provide an update on Welsh Government support for flood prevention measures in Mold? OAQ(4)1111(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have earmarked over £4 million for the Mold flood alleviation scheme, including support from the European regional development fund and from the central capital allocation.

Rydym ni wedi clustnodi dros £4 miliwn ar gyfer cynllun lliniaru llifogydd yr Wyddgrug, gan gynnwys cymorth gan gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop ac o'r dyraniad cyfalaf canolog.

13:56 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. The recently announced funding for the latest part of the flood alleviation programme is welcome. However, my concern is that despite defence measures, which have prevented flooding in the town, some households that were flooded as far back as 2000—and some that were not affected, but share the same postcode—are still experiencing problems in obtaining insurance cover. That cannot be right when work has already taken place to prevent further flooding. What action can the Welsh Government take to help victims of flooding to protect their homes and possessions in the future?

Diolch i chi am yr ateb yna. Croesewir yr arian a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y rhan ddiweddaraf o'r rhaglen lliniaru llifogydd. Fodd bynnag, fy mhryder i, er gwaethaf mesurau amddiffyn, sydd wedi atal llifogydd yn y dref, yw bod rhai cartrefi lle bu llifogydd mor bell yn ôl â 2000—a rhai na effeithiwyd arnynt, ond sy'n rhannu'r un cod post, yn dal i gael problemau wrth geisio cael gafael ar yswiriant. Ni all hynny fod yn iawn pan fo gwaith wedi ei wneud eisoes i atal llifogydd pellach. Pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu'r rhai sydd wedi dioddef llifogydd i amddiffyn eu cartrefi a'u heiddo yn y dyfodol?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have an agreement in place at the moment with the insurance industry, and that will remain until July, which is next month. We are working with the UK Government and the Association of British Insurers on options to replace that agreement. As part of those discussions, it is fair to raise the issue of people seeing a potential increase in their premiums and of people who have not been able to insure their properties—given that, quite often, the postcode is used, rather than there being a more detailed look at the topography. I remember well that when technical advice note 15 was originally published on flooding, the Environment Agency was using that kind of approach, but it moved to an approach of looking at the topography of an area and at factors such as whether a house was above the riverbank to a greater extent than they thought, and that approach proved far more flexible and beneficial to those who sought to take forward development.

Mae gennym gytundeb ar waith gyda'r diwydiant yswiriant ar hyn o bryd, a fydd yn para tan fis Gorffennaf, sef mis nesaf. Rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth y DU a Chymdeithas Yswirwyr Prydain ar opsiynau i ddisodli'r cytundeb hwnnw. Yn rhan o'r trafodaethau hynny, mae'n deg codi'r mater o bobl yn gweld cynnydd posibl i'w taliadau yswiriant ac o bobl nad ydynt wedi gallu yswirio eu heiddo—o ystyried, yn aml iawn, y defnyddir y cod post, yn hytrach nag edrych yn fwy manwl ar y dirwedd. Rwy'n cofio'n dda pan gyhoeddwyd nodyn cyngor technegol 15 yn wreiddiol ar lifogydd, roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r math yna o ddull, ond symudodd i ddull o edrych ar dirwedd ardal ac ar ffactorau megis a oedd tŷ yn uwch na glan yr afon i raddau mwy nag yr oedden nhw'n ei feddwl, a bu'r dull hwnnw yn llawer mwy hyblyg a buddiol i'r rhai a oedd yn ceisio datblygu.

13:58 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It was a decade ago when I first had discussions with the Environment Agency about flooding in Mold, particularly with regard to the Cae Bracty housing estate. I was told 10 years ago that although its original proposals had been ruled out as being too expensive, a cheaper proposal was being submitted to you, as the then Minister for the environment. However, a decade on, there is still concern about the lack of progress. Money was announced in February 2012 for Wrexham and Mold, and you indicate that there are measures going forward, but given the timescales involved so far, when do you expect to see these measures in place, and how will they incorporate the concerns being expressed by local people?

Roedd hi'n ddegawd yn ôl pan gefais drafodaethau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â llifogydd yn yr Wyddgrug am y tro cyntaf, yn enwedig ar stad dai Cae Bracty. Dywedwyd wrthyf 10 mlynedd yn ôl, er bod ei gynigion gwreiddiol wedi cael eu gwrthod oherwydd eu bod yn rhy ddrud, roedd cynnig rhatach yn cael ei gyflwyno i chi, fel Gweinidog yr amgylchedd ar y pryd. Fodd bynnag, ddegawd yn ddiweddarach, mae pryder am y diffyg cynnydd o hyd. Cyhoeddwyd arian ar gyfer Wrecsam a'r Wyddgrug ym mis Chwefror 2012, ac rydych chi'n nodi bod mesurau wrthi'n symud ymlaen, ond o ystyried yr amserlenni dan sylw hyd yn hyn, pryd ydych chi'n disgwyl gweld y mesurau hyn ar waith, a sut y byddant yn ystyried y pryderon sy'n cael eu mynegi gan bobl leol?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I expect them to be taken forward as quickly as possible. I do not know whether the original scheme at the beginning of the decade was the same scheme as the one that is in place now. It may well have changed in that time. I know that the methodology that is used has changed because of climate change. Therefore, it is difficult to assess why a scheme that would have been looked at 10 years ago did not go ahead; it may well be a different scheme now. However, the money is there, and now we expect to see the scheme proceed as quickly as possible.

Rwy'n disgwyl iddyn nhw gael eu symud ymlaen cyn gynted â phosibl. Nid wyf yn gwybod a oedd y cynllun gwreiddiol ar ddechrau'r ddegawd yr un cynllun â'r un sydd ar waith nawr. Mae'n bosibl iawn ei fod wedi newid yn ystod y cyfnod hwnnw. Gwn fod y dull a ddefnyddir wedi newid oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Felly, mae'n anodd asesu pam na aeth cynllun a fyddai wedi cael ei ystyried 10 mlynedd yn ôl yn ei flaen; mae'n ddigon posibl ei fod yn gynllun gwahanol nawr. Fodd bynnag, mae'r arian ar gael, ac rydym yn disgwyl nawr gweld y cynllun yn symud ymlaen cyn gynted â phosibl.

13:59 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un peth rydym ni fan hyn wedi galw amdano yn y gorffennol yw sefydlu fforwm llifogydd i Gymru, oherwydd mae angen gwneud rhagor i alluogi cymunedau lleol i gymryd rheolaeth o sefyllfaoedd pan fydd argyfyngau yn codi. Rwy'n deall bod trafodaethau wedi bod rhwng Llywodraeth Cymru a'r fforwm llifogydd sy'n bodoli ar lefel Cymru a Lloegr. A allwch chi roi diweddariad i ni ynghylch ble rydych chi arni gyda'r trafodaethau hynny?

One thing that we on these benches have called for in the past is the establishment of a flood forum for Wales, because more needs to be done to empower local communities to take control of situations when emergencies arise. I understand that discussions have taken place between the Welsh Government and the flood forum that exists on an England and Wales level. Can you update us on where you are on those discussions?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Bydd yn rhaid i mi ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â'r manylion. Fodd bynnag, mae'n bwysig dros ben bod gennym ffynhonnell o gyngor er mwyn gwneud y penderfyniadau iawn.

I will have to write to the Member with the details. However, it is extremely important that we have a source of advice in order to make the correct decisions.

### Gwasanaethau Cyhoeddus

### Public Services

14:00 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gennym wasanaethau cyhoeddus cadarn yn Abertawe? OAQ(4)1115(FM)*

*6. What is the Welsh Government doing to ensure we have resilient public services in Swansea? OAQ(4)1115(FM)*

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The programme for government sets out our approach to supporting the delivery of resilient services. That means strong local democracy and accountability, services that are always seeking to improve, using funding effectively, and public services that work effectively together.

Mae'r rhaglen ar gyfer llywodraethu yn nodi ein dull o gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau cadarn. Mae hynny'n golygu democratiaeth ac atebolrwydd lleol cryf, gwasanaethau sy'n ceisio gwella bob amser, gan ddefnyddio cyllid yn effeithiol, a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.

14:00 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, First Minister. I am sure that you enjoyed visiting Swansea University in my constituency yesterday, where you opened the intriguingly named CIPHER, or Centre for the Improvement of Population Health through e-Records Research. First Minister, what future do you see for initiatives such as that and the equally excellent Institute of Life Sciences at Swansea University in designing not only world-class research, but resilient public health services for the future?

Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod wedi mwynhau ymweld â Phrifysgol Abertawe yn fy etholaeth i ddoe, lle roeddech chi'n agor CIPHER, sy'n enw diddorol, neu'r Ganolfan Gwella Iechyd y Boblogaeth trwy Ymchwilio Cofnodion Electronig. Brif Weinidog, pa ddyfodol ydych chi'n ei weld i fentrau fel honno a'r Sefydliad Gwyddorau Bywyd, sydd yr un mor wych, ym Mhrifysgol Abertawe o ran dylunio gwaith ymchwil sydd ymhlith y gorau yn y byd yn ogystal â gwasanaethau iechyd cyhoeddus cadarn ar gyfer y dyfodol?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

They are exceptionally important. There are two things that CIPHER delivers particularly well. First, it is able to produce research in the future that potentially has an economic benefit for Wales. Secondly, it shows the academic world that Wales is a centre of world-class research in this field. So, I very much welcome the initiative that has been taken by Swansea University, and it certainly helps to enhance, once again, the university's reputation in academia.

Maen nhw'n eithriadol o bwysig. Ceir dau beth y mae CIPHER yn eu darparu yn arbennig o dda. Yn gyntaf, mae'n gallu cynhyrchu gwaith ymchwil yn y dyfodol a allai fod o fudd economaidd i Gymru. Yn ail, mae'n dangos i'r byd academaidd fod Cymru yn ganolfan o waith ymchwil o'r radd flaenaf yn y maes hwn. Felly, rwy'n croesawu'n fawr y cam hwn a gymerwyd gan Brifysgol Abertawe, ac mae'n sicr yn helpu i wella, unwaith eto, enw da'r brifysgol yn y byd academaidd.

14:01 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I hope that you will applaud those trade unions that did not call their members out on strike at the National Museum Wales sites this weekend, but those members still have concerns about changes at the museum failing to take into account sensible workforce planning for the future. If you agree that workforce planning is an essential element of resilient public services, why did you not act earlier when the Wales Deanery in the NHS failed to plan ahead for the workforce in accident and emergency departments and children's services in south Wales, including Swansea?

Brif Weinidog, rwy'n gobeithio y byddwch yn cymeradwyo'r undebau llafur hynny na alwodd eu haelodau allan ar streic yn safleoedd Amgueddfa Genedlaethol Cymru y penwythnos hwn, ond mae'r aelodau hynny yn dal i bryderu am y ffaith nad yw newidiadau yn yr amgueddfa yn cymryd cynllunio gweithlu synhwyrol ar gyfer y dyfodol i ystyriaeth. Os ydych chi'n cytuno bod cynllunio'r gweithlu yn elfen hanfodol o wasanaethau cyhoeddus cadarn, pam na wnaethoch chi weithredu'n gynharach pan fethodd Deoniaeth Cymru yn y GIG â chynllunio ymlaen llaw ar gyfer y gweithlu mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau i blant yn ne Cymru, gan gynnwys Abertawe?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It did plan ahead. The difficulty is that what it has suggested has been opposed by your party. As I said, it is not possible on the one hand to my mind, or the mind of the Welsh public, to criticise the plans that are in hand but come up with nothing at all yourself. The leader of the opposition places himself in the position of being a potential First Minister but has no plans for the future of the NHS, notwithstanding the concerns of clinicians. So, certainly, the plans were in place. The plans are not easy; let us not pretend that they are, because change is never easy in the NHS. However, we know that the change is essential.

Fe wnaeth gynllunio ymlaen llaw. Yr anhawster yw bod eich plaid chi wedi gwrthwynebu'r hyn y mae wedi ei awgrymu. Fel y dywedais, nid yw'n bosibl, yn fy marn i, neu ym marn y cyhoedd yng Nghymru ar y naill law, i feirniadu'r cynlluniau sydd ar y gweill, heb gynnig unrhyw beth o gwbl eich hun. Mae arweinydd yr wrthblaid yn rhoi ei hun yn y sefyllfa o fod yn ddarpar Brif Weinidog ond nid oes ganddo gynlluniau ar gyfer dyfodol y GIG, er gwaethaf pryderon clinigwyr. Felly, yn sicr, roedd y cynlluniau wedi'u sefydlu. Nid yw'r cynlluniau'n hawdd; peidiwch â gadael i ni esgus eu bod nhw, gan nad yw newid byth yn hawdd yn y GIG. Fodd bynnag, rydym ni'n gwybod bod y newid yn hanfodol.

14:02 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, roedd yn dda clywed y bore yma fod ymchwil yn dangos bod £3.6 biliwn yn mynd i economi Cymru yn sgîl yr hyn y mae prifysgolion Cymru yn ei wneud ar draws Cymru. Yn sgîl y ffaith y bydd campws arloesedd yn cael ei ddatblygu yn Abertawe, pa waith yr ydych chi wedi ei wneud gyda Phrifysgol Abertawe i sicrhau bod mwy o fusnesau a mudiadau yn cael budd o'r hyn sy'n digwydd ar hyd Fabian Way yn Abertawe gyda'r campws newydd, a sicrhau y bydd hyn yn dod â mwy o elw a chyfoeth i ardal Abertawe?

First Minister, it was good to hear this morning that research shows that £3.6 billion is generated for the Welsh economy as a result of what universities in Wales do across the country. Given the fact that an innovation campus is being developed in Swansea, what work have you done with Swansea University to ensure that more businesses and organisations can benefit from what is happening in Swansea along Fabian Way with the new campus, and ensure that this will bring more profit and prosperity to the Swansea area?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym wedi helpu i gyllido'r campws newydd, ac rwy'n gwybod bod y brifysgol wedi bod yn gweithio gyda busnesau yn yr ardal a bod busnesau yn hapus dros ben â'r cyfle y mae'r campws newydd yn ei roi iddynt. Felly, mae'r gwaith hwnnw wedi cael ei wneud ac rydym am weithio gyda busnesau a'r brifysgol i adeiladu ar y gwaith cysylltiedig sydd wedi cael ei wneud yn barod.

We assisted with the funding of the new campus, and I know that the university has been working with businesses in the area and that businesses are very happy with the opportunity that the new campus will afford them. Therefore, that work has been undertaken and we want to work with businesses and the university to build on the related work that has been done already.

14:03 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, while there is very important and viable work going on in the Institute of Life Sciences in the university in terms of medical research, Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board has one of the worst cancer waiting times in Wales. Part of the problem appears to be that the scanning equipment in the x-ray department effectively operates from nine to five, whereas, in other health boards, it operates into the early evening. Are you investigating the issues regarding Abertawe Bro Morgannwg health board's problems with cancer waiting times, and will you look at that as part of the investigation?

Brif Weinidog, er bod gwaith pwysig a hyfyw iawn yn cael ei wneud yn y Sefydliad Gwyddorau Bywyd yn y brifysgol o ran ymchwil feddygol, mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg un o'r amseroedd aros gwaethaf o ran canser yng Nghymru. Mae'n ymddangos mai rhan o'r broblem yw bod yr offer sganio yn yr adran pelydr-x yn gweithredu o 9 tan 5 mewn gwirionedd, tra, mewn byrddau iechyd eraill, ei fod yn gweithredu tan yn gynnar gyda'r nos. A ydych chi'n ymchwilio i'r materion hyn yn ymwneud â phroblemau bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg gydag amseroedd aros canser, ac a wnewch chi edrych ar hynny yn rhan o'r ymchwiliad?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is important that equipment is used as intensively as possible. We know that there has been a tendency in some parts of the NHS to work office hours, but people are not ill only during office hours. I urge all health boards to ensure that they are using what is expensive but effective equipment as intensively as they possibly can. That is something that applies to ABMU as it does to other boards.

Mae'n bwysig bod yr offer yn cael ei ddefnyddio cymaint â phosibl. Rydym ni'n gwybod y bu tuedd mewn rhai rhannau o'r GIG i weithio oriau swyddfa, ond nid yw pobl yn sâl yn ystod oriau swyddfa yn unig. Rwy'n annog pob bwrdd iechyd i sicrhau eu bod yn defnyddio'r hyn sy'n offer drud ond effeithiol cymaint ag y gallant. Mae hynny'n rhywbeth sy'n berthnasol i PABM fel y mae i fyrddau eraill.

## Twf Economaidd

## Economic Growth

14:04 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1120(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's plans for economic growth in North Wales? OAQ(4)1120(FM)*

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are focused on creating the conditions for increased economic growth and jobs through the provision of targeted business support and infrastructure investment.

Rydym ni'n canolbwyntio ar greu'r amodau ar gyfer twf economaidd cynyddol a swyddi trwy ddarparu cymorth busnes wedi'i dargedu a buddsoddi mewn seilwaith.

14:04 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the tourism industry in north Wales already supports 37,000 jobs and brings £1.8 billion of spending into the region each year, yet the industry has deep concerns that current marketing efforts are selling north Wales short and this is being reflected in the falling numbers of overseas visitors. Given that north Wales has so many excellent and distinctive attractions, can you confirm whether or not you are willing to be held accountable over your new tourism strategy by setting specific measurable targets for increasing overseas visitors and tourist spending in north Wales?

Brif Weinidog, mae'r diwydiant twristiaeth yn y gogledd eisoes yn cefnogi 37,000 o swyddi ac yn dod â £1.8 biliwn o wariant i'r rhanbarth bob blwyddyn, ac eto mae gan y diwydiant bryderon difrifol nad yw ymdrechion marchnata cyfredol yn gwneud cyfiawnhad â gogledd Cymru ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y niferoedd is o ymwelwyr o dramor. O gofio bod gan ogledd Cymru gymaint o atyniadau gwych ac unigryw, a allwch chi gadarnhau pa un a ydych chi'n barod i fod yn atebol am eich strategaeth dwristiaeth newydd ai peidio, trwy osod targedau mesuradwy penodol ar gyfer cynyddu ymwelwyr o dramor a gwariant gan dwristiaid yn y gogledd?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I will certainly be happy to be judged on the number of tourists coming to Wales. However, it is not just about Government, because it is important that they have a consistent level of quality in terms of accommodation and the experience that they have in Wales. The weather is a factor, although I think it is right to say that people do not tend to come to Wales looking for the weather. As far as the north is concerned, it has a fantastic range of tourism attractions. It is important that momentum is built to ensure that people continue to come to Wales and, of course, in greater numbers. The tourism strategy aims to deliver that. If it does not, of course, Members will hold the Government accountable.

Byddaf yn sicr yn hapus i gael fy marnu ar nifer y twristiaid sy'n dod i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'n ymwneud â'r Llywodraeth yn unig, oherwydd mae'n bwysig eu bod yn derbyn lefel gyson o ansawdd o ran llety a'r profiad maen nhw'n ei gael yng Nghymru. Mae'r tywydd yn ffactor, er fy mod yn credu ei bod yn iawn i ddweud nad yw pobl yn tueddu i ddod i Gymru oherwydd y tywydd. Cyn belled ag y mae'r gogledd yn y cwestiwn, ceir yno amrywiaeth wych o atyniadau twristiaeth. Mae'n bwysig bod y momentwm yna'n cael ei ddatblygu i sicrhau bod pobl yn parhau i ddod i Gymru ac, wrth gwrs, mewn niferoedd uwch. Nod y strategaeth dwristiaeth yw cyflawni hynny. Os na fydd, wrth gwrs, bydd yr Aelodau'n dwyn y Llywodraeth i gyfrif.

14:05 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, it would be far more difficult to attract visitors from Europe if Britain left the EU, as the Conservatives would wish. However, Presiding Officer, Airbus announced on Friday the creation of 300 new jobs in north Wales and in Filton, in part due to the success of the A-320, the wings of which were built in my friend Carl Sargeant's constituency of Alyn and Deeside. This is good news not only for people in my constituency, but for people across north Wales looking to work at one of the region's biggest and best employers. First Minister, what work is the Welsh Government doing with education providers in north Wales in terms of apprenticeships and skills and training in order to meet the needs of advanced manufacturing companies such as Airbus?

Wrth gwrs, byddai'n llawer anoddach denu ymwelwyr o Ewrop pe byddai Prydain yn gadael yr UE, fel y mae'r Ceidwadwyr yn dymuno. Fodd bynnag, Lywydd, cyhoeddodd Airbus ddydd Gwener ei fod yn creu 300 o swyddi newydd yn yng ngogledd Cymru ac yn Filton, yn rhannol oherwydd llwyddiant yr A-320, sydd ag adenydd a adeiladwyd yn etholaeth fy nghyfaill Carl Sargeant, sef Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae hyn yn newyddion da, nid yn unig i bobl yn fy etholaeth i, ond i bobl ledled gogledd Cymru a hoffai weithio i un o gyflogwyr mwyaf a gorau'r rhanbarth. Brif Weinidog, pa waith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda darparwyr addysg yn y gogledd o ran prentisiaethau a sgiliau a hyfforddiant er mwyn diwallu anghenion cwmnïau gweithgynhyrchu datblygedig fel Airbus?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The greater danger is people being stuck at passport control behind people leaving Spain because they could not live there anymore as there are would be no residents' payments for British citizens. Of course, if the UK was to leave the European Union, those people would no longer have residents' rights in Spain. You are right to point out the jobs that have been created at Airbus. Again, it is another project that exists in Wales because we are members of the European Union. It is a European company that I do not believe would stay in Wales in the long term if Britain was to leave the EU. I welcome the jobs that have been created. It is another good success story for Wales and particularly for Flintshire.

Y perygl mwyaf yw y byddai pobl yn gorfod aros yn y swyddfa rheolaeth pasbort y tu ôl i bobl sy'n gadael Sbaen oherwydd nad oeddent yn gallu byw yno mwyach gan na fyddai taliadau trigolion ar gael i ddinasyddion Prydain. Wrth gwrs, pe byddai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, ni fyddai gan y bobl hynny hawliau trigolion yn Sbaen mwyach. Rydych chi'n iawn i dynnu sylw at y swyddi sydd wedi eu creu yn Airbus. Unwaith eto, mae'n brosiect arall sy'n bodoli yng Nghymru oherwydd ein bod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n gwmni Ewropeaidd nad wyf yn credu y byddai'n aros yng Nghymru yn yr hirdymor pe bai Prydain yn gadael yr UE. Rwy'n croesawu'r swyddi sydd wedi eu creu. Mae'n stori dda arall o lwyddiant i Gymru ac yn enwedig i Sir y Fflint.

14:07 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r diwydiant twristiaeth yng ngogledd Cymru yn dibynnu'n bennaf ar dwristiaeth fewnol yng Nghymru a thwristiaid sy'n dod o ganolbarth a gogledd Lloegr. Un o'r problemau mae canolfannau twristiaeth yn ei chael yw cael gwybodaeth er mwyn anfon pobl oddi ar y briffordd—yr A55 yn arbennig—gydag arwyddion brown. Mae ymchwil wedi bod yn digwydd ers blwyddyn neu ddwy rhwng yr adran drafnidiaeth a'r adran dwristiaeth. Pryd fydd canlyniad yr adolygiad hwnnw'n digwydd er mwyn cael gwell a rhagor o arwyddion brown i rai o'r atyniadau pwysig hyn?

The tourism industry in north Wales is mainly dependent on internal tourism to Wales and on tourists who come from the midlands and north of England. One of the problems that tourist attractions have is the availability of information in order to direct people off the highways—the A55 in this particular instance—by means of brown signs. Research has been ongoing for a year or two now between the departments responsible for transport and tourism. When will the outcome of that review be implemented so that we can have more and improved brown signs to some of these important attractions?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n derbyn y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud. Ysgrifennaf ato gyda rhagor o fanylion ynglŷn â phryd bydd gweithredu yn digwydd ar y mater hwn.

I accept the point that the Member makes. I will write to him with further detail as regards when action will be taken on this matter.

Senedd.tv Fideo Video

## Bil Cynllunio

## Planning Bill

14:08 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Fil Cynllunio arfaethedig Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1107(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's forthcoming Planning Bill? OAQ(4)1107(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The draft planning Bill will be issued before the end of this year.

Bydd y Bil cynllunio drafft yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn hon.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. As you will know, significant concerns exist all over south Wales with regard to opencast mining and its alleged benefits for communities. Does the Welsh Government envisage incorporating various advice notes, such as 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal', that it has issued down the years into the planning Bill to give this particular MTAN more legislative weight when it comes to decisions made on a local level?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch, mae pryderon sylweddol yn bodoli ledled de Cymru o ran cloddio glo brig a'i fanteision honedig i gymunedau. A yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynnwys nodiadau cyngor amrywiol, fel 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo', y mae wedi eu cyflwyno dros y blynyddoedd yn y Bil cynllunio, er mwyn rhoi mwy o bwysigrwydd deddfwriaethol i'r MTAN penodol hwn pan ddaw i benderfyniadau a wneir ar lefel leol?

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The difficulty with this is that it would then mean it is not an MTAN. If you start incorporating planning guidance into law, you do not have planning guidance but laws. Historically, that is not the way things have been done. The legislative basis is there, but policy is expressed through guidance. If you look at the MTAN, I believe that it is robust. It is important that we have robust guidance, although I accept that one issue we need to look at is ensuring the need for local authorities to observe guidance more closely than has been the case across Wales in years gone by. There are elements of the planning system that are, perhaps, too voluntary at the moment and need to be made more clear in the future. However, that would not include scrapping a system of planning guidance and effectively making planning guidance part of an act of the Assembly. It would mean that an amending act would be required every single time the planning guidance was changed.

Yr anhawster gyda hyn yw y byddai'n golygu nad yw'n MTAN wedyn. Os byddwch yn dechrau cynnwys canllawiau cynllunio mewn cyfraith, nid canllawiau cynllunio sydd gennych chi, ond deddfau. Nid dyna'r ffordd y mae pethau wedi cael eu gwneud yn hanesyddol. Mae'r sail ddeddfwriaethol yno, ond mynegir y polisi trwy ganllawiau. Os edrychwch chi ar yr MTAN, rwy'n credu ei fod yn gadarn. Mae'n bwysig bod gennym ni ganllawiau cadarn, er fy mod yn derbyn mai un mater y mae angen i ni ei ystyried yw sicrhau'r angen i awdurdodau lleol arsylwi canllawiau yn fwy gofalus na'r hyn sydd wedi bod yn wir ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd a fu. Ceir elfennau o'r system gynllunio sydd, efallai, yn rhy wirfoddol ar hyn o bryd ac mae angen eu gwneud yn fwy eglur yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n cynnwys cael gwared ar system o ganllawiau cynllunio a gwneud canllawiau cynllunio yn rhan o ddeddf y Cynulliad mewn gwirionedd. Byddai'n golygu y byddai angen deddf ddiwygio bob tro y byddai'r canllawiau cynllunio'n cael eu newid.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the criticisms made of the Welsh Government is that there is sometimes a gap between excellent policies at Government level and implementation on the ground. I know that that is something to which you are deeply committed to addressing. However, we have a MTAN that clearly states that there should be a 500m buffer zone, yet, in Varteg Hill in my constituency, a planning inspector has seemingly discarded Government policy in this area and is seeking to allow a development to go ahead less than 100m from houses and people's homes. Do you agree that this is a good example of such a gap between implementation and policy, and will you consider what can be done to address this situation in relation to Varteg Hill?

Brif Weinidog, un o'r beirniadaethau a wnaed am Lywodraeth Cymru yw bod bwlch weithiau rhwng polisïau rhagorol ar lefel Llywodraeth a gweithredu ar lawr gwlad. Gwn fod hynny'n rhywbeth yr ydych chi wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael ag ef. Fodd bynnag, mae gennym MTAN sy'n nodi'n eglur y dylid cael clustogfa o 500m, ac eto, ym Mynydd Farteg yn fy etholaeth i, mae arolygydd cynllunio, yn ôl pob golwg, wedi anwybyddu polisi'r Llywodraeth yn yr ardal hon ac yn ceisio caniatáu datblygiad llai na 100m o dai a chartrefi pobl. A ydych chi'n cytuno bod hon yn enghraifft dda o fwlch o'r fath rhwng gweithredu a pholisi, ac a wnewch chi ystyried beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon o ran Mynydd Farteg?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member has expressed strongly the views of her constituents with regard to this planning application. It illustrates that there is a constant need for Government to ensure that planning guidance is observed and followed—I make no references to this particular case, but generally. That does not mean that we move to a situation where planning guidance is set in stone in terms of statute. I think that that takes us a step too far. However, I accept that there is always scope for ensuring that planning guidance is made clearer and is observed more closely than has sometimes been the case in all locations in the past.

Mae'r Aelod wedi mynegi barn ei hetholwyr yn gryf o ran y cais cynllunio hwn. Mae'n dangos bod angen parhaus i Lywodraeth sicrhau bod canllawiau cynllunio yn cael eu parchu a'u dilyn—nid wyf yn gwneud unrhyw gyfeiriadau at yr achos arbennig hwn, ond yn gyffredinol. Nid yw hynny'n golygu ein bod yn symud i sefyllfa lle mae canllawiau cynllunio yn cael eu gwneud yn bendant o ran statud. Rwy'n credu bod hynny'n mynd â ni gam yn rhy bell. Fodd bynnag, rwy'n derbyn bod cyfle bob amser i sicrhau bod canllawiau cynllunio yn cael eu gwneud yn fwy eglur ac yn cael eu dilyn yn fwy gofalus na'r hyn sydd weithiau wedi bod yn wir ym mhob lleoliad yn y gorffennol.

14:11 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The announcement made last week by the UK Government on changes to planning guidance for onshore windfarms under 50 MW has created an even greater divergence of policy between England and Wales. Communities across Wales will now want to know when they will be empowered locally to shape or even stop a windfarm development at its earliest possible stage, if they do not want that to proceed in their area. Will you give a commitment to match what has been done by the UK Government and bring forward these changes?

Mae'r cyhoeddiad a wnaed yr wythnos diwethaf gan Lywodraeth y DU ar y newidiadau i ganllawiau cynllunio ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir o dan 50 MW wedi creu gwahaniaeth mwy fyth rhwng polisïau Cymru a Lloegr. Bydd cymunedau ledled Cymru eisiau gwybod bellach pryd y byddant yn cael eu grymuso'n lleol i lunio neu hyd yn oed atal datblygiad ffermydd gwynt ar y cam cynharaf posibl, os nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd yn eu hardal. A wnewch chi ymrwymo i wneud yr un fath â'r hyn a wnaed gan Lywodraeth y DU a chyflwyno'r newidiadau hyn?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

With regard to community benefit, it is actually behind us, because the declaration that we have been working on in terms of community benefits for the industry talks about a £5,000 benefit per MW. That is something that we have already put in place, so England is catching up with us on that. This sort of thing sounds superficially attractive, but let me put in some difficulties here for the Member to think about. What is a community? When you ask people for their views as a community, how do you ascertain their views? You could hold a referendum, perhaps. How wide should that referendum be? Should it be only in the particular community where a development is proposed? Should it be wider than that? Should it include every single community and every single house that could see the windfarm no matter how far away it is? These are the difficulties. How do you resolve legally what a community actually is? Having done that, do you then extend that to other forms of power generation? Why just windfarms? Why not opencast mining? Why not other forms of energy generation, such as wave and tidal? Why not microgeneration? Why not biomass? Where does it end? You end up with a planning system that becomes capricious, and you make it difficult for there to be any certainty in terms of planning in the future.

O ran budd cymunedol, mae wedi ei wneud mewn gwirionedd, oherwydd mae'r datganiad yr ydym ni wedi bod yn gweithio arno o ran manteision cymunedol ar gyfer y diwydiant yn sôn am £5,000 o fudd am bob MW. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni wedi ei roi ar waith eisoes, felly mae Lloegr yn dal i fyny â ni ar hynny. Mae'r math yma o beth yn swnio'n ddeniadol ar yr wyneb, ond gadewch i mi gyflwyno rhai anawsterau yma i'r Aelod eu hystyried. Beth yw cymuned? Pan fyddwch chi'n gofyn i bobl am eu barn fel cymuned, sut ydych chi'n canfod eu barn? Gallech chi gynnal refferendwm, efallai. Pa mor eang y dylai'r refferendwm hwnnw fod? A ddylai fod yn y gymuned benodol lle y cynigir y datblygiad yn unig? A ddylai fod yn ehangach na hynny? A ddylai gynnwys pob un cymuned a phob un tŷ a allai weld y fferm wynt waeth pa mor bell i ffwrdd yw hi? Dyma'r anawsterau. Sut ydych chi'n datrys yn gyfreithiol beth yw cymuned mewn gwirionedd? Ar ôl gwneud hynny, a ydych chi'n ymestyn hynny wedyn i fathau eraill o gynhyrchu pŵer? Pam dim ond ffermydd gwynt? Beth am gloddio glo brig? Beth am fathau eraill o gynhyrchu ynni, fel y tonnau a'r llanw? Beth am ficrogynhyrchu? Beth am fiomas? Ble mae diwedd hyn? Bydd gennych system gynllunio sy'n troi'n fympwyol yn y pen draw, ac rydych chi'n ei gwneud hi'n anodd cael unrhyw sicrwydd o ran cynllunio yn y dyfodol.

My view has always been that you should have planning guidance that is robust. People elect councillors to take decisions, and they elect politicians elsewhere to take decisions. However, once you start saying that a community should have a say, how wide should that community be? I am putting my lawyer's hat on now, unfortunately, but if you went to court to a judicial review and someone argued that they had not had the opportunity to vote in a referendum, despite the fact that they could see a windfarm, they would win because there is no definition of what a community might be. So, it is superficially attractive but, in practice, it is very difficult to implement.

Rwyf i wedi bod o'r farn erioed y dylech chi gael canllawiau cynllunio sy'n gadarn. Mae pobl yn ethol cynghorwyr i wneud penderfyniadau, ac maen nhw'n ethol gwleidyddion mewn mannau eraill i wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, unwaith y byddwch chi'n dechrau dweud y dylai cymuned gael lleisio ei barn, pa mor eang ddylai'r gymuned honno fod? Rwy'n gwisgo fy het cyfreithiwr nawr, yn anffodus, ond pe byddech yn mynd i'r llys i adolygiad barnwrol a bod rhywun yn dadlau nad yw wedi cael cyfle i bleidleisio mewn refferendwm, er gwaethaf y ffaith eu bod yn gallu gweld fferm wynt, byddent yn ennill gan nad oes unrhyw ddiffiniad o'r hyn y gallai cymuned fod. Felly, mae'n ddeniadol ar yr wyneb, ond, yn ymarferol, mae'n anodd iawn ei weithredu.

14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Are you back to being the First Minister now, as opposed to being a lawyer?

A ydych chi yn ôl yn Brif Weinidog nawr, yn hytrach na bod yn gyfreithiwr?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The clock is off now, yes.

Ydw, wedi troi'r cloc i ffwrdd nawr.

### Gwasanethau Iechyd a Cymdeithasol

### Health and Social Services

14:13 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*9. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer integreiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol? OAQ(4)1110(FM)*

*9. What plans does the Welsh Government have for integrating the delivery of health and social services? OAQ(4)1110(FM)*

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Integration of health and social care, more specifically, is a key priority for this Government. We are building on the good work that has already been done, such as the Gwent frailty projects. A statement is due in the future in terms of how we move forward.

Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, yn fwy penodol, yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon. Rydym ni'n adeiladu ar y gwaith da sydd wedi ei wneud eisoes, fel prosiectau eiddilwch Gwent. Disgwylir datganiad yn y dyfodol o ran sut y byddwn yn bwrw ymlaen.

14:13 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recently visited the Wyn campaign team in Cardiff and the Vale, which is a project made possible by the Welsh Government's invest-to-save plan, where interdisciplinary teams are working across health and social services to ensure that people are able to leave hospital as soon as they are medically ready. That is good for the patient and good for relieving hospital beds. I am aware that this is not the only example of good practice of integration across Wales, but it is not universal. What plans does the Government have to mainstream this good practice where we can see that it really works, and what are the timescales?

Ymwelais yn ddiweddar â thîm ymgyrch Wyn yng Nghaerdydd a'r Fro, sy'n brosiect a wnaed yn bosibl gan gynllun buddsoddi-i-arbed Llywodraeth Cymru, lle mae timau rhyngddisgyblaethol yn gweithio ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i sicrhau bod pobl yn gallu gadael yr ysbyty cyn gynted â'u bod yn barod yn feddygol. Mae hynny'n dda i'r claf ac yn dda i ryddhau gwelyau ysbyty. Rwy'n ymwybodol nad hon yw'r unig enghraifft o arfer integreiddio da ledled Cymru, ond nid yw'n gyffredinol. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i brif ffrydio'r arfer da hwn lle gallwn weld ei fod wir yn gweithio, a beth yw'r amserlen?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are looking at projects such as the Wyn campaign in Cardiff and the Gwent frailty project. We are now seeing projects of that type being moved out across the rest of Wales, because they are good examples of what can be done with some innovative thinking. I know that the Minister is considering carefully how we roll out projects of this type across Wales in an appropriate timescale.

Rydym ni'n edrych ar brosiectau fel ymgyrch Wyn yng Nghaerdydd a phrosiect eiddilwch Gwent. Rydym ni'n gweld prosiectau o'r math yna yn cael eu cyflwyno ledled gweddill Cymru bellach, gan eu bod yn enghreifftiau da o'r hyn y gellir ei wneud gyda syniadau arloesol. Gwn fod y Gweinidog yn ystyried yn ofalus sut yr ydym ni'n cyflwyno prosiectau o'r math hwn ledled Cymru yn unol ag amserlen briodol.

14:14 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the challenges that is often presented by the NHS and social services in working together is the availability of resources. We know that the NHS finance Bill will hopefully allow for some flexibility and might provide an opportunity to help develop closer working between the NHS and social services departments across Wales. Can you tell us whether that Bill is likely to feature some formalisation of the financial arrangements that might be able to be developed between the NHS and social care deliverers in the future?

Brif Weinidog, un o'r heriau sy'n aml yn cael ei chyflwyno gan y GIG a gwasanaethau cymdeithasol wrth iddynt gydweithio yw'r adnoddau sydd ar gael. Rydym ni'n gwybod y bydd Bil cyllid y GIG yn caniatáu, gobeithio, rhywfaint o hyblygrwydd a gallai gynnig cyfle i helpu i ddatblygu cydweithio agosach rhwng y GIG ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru. A allwch chi ddweud wrthym a yw'r Bil yn debygol o gynnwys rhywfaint o ffurfioli'r trefniadau ariannol a allai gael eu datblygu rhwng y GIG a darparwyr gofal cymdeithasol yn y dyfodol?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The primary objective of the Bill is to move to three-year financial cycles, of which I think all Members approve. Beyond that, we will give further thought to what else might be included in the Bill as an appropriate vehicle for creating more flexibility within NHS finances.

Prif amcan y Bil yw symud i gylchoedd ariannol tair blynedd, ac rwy'n meddwl bod yr holl Aelodau'n cymeradwyo hynny. Y tu hwnt i hynny, byddwn yn meddwl ymhellach am beth arall y gellid ei gynnwys yn y Bil fel cyfrwng priodol ar gyfer creu mwy o hyblygrwydd yng nghyllid y GIG.

14:15 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister— I am not sure whether to call you that or 'my learned friend' after your last answer—we talk about people's health as if it is something to be treated only by a GP, or in our hospitals. However, is it not time to recognise that care in the community is also an essential part of an overall health strategy and that this means true integration of services, by creating a national health service in Wales that includes social care services as well?

Brif Weinidog—nid wyf yn siŵr a ddylwn i eich galw'n hynny neu'n 'fy nghyfaill dysgedig' ar ôl eich ateb diwethaf—rydym ni'n siarad am iechyd pobl fel pe byddai'n rhywbeth i gael ei drin gan feddyg teulu yn unig, neu yn ein hysbytai. Fodd bynnag, onid yw'n bryd cydnabod bod gofal yn y gymuned hefyd yn rhan hanfodol o strategaeth iechyd gyffredinol a bod hyn yn golygu gwir integreiddio gwasanaethau, trwy greu gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru sy'n cynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol hefyd?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is an interesting suggestion. It is something that is being considered in the work of the Williams commission at the moment and there are strong arguments for suggesting that the organisation that delivers health and social care should be the same organisation. These are matters for the commission to ponder and I look forward to looking at the results of its deliberations.

Mae hwnna'n awgrym diddorol. Mae'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried yng ngwaith comisiwn Williams ar hyn o bryd a cheir dadleuon cryf dros awgrymu y dylai'r sefydliad sy'n darparu iechyd a gofal cymdeithasol fod yr un sefydliad. Mae'r rhain yn faterion i'r comisiwn eu hystyried, ac rwy'n edrych ymlaen at weld canlyniadau ei drafodaethau.

### Undeb Ewropeaidd

### European Union

14:16 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith ar economi Cymru petai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)1104(FM)*

*10. What assessment has the Welsh Government made of the impact the UK leaving the European Union would have on the Welsh economy? OAQ(4)1104(FM)*

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Byddem yn colli o leiaf £144 miliwn y flwyddyn. Mae'r ffigur hwnnw'n is na beth fyddai'r ffigur go iawn. Byddem yn colli mynediad i farchnadoedd, sef marchnad Ewrop, i ffermwyr a masnachwyr a'r rheini sy'n gweithio i gwmnïau traws Ewropeaidd.

We would lose at least £144 million per annum. That figure would be lower than the accurate figure. We would lose access to markets, namely European markets, for farmers and traders and those who work for trans-European companies.

14:17 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y byddai Cymru o dan anfantais economaidd enfawr pe bai'n gadael yr Undeb Ewropeaidd? Hefyd, a yw'n cytuno mai un o'r prif resymau bod cwmnïau, fel y rhai o Japan yn yr 1980au a 1990au, wedi buddsoddi yng Nghymru oedd y ffaith ein bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd a'r farchnad sengl a hefyd, bryd hynny, ei fod yn fynediad i farchnad o 300 miliwn o bobl? Onid yw'n ffaith bod sôn, hyd yn oed, am refferendwm yn creu ansicrwydd ym meddyliau pobl, nid yn unig y rhai sydd wedi buddsoddi yma'n barod, ond y rhai sy'n edrych i fuddsoddi yn y dyfodol? A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy mhryder bod yr ansicrwydd hwn yn ddrwg iawn i economi Cymru?

Thank you for that answer. Does the First Minister agree that Wales would be under a huge economic disadvantage if it were to leave the European Union? Does he also agree that one of the main reasons that companies like those from Japan invested in Wales in the 1980s and 1990s was because we were a member of the European Union and the single market, which of course gave access at that time to a market of 300 million people? Is it not true that even talking about a referendum creates uncertainty in the minds of people, not only current investors, but prospective investors? Does the First Minister share my concern that this uncertainty is very bad for the economy of Wales?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Ydw. Mae hwn yn gwestiwn sydd wedi'i godi gan bobl sydd wedi siarad â mi sy'n edrych i fuddsoddi yng Nghymru. Nid oes unrhyw sicrwydd ganddynt. Nid oes diddordeb ganddynt mewn buddsoddi yng Nghymru fel marchnad, ac nid oes lawer o ddiddordeb ganddynt, ychwaith, mewn buddsoddi yn y Deyrnas Unedig fel marchnad. Mae'r Deyrnas Unedig yn fach o gymharu ag India, Tsieina neu Japan. Mae diddordeb ganddynt mewn buddsoddi yng Nghymru o achos y ffaith ein bod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd a'r farchnad honno.

Yes. This is a question that has been raised with me by people who are looking to invest in Wales. They do not have any certainty. They are not interested in investing in Wales as a market, and they are not particularly interested in investing in the UK as a market. The UK is small as compared to India, China or Japan. However, they are interested in investing in Wales because of the fact that we are part of the European Union and that market.

Fy mhryder mawr yw bod sôn, sy'n gryf yn Lloegr ond hefyd yng Nghymru, bod yn rhaid inni droi mewn a thorri'n hunain bant o weddill Ewrop a'r byd. Unwaith mae hynny'n digwydd mewn unrhyw wlad, mae'n arwydd bod y wlad ar ei ffordd i lawr.

The great concern that I have is that there is talk now—it is talked of very loudly in England, but it is also happening in Wales—that we must become insular and cut ourselves off from the rest of Europe and the world. Once that happens in any country, it is a sign that that country is on its way down.

14:18 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol bod busnesau yn pryderu am rai o'r rheoliadau sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Prif Weinidog, rwy'n siŵr, yn ymwybodol o'r un diweddaraf ar y newidiadau i ddiogelu data, a'r effaith negyddol y gall hynny ei gael ar fusnesau bach. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym pa gynrychioliadau mae'n eu gwneud ar ran busnesau Cymru ar y mater hwn, o ystyried y gallai busnesau bach ac economi Cymru golli miliynau o bunnoedd?

The First Minister will be aware that businesses are concerned about some of the regulations emanating from the European Union. The First Minister, I am certain, is aware of the most recent on changes to data protection and the negative effect that that could have on small businesses. Could the First Minister tell us what representations he has made on behalf of Welsh businesses on this issue, bearing in mind that small businesses and the Welsh economy could lose millions of pounds?

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Codaf y mater hwn gyda'r Gweinidog. Mae'n wir nad yw popeth sy'n dod o'r Undeb Ewropeaidd o les i Gymru—mae'r rhan fwyaf o les i Gymru. Rydym yn gwybod am yr amser roedd gofyn inni sicrhau ein bod yn gallu cofrestru defaid yn electronig, a oedd yn creu problem i ffermwyr Cymru. Rydym yn cynrychioli Cymru yn y mater hwn.

I will raise this matter with the Minister. It is true to say that not everything that emerges from the European Union is of benefit to Wales—most is of benefit to Wales. We remember when we were required to identify sheep electronically, which created problems for Welsh farmers. We have represented Welsh interests in that regard.

Mae'n rhaid inni gofio, os ydym eisiau allforio i'r Undeb Ewropeaidd, bod rhaid inni ddilyn rheolau'r Undeb Ewropeaidd, os ydym yn aelod neu beidio. Mae'n llawer gwell bod o fewn yr Undeb Ewropeaidd a chael dylanwad ar y rheoliadau hynny, na bod ar y tu allan heb unrhyw ddylanwad o gwbl. Os siaradwch â phobl Norwy, byddant yn dweud yr un peth wrthych. Maent yn gorfod derbyn y rheoliadau sydd yn dod o'r Undeb Ewropeaidd ond nid oes unrhyw ddylanwad ganddynt drostynt. Byddai hynny'n beth gwael i Gymru ac i'r Deyrnas Unedig.

We must also bear in mind that if we want to export to the European Union, we must play according to the European Union's rules, whether we are members or not. It is far better to be within the European Union and to have an influence on those regulations than to work outwith it and have no influence whatsoever. If you speak to the people of Norway, they would tell you the same thing. They have to work with the regulations that come from the EU, but they have no influence at all on them. That would be a bad thing for Wales and a bad thing for the UK.

14:20 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I strongly agree with the First Minister's remarks that we would effectively be a 'fax democracy' if we were to leave the European Union and yet were subject to regulation in terms of accessing markets. I ask for your assessment, First Minister, of the impact of our leaving the European Union on other issues, such as having access to World Trade Organization negotiations and other important matters that are of great importance to our red meat sector and particularly important in rural areas.

Rwy'n cytuno'n gryf â sylwadau'r Prif Weinidog mai 'democratiaeth ffacs' fyddem ni mewn gwirionedd, pe byddem yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac eto'n ddarostyngedig i reoliadau o ran cael mynediad at farchnadoedd. Gofynnaf am eich asesiad, Brif Weinidog, o effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar faterion eraill, fel cael mynediad at drafodaethau Sefydliad Masnach y Byd a materion pwysig eraill sydd o bwysigrwydd mawr i'n sector cig coch ac sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig.

14:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member has me at a disadvantage—I am not sure what a 'fax democracy' is; I am sure that I will be informed of that over the next few hours. It cannot make sense that, having established free access to a market of 500 million people, we would seek to jeopardise that access. It makes no sense in terms of business and no sense economically. It makes no sense to me to say to the world at the moment, 'Invest in Wales because we are members of that market of 500 million people', when there are some Members in the Chamber who take the view that we should say to people, 'Invest in Wales because you will come to a market that is 10 times smaller'. That makes no sense at all. We know that £350 million a year comes to Welsh farmers from European money, and I can say clearly that if people think that that money will be made up by the UK Government, they are deluding themselves. I have dealt with the Department for Environment, Food and Rural Affairs, and the Ministry for Agriculture, Fisheries and Food before that, and I can tell you that it is not interested in hill farmers. It is interested in large farmers, particularly large arable farmers. Big is beautiful as far as it is concerned. There is no doubt in my mind that, if we left the European Union, Welsh farming would be finished. It would be finished in terms of the support that it receives from the European Union that the UK Government would never make up, and finished in terms of losing access to an exceptionally important market. It is sad to say that the Welsh Conservatives, who claim to represent farming interests, look to destroy those interests when it comes to their petty nationalism.

Mae'r Aelod wedi fy nal dan anfantais— nid wyf yn siŵr beth yw 'democratiaeth ffacs': Rwy'n siŵr y byddaf yn cael fy hysbysu am hynny yn ystod yr ychydig oriau nesaf. Ni all wneud synnwyr, ar ôl sefydlu mynediad am ddim at farchnad o 500 miliwn o bobl, y byddem yn ceisio peryglu'r mynediad hwnnw. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr o ran busnes a dim synnwyr yn economaidd. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i mi ddweud wrth y byd ar hyn o bryd, 'Buddsoddwch yng Nghymru, gan ein bod yn aelodau o'r farchnad honno o 500 miliwn o bobl', pan fo rhai Aelodau yn y Siambr sydd o'r farn y dylem ni ddweud wrth bobl, 'Buddsoddwch yng Nghymru gan y byddwch yn dod i farchnad sydd 10 gwaith yn llai'. Nid yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. Rydym ni'n gwybod bod £350 miliwn y flwyddyn o arian Ewropeaidd yn dod i ffermwyr Cymru, a gallaf ddweud yn eglur os yw pobl yn credu y bydd Llywodraeth y DU yn talu'r arian hwnnw, maen nhw'n twyllo eu hunain. Rwyf wedi ymdrin ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd cyn hyn, a gallaf ddweud wrthych chi nad oes ganddi ddiddordeb mewn ffermwyr mynydd. Ei diddordeb yw ffermwyr mawr, yn enwedig ffermwyr âr mawr. Y mwya'n y byd, gorau'n y byd o safbwynt yr adran honno. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl y byddai ffermio yng Nghymru ar ben pe byddem yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Byddai ar ben o ran y cymorth y mae'n ei dderbyn gan yr Undeb Ewropeaidd na fyddai Llywodraeth y DU fyth yn ei dalu, ac ar ben o ran colli mynediad at farchnad eithriadol o bwysig. Mae'n drist dweud bod Ceidwadwyr Cymru, sy'n honni eu bod yn cynrychioli buddiannau ffermio, eisiau dinistrio'r buddiannau hynny pan ddaw i'w cenedlaetholdeb pitw.

14:22

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have one change to report to this week's business. The Minister for Finance will make a statement following this business statement on the Wales infrastructure investment plan for growth and jobs annual report 2013. Business for the next few weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd y Gweinidog Cyllid yn gwneud datganiad yn dilyn y datganiad busnes hwn ar adroddiad blynyddol 2013 y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru i hybu twf a swyddi. Mae busnes ar gyfer yr wythnosau nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir eu gweld ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:23 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would the First Minister—I am sorry—[Interruption.] Would the Minister please give serious consideration to arranging a Government statement on individual patient funding requests and the role of the Welsh health specialist committee? The Minister for Health and Social Services will be aware of my interest in this. I have written to him on a number of occasions regarding a constituent of mine, Mrs Celia Morris, who is desperately trying to secure funding for life-saving cancer treatment at Christie hospital in Manchester—a treatment that is accepted practice in England, but not in Wales. I am grateful for the Minister's reply to me this morning. Over and above the serious distress currently being caused to this patient, there is a wider concern that has been raised with me by some GPs in my constituency regarding individual patient funding requests and how they work, how open and transparent the process is and the speed at which decisions on patient funding are made. This is an issue that needs urgent attention, and I would welcome a Government statement to allow Members to scrutinise this further.

A wnaiff y Prif Weinidog—mae'n ddrwg gennyf—[Torri ar draws.] A wnaiff y Gweinidog roi ystyriaeth ddifrifol i drefnu datganiad gan y Llywodraeth ar geisiadau unigol am gyllid gan gleifion a swyddogaeth pwyllgor arbenigwyr iechyd Cymru? Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol o'm diddordeb yn hyn. Rwyf wedi ysgrifennu ato nifer o weithiau ynglŷn ag un o'm hetholwyr, Mrs Celia Morris, sy'n ceisio'n daer i sicrhau cyllid ar gyfer triniaeth canser i achub ei bywyd yn ysbyty Christie ym Manceinion—triniaeth sy'n arfer a dderbynnir yn Lloegr, ond nid yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar am ateb y Gweinidog i mi y bore yma. Yn ogystal â'r gofid difrifol sy'n cael ei achosi i'r claf hwn ar hyn o bryd, ceir pryder ehangach a godwyd gyda mi gan rai meddygon teulu yn fy etholaeth ynghylch ceisiadau cyllido gan gleifion unigol a sut maen nhw'n gweithio, pa mor agored a thryloyw yw'r broses a chyflymder gwneud penderfyniadau am gyllido cleifion. Mae hwn yn fater sydd angen sylw brys, a byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth i ganiatáu i'r Aelodau graffu ar hyn ymhellach.

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. I know that a review has been undertaken of the IPFR function, to make it much more open and transparent. I am sure that the Minister will look at what information comes out of that review and will report in due course.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn yna. Gwn fod adolygiad wedi ei gynnal o'r swyddogaeth IPFR, i'w gwneud yn llawer mwy agored a thryloyw. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn edrych ar ba wybodaeth a ddaw o'r adolygiad hwnnw a bydd yn adrodd maes o law.

14:24 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not know whether the Minister is aware of Barclays Bank's decision to stop providing the accounts for UK money transfer firms that send money abroad on behalf of their customers. One such business, Trust Exchange UK Ltd, is based in Riverside in the constituency of the Minister for health, Mark Drakeford, and the director is a constituent of mine in Cardiff North. This is likely to cause a lot of hardship to many of our constituents. Is it possible to have a debate on this subject?

Nid wyf yn gwybod a yw'r Gweinidog yn ymwybodol o benderfyniad Banc Barclays i roi'r gorau i ddarparu'r cyfrifon ar gyfer cwmnïau trosglwyddo arian yn y DU sy'n anfon arian dramor ar ran eu cwsmeriaid. Mae un busnes o'r fath, Trust Exchange UK Cyf, wedi ei leoli yng Nglan yr Afon yn etholaeth y Gweinidog iechyd, Mark Drakeford, ac mae'r cyfarwyddwr yn un o'm hetholwyr yng Ngogledd Caerdydd. Mae hyn yn debygol o achosi llawer o galedi i lawer o'n hetholwyr. A yw'n bosibl i ni gael trafodaeth ar y pwnc hwn?

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. I understand why you wish to raise the matter on behalf of your constituent; you also mentioned constituents of the Minister for Health and Social Services. Ultimately, it is a commercial decision for Barclays Bank, so I do not think that it would be appropriate for the Government to intervene.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Rwy'n deall pam yr ydych chi'n dymuno codi'r mater ar ran eich etholwr; soniasoch hefyd am etholwyr y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn y pen draw, penderfyniad masnachol i Fanc Barclays yw hwn, felly nid wyf yn credu y byddai'n briodol i'r Llywodraeth ymyrryd.

14:25 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would it be possible for the relevant Minister to make a statement on the role of the ombudsman service in Wales? I am sure that you would agree that the ombudsman's reports are valuable tools to reflect on practice where things have gone wrong and to inform improvements in public services across Wales, and that any moves that would limit public access to those documents would be a retrograde step and would diminish the importance of that service, not only for providing redress to individuals, but in being a valuable learning tool for public institutions across Wales.

A fyddai'n bosibl i'r Gweinidog perthnasol wneud datganiad ar swyddogaeth y gwasanaeth ombwdsmon yng Nghymru? Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod adroddiadau'r ombwdsmon yn ddulliau gwerthfawr i fyfyrio ar arfer pan fydd pethau wedi mynd o chwith ac i lywio gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, ac y byddai unrhyw symudiadau a fyddai'n cyfyngu ar fynediad y cyhoedd at y dogfennau hynny yn gam yn ôl ac yn bychanu pwysigrwydd y gwasanaeth hwnnw, nid yn unig o ran darparu iawndal i unigolion, ond o ran bod yn ddull dysgu gwerthfawr ar gyfer sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru.

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will certainly look into that. I quite agree that the ombudsman's reports, whether they are on health or other public services, are certainly valuable. I know that it is something that the public often feel is their last resort. It is important that information is available. I will look into that and I will write to the Member.

Byddaf yn sicr yn edrych i mewn i hynny. Rwy'n cytuno'n llwyr fod adroddiadau'r ombwdsmon, pa un a ydynt ar wasanaethau iechyd neu wasanaethau cyhoeddus eraill, yn sicr yn werthfawr. Gwn ei fod yn rhywbeth y mae'r cyhoedd yn aml yn teimlo sy'n ddewis olaf iddyn nhw. Mae'n bwysig bod y wybodaeth honno ar gael. Byddaf yn edrych i mewn i hynny a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.

14:26 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for two statements, if I may. First, I call for a statement relating to the primary healthcare estate following the letter sent to Members by the Minister for Health and Social Services last Tuesday, I believe. The following day, I am advised that, in the north Wales context, the Betsi Cadwaladr University Local Health Board held a meeting with GP practices in Flint and advised them outside the meeting that the £3.5 million build cost is now likely to be funded through third-party development rather than capital investment. Where GPs have already gone down this route, it has told them that there is a very heavy on-cost going on for two decades, which would, no doubt, impact the NHS and GP practices. They are proposing replacing third-party developments with practice loans guaranteed by the Welsh Government, which should be a lot cheaper and give ownership of the estate to the NHS and to GPs after 20 years, whereas, otherwise, ownership would remain with the developer after that 20-year period.

Galwaf am ddau ddatganiad, os caf. Yn gyntaf, galwaf am ddatganiad yn ymwneud â'r ystâd gofal iechyd sylfaenol yn dilyn y llythyr a anfonwyd at yr Aelodau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddydd Mawrth diwethaf, rwy'n credu. Y diwrnod canlynol, rwyf ar ddeall bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, yng nghyd-destun gogledd Cymru, wedi cynnal cyfarfod gyda meddygfeydd teulu yn y Fflint gan eu hysbysu y tu allan i'r cyfarfod bod y gost adeiladu o £3.5 miliwn yn debygol o gael ei hariannu trwy ddatblygiad trydydd parti bellach, yn hytrach na buddsoddiad cyfalaf. Lle mae meddygon teulu wedi dilyn y llwybr hwn eisoes, mae wedi dweud wrthynt fod cost barhaus uchel iawn a fydd yn para am ddau ddegawd, a fyddai, yn ddiau, yn effeithio ar arferion y GIG a meddygon teulu. Maen nhw'n cynnig disodli datblygiadau trydydd parti gyda benthyciadau practis wedi'u gwarantu gan Lywodraeth Cymru, a ddylai fod yn llawer rhatach a rhoi perchnogaeth o'r ystâd i'r GIG ac i feddygon teulu ar ôl 20 mlynedd, tra, fel arall, byddai perchnogaeth yn aros gyda'r datblygwr ar ôl y cyfnod hwnnw o 20 mlynedd.

Secondly, I call for a statement on the Welsh Government diabetes strategy, following the Diabetes UK event in the Assembly at lunchtime today at which people from north Wales told me that they need more monitoring of what the health boards are up to. They said that members of the publicly funded diabetes reference groups are becoming fed up of giving their time for no developments, that we do not provide diabetes education from school upwards, that there will be high costs to individuals and the NHS, and that the structured education programme has been stopped. They argue that that could be delivered by people who have experience of the condition and who are not necessarily clinical experts, with appropriate training. Finally, with regard to waiting times, they cited a case of someone referred by a specialist nurse, telling her that she needed specific treatment, who received a letter from the health board telling her that it would contact her in five months about an appointment.

Yn ail, galwaf am ddatganiad ar strategaeth diabetes Llywodraeth Cymru, yn dilyn y digwyddiad Diabetes UK yn y Cynulliad amser cinio heddiw lle dywedodd pobl o'r g ogledd wrthyf eu bod angen mwy o fonitro o'r hyn y mae'r byrddau iechyd yn ei wneud. Maen nhw'n dweud bod aelodau grwpiau cyfeirio diabetes a ariennir yn gyhoeddus yn dechrau cael llond bol o roi o'u hamser heb weld unrhyw ddatblygiadau, nad ydym yn darparu addysg diabetes o'r ysgol ymlaen, y bydd costau uchel i unigolion a'r GIG, ac y rhoddwyd terfyn ar y rhaglen addysg strwythuredig. Maen nhw'n dadlau y gallai hynny gael ei ddarparu gan bobl sydd â phrofiad o'r cyflwr ac nad ydynt o reidrwydd yn arbenigwyr clinigol, sydd wedi cael hyfforddiant priodol. Yn olaf, o ran amseroedd aros, nodwyd achos ganddynt o rywun a atgyfeiriwyd gan nyrs arbenigol, yn dweud wrthi ei bod angen triniaeth benodol, a derbyniodd lythyr gan y bwrdd iechyd yn ei hysbysu y byddai'n cysylltu â hi mewn pum mis ar gyfer apwyntiad.

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Health and Social Services has kept Members fully up to date regarding the primary care estate. I am sure that, as the business case is coming, on a case-by-case basis, he will look at them very carefully, particularly in the light of our funding difficulties at the moment.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi'r holl wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr ystâd gofal sylfaenol. Rwy'n siŵr, wrth i'r achos busnes gael ei gyflwyno, ar sail achosion unigol, y bydd yn eu hystyried yn ofalus iawn, yn enwedig yng ngoleuni ein hanawsterau cyllido ar hyn o bryd.

In relation to the diabetes question, it is up to health boards to ensure that they have education available for patients who become diabetic. I know that we do a great deal around the diabetic strategy with the health boards.

O ran y cwestiwn am ddiabetes, mater i fyrddau iechyd yw sicrhau bod addysg ar gael ganddynt i gleifion sy'n datblygu diabetes. Rwy'n gwybod ein bod yn gwneud llawer iawn o ran y strategaeth diabetes gyda'r byrddau iechyd.

14:29 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to ask for a debate on the direct payment of housing benefits to tenants in Wales in Government time as soon as possible. The Minister will be aware of a pilot scheme in Torfaen, which has raised some very serious issues, not just about the impact on tenants in Wales but also on the financial viability of housing providers. I know that the Welsh Government is lobbying the Department for Work and Pensions to allow an exemption for tenants in Wales from direct payments, and I believe that a debate in this Assembly would enable Members from all parties to make their views known to the UK Government on this important issue.

Hoffwn ofyn am drafodaeth ar y taliad uniongyrchol o fudd-daliadau tai i denantiaid yng Nghymru yn amser y Llywodraeth cyn gynted â phosibl. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o gynllun arbrofol yn Nhorfaen, sydd wedi codi rhai materion difrifol iawn, nid yn unig o ran yr effaith ar denantiaid yng Nghymru ond hefyd ar hyfywedd ariannol darparwyr tai. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn lobïo'r Adran Gwaith a Phensiynau i ganiatáu i denantiaid yng Nghymru gael eu heithrio o daliadau uniongyrchol, ac rwy'n credu y byddai trafodaeth yn y Cynulliad hwn yn galluogi Aelodau o bob plaid i wneud eu barn yn hysbys i Lywodraeth y DU ar y mater pwysig hwn.

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, it is an important issue, and I know that it is something that the Minister for Housing and Regeneration is exploring. I am sure that he will come to the Chamber at the earliest opportunity to bring forward a statement or debate.

Ydy, mae'n fater pwysig, ac rwy'n gwybod ei fod yn rhywbeth y mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn ei archwilio. Rwy'n siŵr y bydd yn dod i'r Siambr ar y cyfle cyntaf i gyflwyno datganiad neu drafodaeth.

14:30 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The previous Minister for local government and transport announced the creation of a taskforce to drive forward the development of an integrated transport system in south-east Wales. I understand that that taskforce was to develop, by early 2013, recommendations for a rapid transport system for south-east Wales using rail, light rail, bus and active travel. It is my understanding that the report was given to the new transport Minister at the end of March. I wonder whether we could have a confirmed date for when a statement will be brought to the Chamber on that subject.

Cyhoeddodd y Gweinidog llywodraeth leol a thrafnidiaeth blaenorol bod tasglu yn cael ei greu i sbarduno datblygiad system drafnidiaeth integredig yn y de-ddwyrain. Rwy'n deall mai bwriad y tasglu oedd datblygu, erbyn dechrau 2013, argymhellion ar gyfer system cludiant cyflym ar gyfer y de-ddwyrain gan ddefnyddio'r rheilffyrdd, rheilffyrdd ysgafn, bysiau a theithio egnïol. Rwy'n deall y rhoddwyd yr adroddiad i'r Gweinidog trafnidiaeth newydd ddiwedd mis Mawrth. Tybed a allem ni gael cadarnhad o'r dyddiad y bydd datganiad yn cael ei gyflwyno ar y pwnc hwnnw yn y Siambr.

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I cannot give you a confirmed date today, but I will speak to the Minister for Economy, Science and Transport, and I am sure that she will bring that forward at the earliest opportunity.

Ni allaf roi dyddiad pendant i chi heddiw, ond byddaf yn siarad â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ac rwy'n siŵr y bydd yn cyflwyno hynny ar y cyfle cyntaf.

14:30 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last week, in the programme for government statement, the First Minister referred on several occasions to the amendments and other supporting papers that were supposed to be made available to Members. I appreciate that we have been copied in to a letter to the Presiding Officer, but could you issue a statement on the protocol to which the Government works when providing the supporting papers to statements, so that Members can be informed as to what they can expect? It is difficult and challenging for Members to question someone on a statement if they are not in possession of all the facts, or if that information has literally just arrived as the Member is getting to his or her feet. Surely, this is the place where scrutiny is meant to be undertaken. A firm protocol, to which we can all subscribe, so that we can get the best value when we are questioning Ministers, would be very helpful.

Yr wythnos diwethaf, yn natganiad y rhaglen ar gyfer llywodraethu, cyfeiriodd y Prif Weinidog sawl gwaith at y diwygiadau a'r papurau ategol eraill a oedd i fod i'w rhoi ar gael i'r Aelodau. Rwy'n gwerthfawrogi ein bod wedi cael ein copïo i mewn i lythyr at y Llywydd, ond a allech chi gyhoeddi datganiad ar y protocol y mae'r Llywodraeth yn gweithio'n unol ag ef wrth ddarparu'r papurau ategol i ddatganiadau, fel y gall Aelodau gael eu hysbysu am yr hyn y gallant ei ddisgwyl? Mae'n anodd ac yn heriol i Aelodau holi rhywun ar ddatganiad os nad yw'r holl ffeithiau ganddynt, neu os yw'r wybodaeth honno yn llythrennol newydd gyrraedd fel y mae'r Aelod yn codi ar ei draed. Onid yma y mae craffu i fod i ddigwydd. Byddai protocol cadarn, y gall pob un ohonom gytuno ag ef, fel y gallwn gael y gwerth gorau pan fyddwn yn holi Gweinidogion, yn ddefnyddiol iawn.

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the leader of the opposition for that question. You are quite right that the First Minister has issued a letter explaining the difficulties that we had last week, which were very unfortunate. It is something that Welsh Government officials have taken very seriously. In relation to your question as to whether we can bring forward a written statement about the process and the protocol, I will look into that, and I am sure that it is something that we can bring forward.

Diolchaf i arweinydd yr wrthblaid am y cwestiwn yna. Rydych chi yn llygad eich lle bod y Prif Weinidog wedi cyhoeddi llythyr yn egluro'r anawsterau a gawsom yr wythnos diwethaf, a oedd yn anffodus iawn. Mae'n rhywbeth y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw difrifol iawn iddo. O ran eich cwestiwn ynghylch a allwn ni gyflwyno datganiad ysgrifenedig ar y broses a'r protocol, byddaf yn edrych i mewn i hynny, ac rwy'n siŵr ei fod yn rhywbeth y gallwn ei gyflwyno.

14:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will raise two issues, if I may. First of all, on broadband, can we have an update from the Welsh Government on the roll-out of superfast broadband in Wales, specifically in rural areas? In my area of Monmouthshire, there are areas that are benefitting very well from the roll-out of broadband, but as I am sure you are aware, the issue is with those areas that are outside the commercial footprint of the traditional broadband suppliers. Those people need to know that they will also have access to this very important modern tool.

Rwyf am godi dau fater, os caf. Yn gyntaf oll, ar fand eang, a allwn ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig? Yn fy ardal i, sef Sir Fynwy, ceir ardaloedd sy'n elwa'n helaeth o'r broses o gyflwyno band eang, ond fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, mae'r broblem yn ymwneud â'r ardaloedd hynny sydd y tu allan i ôl-troed masnachol y cyflenwyr band eang traddodiadol. Mae angen i'r bobl hynny wybod y bydd ganddynt hwythau fynediad at yr offer modern pwysig iawn hyn.

Secondly, I am sure that you will be aware that there was a Higher Education Wales event in the Oriel earlier. I am also hosting an event this evening with vice-chancellors in Wales. It is the launch of Welsh Universities—Driving Growth week. I know that we have a statement and a line from your Government on that. However, could the Minister for Education and Skills come to the Chamber at some point soon to tell us how he is working with those universities and with the new university structure to make sure that the, specifically though, how the Driving Growth week—I can see the Minister for Education and Skills laughing, but it is actually a very serious issue—fits in with access to structural funds and with future growth, all of which will become more important if Wales in future wants to access those aspects of structural funding from the European Union and Horizon 2020?

Yn ail, rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol y cynhaliwyd digwyddiad Addysg Uwch Cymru yn yr Oriel yn gynharach. Rwyf hefyd yn cynnal digwyddiad gydag is-gangellorion yng Nghymru heno. Lansiad wythnos Prifysgolion Cymru—Tanio Tyfiant yw hwn. Rwy'n gwybod bod gennym ddatganiad a barn gan eich Llywodraeth ar hynny. Fodd bynnag, a allai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ddod i'r Siambr ar ryw adeg cyn bo hir i ddweud wrthym sut y mae'n gweithio gyda'r prifysgolion hynny a chyda'r strwythur prifysgolion newydd i wneud yn siŵr bod yr, ond yn benodol, sut mae'r wythnos Tanio Tyfiant—gallaf weld y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn chwerthin, ond mae'n fater difrifol iawn mewn gwirionedd—yn cyd-fynd â mynediad at gronfeydd strwythurol a chyda thwf yn y dyfodol, y bydd pob un ohonynt yn dod yn fwy pwysig os yw Cymru eisiau cael mynediad at yr agweddau hynny ar arian strwythurol gan yr Undeb Ewropeaidd a Horizon 2020 yn y dyfodol?

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for those two questions. In relation to broadband, yes, I will ask the Minister for Economy, Science and Transport to bring us up to date on where we are on the roll-out of the superfast broadband. As the Minister for Education and Skills has said, he is making a statement this afternoon.

Diolch i'r Aelod am y ddau gwestiwn yna. O ran band eang, gwnaf, mi ofynnaf i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar y sefyllfa o ran cyflwyno'r band eang cyflym iawn. Fel y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ei ddweud, mae'n gwneud datganiad y prynhawn yma.

14:34

## Datganiad: Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi—Adroddiad Blynyddol 2013

## Statement: The Wales Infrastructure and Investment Plan for Growth and Jobs—Annual Report 2013

Senedd.tv
Fideo Video

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

In May 2012, I launched the Wales infrastructure investment plan for growth and jobs. This plan has created a step change in Wales, driving collaboration across Government and wider afield to develop a shared strategic understanding of both infrastructure needs and opportunities. It has acted as a catalyst to drive alignment between the prioritisation of our infrastructure investments, European programmes and wider Welsh Government delivery agendas, creating a clear policy approach to tailor the way we plan and approve infrastructure projects.

Ym mis Mai 2012, lansiais y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ar gyfer twf a swyddi. Mae'r cynllun hwn wedi creu newid sylweddol yng Nghymru, gan sbarduno cydweithrediad ar draws y Llywodraeth a thu hwnt i ddatblygu dealltwriaeth strategol gyffredin o anghenion a chyfleoedd seilwaith. Mae wedi bod yn gatalydd i sbarduno alinio rhwng blaenoriaethu ein buddsoddiadau seilwaith, rhaglenni Ewropeaidd ac agendâu darparu ehangach Llywodraeth Cymru, gan greu dull polisi clir i deilwra'r ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn cymeradwyo prosiectau seilwaith.

Today, I am pleased to be publishing the plan's first annual report, which summarises the progress since the launch last May. It highlights how we have delivered against the goals set out in the plan, providing a summary of key progress and activity across the Welsh Government.

Heddiw, rwyf yn falch o gyhoeddi adroddiad blynyddol cyntaf y cynllun, sy'n crynhoi'r cynnydd ers ei lansio fis Mai diwethaf. Mae'n amlygu'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn erbyn y nodau a amlinellir yn y cynllun, ac yn rhoi crynodeb o gynnydd a gweithgarwch allweddol ar draws Llywodraeth Cymru.

The Welsh economy has suffered greatly following the global economic recession. Sluggish growth has been compounded by significant cuts to our capital budget by the UK Government—a 30% reduction in real terms by 2014-15. Based on the most recent Office of Budget Responsibility forecasts, we expect our capital budget to have fallen by a further 20% in real terms by 2017-18. Over the 10 years from 2012-13 to 2021-22, we estimate that the Welsh Government will have up to £4 billion less capital available than was available in the previous 10 years.

Mae economi Cymru wedi dioddef yn fawr yn sgil y dirwasgiad economaidd byd-eang. Mae twf araf wedi ei waethygu gan doriadau sylweddol Llywodraeth y DU i'n cyllideb gyfalaf—30% o ostyngiad mewn termau real erbyn 2014-15. Yn seiliedig ar ragamcanion diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, rydym yn disgwyl y bydd ein cyllideb gyfalaf wedi gostwng 20% eto mewn termau real erbyn 2017-18. Dros y 10 mlynedd o 2012-13 i 2021-22, rydym yn amcangyfrif y bydd hyd at £4 biliwn yn llai o gyfalaf ar gael i Lywodraeth Cymru nag oedd ar gael yn y 10 mlynedd blaenorol.

However, the importance of infrastructure investment, both to the economy and to public service delivery, is very clear. Appropriately targeted infrastructure investment is one of the main ways that Government can contribute to growth and jobs. The World Economic Forum 2012 report on strategic infrastructure describes it as critical to economic progress. The Civil Engineering Contractors Association, in its May 2013 report, 'Securing our economy: The case for infrastructure', noted that for every 1,000 jobs created directly in infrastructure construction, employment as a whole rises by just over 3,000 jobs. This evidence further supports our approach to place infrastructure investment at the forefront of the Welsh Government's plans to stimulate and strengthen our economy and to tackle poverty.

Fodd bynnag, mae pwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith, o ran yr economi ac o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn glir iawn. Mae buddsoddi mewn seilwaith mewn ffordd sydd wedi'i thargedu'n briodol yn un o'r prif ffyrdd y gall Llywodraeth gyfrannu at dwf a swyddi. Mae adroddiad Fforwm Economaidd y Byd 2012 ar seilwaith strategol yn dweud ei fod yn allweddol o ran cynnydd economaidd. Nododd Cymdeithas y Contractwyr Peirianneg Sifil, yn ei hadroddiad ym mis Mai 2013, 'Securing our economy: The case for infrastructure', am bob 1,000 o swyddi sy'n cael eu creu'n uniongyrchol mewn adeiladu seilwaith, y gwelir cynnydd o ychydig dros 3,000 o swyddi mewn cyflogaeth yn gyffredinol. Mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi ymhellach ein dull o roi lle blaenllaw i fuddsoddi mewn seilwaith yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru i ysgogi a chryfhau ein heconomi ac i drechu tlodi.

I have called—and will continue to call—on the UK Government to increase capital budgets to boost infrastructure investment to stimulate the economy. This call was echoed by last month's International Monetary Fund article IV health check on the UK economy, which made it clear that the UK Government's austerity approach could further stifle growth and economic recovery. Evidence suggests that economic conditions will continue to be tough, and that budgets will be tight. Therefore, our priority remains to do all that we can to strengthen the Welsh economy, and to create an environment for growth and jobs.

The Wales infrastructure investment plan provides essential strategic knowledge and tools to deliver this objective. I can report that the plan has already achieved significant progress in delivering its objectives, including strengthening cross-Government appraisal, and the prioritisation of infrastructure investments. Since the publication of the plan last year, additional infrastructure investment of around £1.3 billion has been steered by this process. This £1.3 billion includes additional investment from capital reserves totalling over £460 million, financed in part through switching funds that we have saved, through prudent management in other areas of spending, into capital investment.

These additional capital allocations have been made in line with our seven core investment priorities: £88.7 million to improve the Welsh transport network, plus £29 million to protect infrastructure networks from flood and coastal erosion; an extra £10 million to improve telecommunications networks; £15 million to support the development of the energy industry in Wales; £46 million to develop our enterprise zones and wider business support activity; £99.7 million to support further investment in housing; £98 million to improve the quality of the educational estate, particularly schools; and £75.3 million to deliver more efficient and economical public services.

In the short term, we estimate that these investments will create around 8,000 jobs during construction phases. In the longer term, they will boost growth and will support the delivery of more efficient public services. I will be announcing details of further additional capital allocations in the budget in the autumn. In addition, we continue to strengthen engagement across the Welsh Government, maximising collaborative opportunities. For example, we have worked to develop an infrastructure priority in the 2014-20 European structural fund programmes—a potential £1.8 billion source of investment, which could make a significant contribution to the delivery of the priorities in our plan.

Rwyf wedi galw—a byddaf yn parhau i alw—ar Lywodraeth y DU i gynyddu cyllidebau cyfalaf i roi hwb i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn ysgogi'r economi. Adleisiwyd yr alwad hon gan wiriad iechyd erthygl IV y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar economi'r DU fis diwethaf, a oedd yn ei gwneud yn glir y gallai dull cynilo Llywodraeth y DU fygu twf ac adferiad economaidd ymhellach. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd yr amodau economaidd yn parhau i fod yn anodd, ac y bydd cyllidebau'n dynn. Felly, ein blaenoriaeth o hyd yw gwneud popeth o fewn ein gallu i gryfhau economi Cymru, ac i greu amgylchedd ar gyfer twf a swyddi.

Mae'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru'n darparu gwybodaeth ac offer strategol hanfodol i gyflawni'r amcan hwn. Gallaf adrodd bod y cynllun eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ei amcanion, gan gynnwys cryfhau arfarnu trawslywodraethol, a blaenoriaethu buddsoddiadau seilwaith. Ers cyhoeddi'r cynllun y llynedd, mae'r broses hon wedi llywio buddsoddi ychwanegol mewn seilwaith o tua £1.3 biliwn. Mae'r £1.3 biliwn hwn yn cynnwys buddsoddi ychwanegol o gronfeydd cyfalaf wrth gefn gwerth dros £460 miliwn, ac ariannwyd hynny'n rhannol drwy newid cronfeydd yr ydym wedi'u cynilo, drwy reolaeth ddoeth mewn meysydd gwariant eraill, yn fuddsoddiadau cyfalaf.

Gwnaed y dyraniadau cyfalaf ychwanegol hyn yn unol â'n saith blaenoriaeth fuddsoddi graidd: £88.7 miliwn i wella rhwydwaith trafnidiaeth Cymru, yn ogystal â £29 miliwn i ddiogelu rhwydweithiau seilwaith rhag llifogydd ac erydu arfordirol; £10 miliwn ychwanegol i wella rhwydweithiau telathrebu; £15 miliwn i gefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru; £46 miliwn i ddatblygu ein parthau menter a gweithgarwch ehangach i gefnogi busnesau; £99.7 miliwn i gefnogi buddsoddi pellach mewn tai; £98 miliwn i wella ansawdd yr ystâd addysgol, yn enwedig ysgolion; a £75.3 miliwn i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus.

Yn y tymor byr, rydym yn amcangyfrif y bydd y buddsoddiadau hyn yn creu tua 8,000 o swyddi yn ystod cyfnodau adeiladu. Yn y tymor hwy, byddant yn hybu twf a byddant o gymorth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithlon. Byddaf yn cyhoeddi manylion am ddyraniadau cyfalaf ychwanegol pellach yn y gyllideb yn yr hydref. Yn ogystal, rydym yn parhau i gryfhau'r ymgysylltu ar draws Llywodraeth Cymru, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithio. Er enghraifft, rydym wedi gweithio i ddatblygu blaenoriaeth seilwaith yn rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd 2014-20—ffynhonnell £1.8 biliwn o fuddsoddiad posibl, a allai wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni blaenoriaethau ein cynllun.

Through the plan, we have also implemented a number of innovative finance initiatives to boost housing, transport and education infrastructure investment in Wales. These initiatives will increase capital investment in Wales by around £900 million between 2012-13 and 2018-19, including: £170 million of essential investment in local roads between 2012-13 and 2014-15 through our local government borrowing initiative; £300 million to complete the dualling of the A465 by 2020, using a non-dividend investment vehicle; £100 million of essential investment in affordable housing through the Welsh housing partnership; more than £100 million of investment through a new mechanism to finance social housing, which will deliver over 1,000 affordable homes over the next four years—the Welsh housing bond; and £200 million of additional investment in the twenty-first century schools programme over the next three years, through the local government borrowing initiative. We will continue to build on this programme with further innovative finance initiatives, and I will make further announcements in this area in due course.

Drwy'r cynllun, rydym hefyd wedi rhoi ar waith nifer o fentrau cyllid arloesol i roi hwb i fuddsoddi yn seilwaith tai, trafnidiaeth ac addysg Cymru. Bydd y mentrau hyn yn cynyddu buddsoddiadau cyfalaf yng Nghymru tua £900 miliwn rhwng 2012-13 a 2018-19, gan gynnwys: £170 miliwn o fuddsoddi hanfodol mewn ffyrdd lleol rhwng 2012-13 a 2014-15 drwy ein menter benthyca llywodraeth leol; £300 miliwn i gwblhau'r gwaith deuoli ar yr A465 erbyn 2020, gan ddefnyddio dull buddsoddi di-ddifidend; £100 miliwn o fuddsoddi hanfodol mewn tai fforddiadwy drwy bartneriaeth tai Cymru; buddsoddi mwy na £100 miliwn drwy fecanwaith newydd i ariannu tai cymdeithasol, a fydd yn darparu dros 1,000 o gartrefi fforddiadwy dros y pedair blynedd nesaf—bond tai Cymru; a £200 miliwn o fuddsoddi ychwanegol yn rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain dros y tair blynedd nesaf, drwy'r fenter benthyca llywodraeth leol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y rhaglen hon gyda rhagor o fentrau cyllid arloesol, a byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ynghylch hyn maes o law.

Our new approach to infrastructure investment has not only boosted infrastructure investment by the Welsh Government, but, importantly, has helped to boost investment by our delivery partners, particularly local authorities. Last month, the Welsh Local Government Association warned that capital expenditure by councils in Wales is set to reduce significantly from 2013 onwards, with local government in Wales facing a collective, year-on-year decrease of 11%, or £121 million compared to 2012. This is a direct result of UK Government austerity. Without the action that we have taken, however, the situation would be very much worse. For example, without our local government borrowing initiative, spending on local roads and transport would be almost 35% lower in this financial year than the level now planned. The additional investment that we have enabled will make a real difference.

Mae ein hymagwedd newydd at fuddsoddi mewn seilwaith nid yn unig wedi rhoi hwb i fuddsoddi mewn seilwaith gan Lywodraeth Cymru, ond, yn bwysig iawn, mae wedi helpu i hybu buddsoddi gan ein partneriaid cyflenwi, yn enwedig yr awdurdodau lleol. Fis diwethaf, rhybuddiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd gwariant cyfalaf gan gynghorau yng Nghymru'n lleihau'n sylweddol o 2013 ymlaen, ac y bydd llywodraeth leol yng Nghymru'n wynebu 11% o ostyngiad ar y cyd o flwyddyn i flwyddyn, neu £121 miliwn o'i gymharu â 2012. Mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol i gamau cynilo Llywodraeth y DU. Heb y camau yr ydym wedi'u cymryd, fodd bynnag, byddai'r sefyllfa'n llawer iawn gwaeth. Er enghraifft, heb ein menter benthyca llywodraeth leol, byddai gwariant ar ffyrdd a chludiant lleol bron i 35% yn is yn y flwyddyn ariannol hon na'r lefel sydd ar y gweill yn awr. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yr ydym wedi'i alluogi yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

Our new approach is not only about increasing investment and improving prioritisation, as we have also been working to improve investment planning and appraisal across the public sector in Wales. Our better business case programme has become an internationally accredited standard—developed in Wales to strengthen business assurance across the Welsh public sector and to drive public value from spending proposals. Ongoing engagement with partners has also been a crucial element in our new approach, accessing knowledge and expertise across all regions and sectors to shape and refine this work as it continues to develop.

Mae ein hymagwedd newydd yn ymwneud â mwy na chynyddu buddsoddi a gwella blaenoriaethu, gan ein bod hefyd wedi bod yn gweithio i wella gwaith cynllunio buddsoddi ac arfarnu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein rhaglen achos busnes gwell wedi dod yn safon sydd wedi'i hachredu'n rhyngwladol—wedi'i datblygu yng Nghymru i gryfhau sicrwydd busnes ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ac i hybu gwerth cyhoeddus yn sgil cynigion gwariant. Mae ymgysylltu parhaus â phartneriaid hefyd wedi bod yn elfen hanfodol yn ein hymagwedd newydd, ac rydym wedi cael gafael ar wybodaeth ac arbenigedd ar draws y rhanbarthau a'r sectorau i lywio a mireinio'r gwaith hwn wrth iddo barhau i ddatblygu.

As Members will be aware, the plan, published last May, included for the first time a pipeline of key Welsh Government infrastructure schemes across all sectors. Since then, we have pushed to improve visibility and clarity of infrastructure investment in Wales. The June 2013 publication of the pipeline, which I am publishing alongside this report, also includes, for the first time, information on local government investment schemes. This represents a significant step towards the development of a complete infrastructure investment picture for Wales. We have also worked to strengthen engagement with the UK Government to progress key priorities, successfully securing the electrification of the Valleys and Great Western main lines. We are now pressing strongly for electrification in north Wales. In addition, constructive and positive discussions around Welsh Government borrowing to finance a strategic enhancement of the M4 are reaching their conclusion as part of the Silk process.

Fel y gŵyr yr Aelodau, roedd y cynllun, a gyhoeddwyd fis Mai diwethaf, yn cynnwys, am y tro cyntaf, cynlluniau seilwaith allweddol Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill ar draws pob sector. Ers hynny, rydym wedi gwthio i wella amlygrwydd ac eglurder buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru. Mae cyhoeddi'r cynlluniau sydd ar y gweill ym mis Mehefin 2013, y byddaf yn eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, hefyd yn cynnwys, am y tro cyntaf, wybodaeth am gynlluniau buddsoddi llywodraeth leol. Mae hyn yn gam sylweddol tuag at ddatblygu darlun buddsoddi mewn seilwaith cyflawn ar gyfer Cymru. Rydym hefyd wedi gweithio i gryfhau'r ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ddatblygu blaenoriaethau allweddol, ac wedi llwyddo i sicrhau y bydd prif linellau'r Cymoedd a Great Western yn cael eu trydaneiddio. Rydym yn awr yn pwyso'n gryf am drydaneiddio yng ngogledd Cymru. Yn ogystal, mae trafodaethau adeiladol a chadarnhaol ynghylch benthyca gan Lywodraeth Cymru i ariannu gwaith gwella strategol ar yr M4 yn cyrraedd eu terfyn fel rhan o broses Silk.

It is crucial that public infrastructure investment generates sustainable growth and jobs in local communities. That is why we are integrating the Welsh Government community benefits policy into the plan and all associated investments, to ensure maximum job and training opportunities from public procurement in Wales. Finally, further development of our approach is essential to continue to improve the planning, financing and delivery of the infrastructure Wales needs for the future. With this in mind, the infrastructure plan sits at the heart of my work to establish a Welsh treasury, as we seek to develop ever more effective management and investment of our resources.

Mae'n hanfodol bod buddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus yn cynhyrchu twf a swyddi cynaliadwy mewn cymunedau lleol. Dyna pam yr ydym yn integreiddio polisi manteision cymunedol Llywodraeth Cymru yn y cynllun a'r holl fuddsoddiadau cysylltiedig, er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl o ran swyddi a hyfforddiant yn sgil caffael cyhoeddus yng Nghymru. Yn olaf, mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu ein dull ymhellach er mwyn parhau i wella gwaith cynllunio, ariannu a darparu'r seilwaith sydd ei angen ar Gymru ar gyfer y dyfodol. Gyda hyn mewn golwg, mae'r cynllun seilwaith yn ganolog i'm gwaith i sefydlu trysorlys i Gymru, wrth inni geisio sicrhau y caiff ein hadnoddau eu rheoli a'u buddsoddi hyd yn oed yn fwy effeithiol.

14:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the opposition spokesperson, Paul Davies.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.

14:43

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I thank the Minister for her statement this afternoon. I am pleased to support the Wales infrastructure investment plan in general, and I am grateful for the Minister's annual update.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Rwyf yn falch o gefnogi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru'n gyffredinol, ac rwyf yn ddiolchgar am ddiweddariad blynyddol y Gweinidog.

My first question is in relation to the governance of projects outlined in this plan. I note from the annual report that a collaborative cross-Government process and an internal committee for strategic investments have been established, which prioritise schemes based on the biggest economic impact. I would be grateful if the Minister could outline what specific criteria are used by this internal committee to ensure that these schemes have the biggest impact on increasing growth and jobs, and on reducing poverty.

Mae fy nghwestiwn cyntaf yn ymwneud â llywodraethu'r prosiectau a amlinellir yn y cynllun hwn. Sylwaf o'r adroddiad blynyddol fod proses gydweithio drawslywodraethol a phwyllgor mewnol ar gyfer buddsoddiadau strategol wedi eu sefydlu, sy'n blaenoriaethu cynlluniau'n seiliedig ar yr effaith economaidd fwyaf. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog amlinellu pa feini prawf penodol sy'n cael eu defnyddio gan y pwyllgor mewnol hwn i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael yr effaith fwyaf ar gynyddu twf a swyddi, ac ar leihau tlodi.

Secondly, I am pleased that the Wales infrastructure investment plan recognises the importance of securing private finance. Indeed, last year's document refers to securing private finance as being central to boosting investment in Wales's infrastructure. One of the Minister's predecessors committed to establishing a central public-private partnership unit to manage projects on behalf of the Welsh Government and to offer advice and training to other statutory bodies considering the public-private partnership as a financial tool. I believe that he said that he was going to establish a body called 'partnership Wales'. I know that I have raised this issue before, but given that commitment, and in light of this afternoon's statement, can the Minister tell us whether this is still the Welsh Government's intention and when this body will be established, or is it now the responsibility of this new, internal committee?

Yn ail, rwyf yn falch bod y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau cyllid preifat. Yn wir, mae dogfen y llynedd yn dweud bod sicrhau cyllid preifat yn ganolog i hybu buddsoddi yn seilwaith Cymru. Ymrwymodd un o ragflaenwyr y Gweinidog i sefydlu uned ganolog partneriaethau cyhoeddus-preifat i reoli prosiectau ar ran Llywodraeth Cymru ac i gynnig cyngor a hyfforddiant i gyrff statudol eraill sy'n ystyried y bartneriaeth cyhoeddus-preifat fel offeryn ariannol. Credaf iddo ddweud ei fod yn bwriadu sefydlu corff o'r enw 'partneriaeth Cymru'. Gwn fy mod wedi codi'r mater hwn o'r blaen, ond o ystyried yr ymrwymiad hwnnw, ac yng ngoleuni'r datganiad y prynhawn yma, a all y Gweinidog ddweud wrthym a yw hyn yn dal i fod yn fwriad gan Lywodraeth Cymru a phryd y bydd y corff hwn yn cael ei sefydlu, neu a yw bellach yn gyfrifoldeb ar y pwyllgor newydd, mewnol hwn?

The Minister made it clear that one of the goals of the infrastructure investment plan last year was to supplement traditional funding with innovative approaches, which we have discussed at length in this Chamber. Today's report highlights the benefits of the local government borrowing initiative as a means to secure additional investment in Welsh highways, for example. Today's report also refers to a new housing mechanism that is financing the delivery of over 1,000 affordable homes in the next four years. I would be grateful if the Minister could provide more detail on the type of mechanism being used. Also, given that the Welsh Government is keen to deliver innovative finance schemes, can the Minister confirm how much private sector money in total the Welsh Government has levered in to fund some of these projects over the last 12 months?

Dywedodd y Gweinidog yn glir fod ychwanegu at y cyllid traddodiadol drwy ddulliau arloesol, yr ydym wedi eu trafod yn helaeth yn y Siambr hon, yn un o amcanion y cynllun buddsoddi mewn seilwaith y llynedd. Mae adroddiad heddiw yn amlygu manteision y fenter benthyca llywodraeth leol fel modd o sicrhau buddsoddiad ychwanegol ym mhriffyrdd Cymru, er enghraifft. Mae'r adroddiad heddiw hefyd yn cyfeirio at fecanwaith tai newydd sy'n ariannu darparu dros 1,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod y pedair blynedd nesaf. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi mwy o fanylion am y math o fecanwaith a ddefnyddir. Hefyd, o gofio bod Llywodraeth Cymru'n awyddus i gyflwyno cynlluniau ariannol arloesol, a all y Gweinidog gadarnhau faint o arian y sector preifat y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddenu'n gyfan gwbl i ariannu rhai o'r prosiectau hyn yn ystod y 12 mis diwethaf?

I note from her statement that the Minister will make further announcements with regard to further innovative finance initiatives in the future. Perhaps she would be kind enough to give us an indication as to when these further announcements will be made. It is also crucial that the Wales infrastructure investment plan works alongside the new national procurement service, which was launched earlier this year, and will, of course, be operational in November. It is vital that any Welsh Government procurement service derives the maximum value for money from investment projects. Again, while I am supportive of this, I still have some reservations about the impact that this could have on smaller businesses. I note from today's report that the communities benefit measurement tool has resulted in 18 contracts, worth £282 million. However, it is crucial that we ensure that local authorities, for example, continue to have the flexibility to work with small and medium-sized enterprises in considering contracts, and that the national procurement service should not limit local flexibility. Therefore, perhaps the Minister could elaborate on how the infrastructure investment plan and the national procurement service will work together and promote a flexible agenda that is not a one-size-fits-all solution. That is crucial if we are to grow the economy and create jobs.

Sylwaf o'i datganiad y bydd y Gweinidog yn gwneud cyhoeddiadau pellach mewn perthynas â mentrau cyllid arloesol pellach yn y dyfodol. Efallai y byddai mor garedig â rhoi syniad inni ynghylch pryd y bydd y cyhoeddiadau pellach hyn yn cael eu gwneud. Mae hefyd yn hanfodol bod y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru'n gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth caffael cenedlaethol newydd, a lansiwyd yn gynharach eleni, a fydd, wrth gwrs, yn weithredol ym mis Tachwedd. Mae'n hanfodol bod unrhyw wasanaeth caffael gan Lywodraeth Cymru'n sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am arian o'r prosiectau buddsoddi. Unwaith eto, er fy mod yn gefnogol i hyn, mae gennyf rywfaint o amheuon o hyd am yr effaith y gallai hyn ei chael ar fusnesau llai. Nodaf o'r adroddiad heddiw fod yr offeryn mesur manteision cymunedol wedi arwain at 18 o gontractau, sy'n werth £282 miliwn. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau hyblygrwydd i awdurdodau lleol, er enghraifft, i weithio gyda busnesau bach a chanolig wrth ystyried contractau, ac na ddylai'r gwasanaeth caffael cenedlaethol gyfyngu ar hyblygrwydd lleol. Felly, efallai y gallai'r Gweinidog ymhelaethu ar sut y bydd y cynllun buddsoddi mewn seilwaith a'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn hyrwyddo agenda hyblyg nad yw'n darparu un ateb sy'n addas i bawb. Mae hynny'n hollbwysig os ydym am dyfu'r economi a chreu swyddi.

I cannot emphasise enough how important it is to continually engage with the business community in Wales in relation to procurement policy. It is also important that strong stakeholder engagement is undertaken in relation to the infrastructure investment plan. This engagement will strengthen the Welsh Government's approach and provide the appropriate expertise to help shape how this investment is targeted. Can the Minister therefore reassure us that the stakeholder engagement mentioned in the report is with businesses of all sizes, but especially with small and medium-sized enterprises?

Ni allaf orbwysleisio pa mor bwysig yw ymgysylltu'n barhaus â'r gymuned fusnes yng Nghymru o ran polisi caffael. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ymgysylltu'n gryf â rhanddeiliaid mewn perthynas â'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith. Bydd yr ymgysylltu hwn yn cryfhau ymagwedd Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r arbenigedd priodol i helpu i lywio'r ffordd y caiff y buddsoddiad hwn ei dargedu. A all y Gweinidog felly ein sicrhau bod yr ymgysylltu â rhanddeiliaid a grybwyllir yn yr adroddiad hwn yn digwydd â busnesau o bob maint, ond yn enwedig â mentrau bach a chanolig?

In closing, I once again thank the Minister for her statement. I look forward to hearing more about the development of specific projects over the coming weeks and months.

I gloi, diolch unwaith eto i'r Gweinidog am ei datganiad. Edrychaf ymlaen at glywed mwy am ddatblygiad prosiectau penodol dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

14:47

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the opposition finance spokesperson for his constructive support for the Wales infrastructure investment plan. Just to clarify a few points arising from his questions, yes, it is about delivering a better process in terms of our infrastructure, and we have that internal, cross-departmental committee for strategic investment. It is clear that we have to prioritise the funding that we have, and schemes have to fit with our priorities: the programme for government, and the high-level investment priorities laid out in the infrastructure plan. Crucially, in terms of delivery and governance, we have to ensure that the schemes are robust, deliverable and optimise value for money. We are now providing training and technical support to our departments and the wider public sector to improve how we develop spending proposals. It is clear that that rigorous appraisal of investment in choosing priorities and investment objectives, but also delivering in terms of ongoing project management, is key.

Diolch i lefarydd cyllid yr wrthblaid am ei gefnogaeth adeiladol i'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Rwyf am egluro rhai pwyntiau sy'n codi o'i gwestiynau; ydy, mae'n ymwneud â darparu proses well o ran ein seilwaith, ac mae gennym y pwyllgor mewnol, trawsadrannol hwnnw ar gyfer buddsoddi strategol. Mae'n amlwg bod yn rhaid inni flaenoriaethu'r arian sydd gennym, a bod yn rhaid i'r cynlluniau gyd-fynd â'n blaenoriaethau: y rhaglen lywodraethu, a'r blaenoriaethau buddsoddi lefel uchel a nodir yn y cynllun seilwaith. Yr hyn sy'n allweddol, o ran cyflenwi a llywodraethu, yw bod yn rhaid inni sicrhau bod y cynlluniau'n gadarn, ei bod yn bosibl eu cyflenwi a'u bod yn rhoi'r gwerth gorau am arian. Rydym bellach yn darparu hyfforddiant a chymorth technegol i'n hadrannau ac i'r sector cyhoeddus ehangach i wella'r ffordd yr ydym yn datblygu cynigion gwario. Mae'n amlwg bod gwerthuso trwyadl ar fuddsoddi wrth ddewis blaenoriaethau ac amcanion buddsoddi, a rheoli prosiectau'n barhaus hefyd, yn allweddol.

It is important that we recognise, as I have on many occasions, that the development of innovative finance does include private finance, so long as it is good value for money, fair, and the economic case for investment is strong. We have clearly been vindicated in not using the old, discredited private finance initiative model in the development of any future Welsh initiatives of the kind. We are also looking at the UK Government's new Private Finance 2 approach and other models used across the UK, such as the Scottish not-for-dividend model. We recognise that this gives us more opportunities, given the lower annual PFI liabilities we have as a result of us not using the old PFI model. However, we are progressing, and not just through the local government borrowing initiative, as a very innovative way forward—many organisations have acknowledged the impact of the £170 million investment in highways we have made, assisting local authorities—and also the non-dividend investment vehicle we are developing for the A465.

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod, fel yr wyf wedi ei wneud ar sawl achlysur, fod datblygu cyllid arloesol yn cynnwys cyllid preifat, a bwrw ei fod yn rhoi gwerth da am arian ac yn deg, a bod yr achos economaidd dros fuddsoddi'n gryf. Roedd cyfiawnhad yn amlwg dros inni beidio â defnyddio hen fodel y fenter cyllid preifat, sydd bellach wedi colli ei hygrededd, wrth ddatblygu unrhyw fentrau Cymreig o'r fath yn y dyfodol. Rydym hefyd yn edrych ar ddull Cyllid Preifat 2 Llywodraeth y DU a modelau eraill a ddefnyddir ar draws y DU, megis model di-ddifidend yr Alban. Rydym yn cydnabod bod hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd inni, o ystyried y rhwymedigaethau PFI blynyddol is sydd gennym am nad ydym bellach yn defnyddio'r hen fodel PFI. Fodd bynnag, rydym yn symud yn ein blaenau, ac nid dim ond drwy'r fenter benthyca llywodraeth leol, fel ffordd hynod arloesol ymlaen—mae llawer o sefydliadau wedi cydnabod effaith y buddsoddiad £170 miliwn mewn priffyrdd yr ydym wedi'i wneud, sydd o gymorth i awdurdodau lleol—a hefyd y dull buddsoddi di-ddifidend yr ydym yn ei ddatblygu ar gyfer yr A465.

Your point on the housing bond is important. It demonstrates the innovation we are taking forward. We have committed £4 million a year for 30 years to support over £100 million of investment in this new housing mechanism, which is widely welcomed and recognised in the housing sector beyond Wales. It is going to finance more than 1,000 affordable homes over the next four years.

Mae eich pwynt am y bond tai yn bwysig. Mae'n dangos ein blaengarwch. Rydym wedi ymrwymo £4 miliwn y flwyddyn am 30 mlynedd i gefnogi buddsoddiad gwerth dros £100 miliwn yn y mecanwaith tai newydd, y mae croeso a chydnabyddiaeth eang iddo yn y sector tai y tu hwnt i Gymru. Bydd yn ariannu dros 1,000 o gartrefi fforddiadwy dros y pedair blynedd nesaf.

It is important that we take forward further opportunities for innovative finance. I will come back to the Senedd on that in due course as we work through the models. I completely take on board your point about procurement. That is why engagement with business, including microbusinesses and SMEs, is critical in delivering on procurement. We are bringing together procurement and strategic engagement, including with my colleagues the Minister for Economy, Science and Transport and the Minister for local government, to ensure that the national procurement service delivers as part of the infrastructure investment plan.

Mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar gyfleoedd pellach ar gyfer cyllid arloesol. Byddaf yn dod yn ôl at y Senedd ynghylch hynny maes o law wrth inni weithio drwy'r modelau. Derbyniaf yn llwyr eich pwynt ynglŷn â chaffael. Dyna pam y mae ymgysylltu â busnesau, gan gynnwys microfusnesau a busnesau bach a chanolig, yn hanfodol o ran cyflawni ar gaffael. Rydym yn dod â chaffael ac ymgysylltu strategol at ei gilydd, ac rwyf i a'm cyd-weithwyr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog llywodraeth leol, yn cydweithio i sicrhau bod y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn cyflawni fel rhan o'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith.

14:51 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I welcome the Wales infrastructure investment plan, remembering that it takes place against a background of global recession, a 50% cut in capital expenditure in real terms by 2018, and, especially, no borrowing powers for the Welsh Government as yet. Austerity has not worked, but the Westminster Government's solution is more austerity. The importance of infrastructure investment cannot be overstated. It creates jobs, it gets people into work and it gets the economy moving.

Yn gyntaf oll, croesawaf y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, o gofio ei fod yn digwydd yn erbyn cefndir o ddirwasgiad byd-eang, torri 50% ar wariant cyfalaf mewn termau real erbyn 2018, ac, yn arbennig, dim pwerau benthyca i Lywodraeth Cymru hyd yma . Nid yw cynilo wedi gweithio, ond ateb y Llywodraeth yn San Steffan yw mwy o gynilo. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith. Mae'n creu swyddi, yn sicrhau gwaith i bobl ac yn gwneud i'r economi symud.

I thank the Minister for showing in her statement the success of the Wales infrastructure investment plan. Moreover, I welcome the local government borrowing initiative, something I spoke about a lot before it came in. I am very pleased to see that. Can the Minister outline exactly what has been spent on that this year and also let us know whether it will continue in future? In my area, it has made a big difference to road maintenance, for example. Also, has there been any progress in gaining borrowing powers, which would really make the big difference in terms of infrastructure in Wales?

Diolch i'r Gweinidog am ddangos yn ei datganiad lwyddiant y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Rwyf hefyd yn croesawu'r fenter benthyca llywodraeth leol, menter y siaradais lawer amdani cyn iddi gael ei chyflwyno. Rwyf yn falch iawn o weld hynny. A all y Gweinidog amlinellu'n union beth sydd wedi ei wario ar hynny eleni a hefyd roi gwybod inni a fydd yn parhau yn y dyfodol? Yn fy ardal i, mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr o ran cynnal a chadw ffyrdd, er enghraifft. Hefyd, a fu unrhyw gynnydd o ran cael pwerau benthyca, oherwydd dyna fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mawr o ran seilwaith yng Nghymru?

14:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mike Hedges for his very supportive comments and questions. We await the UK Government's response on borrowing powers. We already have support, as a result of our intergovernmental talks in October, for early access to borrowing powers. We now await the response to the Silk commission. We have had very effective talks over the past year about reforming the funding settlement for Wales, because that is what we need: a reform of the funding settlement to give us the tools for the job in terms of access to borrowing powers.

Diolch i Mike Hedges am ei sylwadau a'i gwestiynau cefnogol iawn. Rydym yn aros am ymateb Llywodraeth y DU ar bwerau benthyca. Mae gennym gefnogaeth eisoes, o ganlyniad i'n trafodaethau rhynglywodraethol ym mis Hydref, i gael pwerau benthyca'n gynnar. Rydym yn awr yn aros am yr ymateb i gomisiwn Silk. Cawsom drafodaethau effeithiol iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ynghylch diwygio'r setliad cyllido i Gymru, oherwydd dyna'r hyn sydd ei angen arnom: diwygio'r setliad cyllido i roi inni'r arfau ar gyfer y gwaith o ran cael pwerau benthyca.

You focused on the local government borrowing initiative, which has been hugely successful. Members will have seen the coverage of its success yesterday when the Institute of Advanced Motorists and the Royal Institution of Chartered Surveyors recognised what we have done in Wales. It has had a beneficial impact on local government in terms of their finances, but, most importantly, on our roads in Wales.

Roeddech yn canolbwyntio ar y fenter benthyca llywodraeth leol, sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus. Bydd yr Aelodau wedi gweld y sylw a roddwyd i lwyddiant y fenter ddoe pan gydnabu Sefydliad y Gyrwyr Uwch a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yr hyn yr ydym wedi'i wneud yng Nghymru. Mae wedi cael effaith fuddiol ar lywodraeth leol o ran eu cyllid, ond, yn bwysicaf oll, ar ein ffyrdd yng Nghymru.

You can also look at the way in which we are taking this forward with the twenty-first century schools programme to enable us to provide additional revenue support from next year to free up resources to accelerate investment in the twenty-first century schools programme. We are talking about up to £200 million in extra investment over the next three years. That means that we have to make available to local authorities around £10 million a year for up to 30 years. That is going to be an important allocation for us in terms of our revenue commitment.

Gallwch hefyd edrych ar y ffordd yr ydym yn bwrw ymlaen â hyn o ran rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain er mwyn inni allu darparu cymorth refeniw ychwanegol o'r flwyddyn nesaf ymlaen er mwyn rhyddhau adnoddau i gyflymu buddsoddi yn rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn sôn am hyd at £200 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol dros y tair blynedd nesaf. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid inni drefnu bod tua £10 miliwn y flwyddyn ar gael i awdurdodau lleol am hyd at 30 mlynedd. Mae hynny'n mynd i fod yn ddyraniad pwysig inni o ran ein hymrwymiad refeniw.

There is a partnership approach with local government in terms of the twenty-first century schools programme, following the success of the highways initiative, which is now in its second year of delivery.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol o ran rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, yn dilyn llwyddiant y fenter briffyrdd, sydd bellach yn ei hail flwyddyn.

14:55

## Ieuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am yr adroddiad heddiw. Hoffwn ddweud yn y lle cyntaf ei bod yn dda iawn gweld rhai o gynlluniau 'Cymru'n Un' yn parhau yn y rhaglen hon. Hoffwn gyfeirio at dri ohonynt sy'n hynod o bwysig yn benodol, sef ail-ddyblu'r llinell rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer, a fydd yn cryfhau'r gwasanaeth rhwng y de a'r gogledd, cynllun deuoli'r A465 ym Mlaenau'r Cymoedd, a gwella cefnffordd yr A477 o San Clêr i Ros-goch. Llongyfarchiadau i'r Llywodraeth am barhau â rhaglen wych y Llywodraeth flaenorol.

I thank the Minister very much for the report today. I would like to say in the first place that it is very good to see some of the 'One Wales' schemes retained in this programme. I would like to refer to three that are extremely important in particular, namely doubling the rail track between Wrexham and Chester, which will enhance the service between north and south Wales, dualling the A465 in the Heads of the Valleys, and improving the A477 trunk road from St Clears to Red Roses. I congratulate the Minister on continuing with the excellent programme of the previous Government.

Wrth basio, hoffwn ddweud hefyd fod rhai o'r cynlluniau hyn yn ddibynnol ar arian Ewropeaidd. Fel yr oeddwn wedi awgrymu i'r Prif Weinidog yn gynharach, a yw'r Gweinidog yn cytuno pe na fyddai Cymru yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, byddai rhai o'r cynlluniau pwysig hyn yn syrthio i'r neilltu? Wedi dweud hynny, er bod nifer o gynlluniau da iawn yn y rhaglen, mae'n amlwg bod y rhaglen—rydych wedi awgrymu hyn eich hun—o dan warchae oherwydd y toriadau o Lundain. Erbyn hyn, rydym yn gwybod y bydd y toriadau o bosibl yn mynd ymlaen tan 2020, beth bynnag fydd lliw'r Llywodraeth yn San Steffan ar ôl etholiad 2015.

In passing, I would also like to say that some of these schemes are dependent on European funding. As I suggested to the First Minister earlier, does the Minister agree that if Wales were not a member of the European Union, some of those important schemes would fall by the wayside? That said, although there are a number of very good schemes in the programme, it is clear that the programme—you have suggested this yourself—is under siege because of the cuts from London. We now know that the cuts may continue until 2020, whatever the hue of the Government in Westminster after the 2015 election.

Er bod rhestr hir o gynlluniau ar y gweill—rwy'n croesawu bod y rhestr wedi cael ei chyhoeddi, fel yr wyf wedi awgrymu—mae'n amlwg bod nifer fawr o gynlluniau eraill a fyddai wedi bod yn y rhaglen wedi cael eu gohirio hyd at amser amhenodol yn y dyfodol sydd hyd yn oed yn bellach i ffwrdd nag yr oeddwn yn ei feddwl yn 2010. Bydd rhai o'r cynlluniau hyn, o bosibl, hyd yn oed yn cael eu diddymu'n llwyr.

Although there is a long list of schemes in the pipeline—I welcome the fact that the list has been published, as I have suggested—it is clear that there are very many other schemes that would have been in the programme and that have been deferred to an unspecified time in the future that is even further away than we had anticipated in 2010. Some of these schemes may even be shelved altogether.

Nid oes modd yn y byd i dorri cyllideb gan 40% heb i rywbeth roi. Rydych chi'ch hun, Weinidog, yn cydnabod y bydd gwerth arian cyfalaf y Llywodraeth, yn nhermau real, yn gostwng £4 biliwn erbyn 2021-22, sy'n swm enfawr dros gyfnod o amser. Gan mai prin yw'r offerynnau sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i hybu'r economi, fel y mae ambell i Aelod arall wedi awgrymu, mae defnyddio cyfalaf cyhoeddus, ochr yn ochr â chyfalaf preifat, yn allweddol. Bellach, felly, wedi dwy flynedd o oes y Llywodraeth bresennol, prin iawn—hyd y gwelaf, beth bynnag—yw'r arian ychwanegol sydd wedi'i glustnodi.

There is no way in the world you can cut a budget by 40% without something having to give. You yourself, Minister, acknowledge that the value of the Government's capital funding, in real terms, will fall by £4 billion by 2021-22, which is a huge sum over that period of time. Given that few instruments are available to the Welsh Government at present to promote the economy, as a few other Members have suggested, making use of public capital, alongside private capital, is crucial. Now, two years into this current Government, not much—as far as I can see, in any case—additional funding has been allocated.

Rydych yn cyfeirio, yn eich datganiad, at swm o £900 miliwn yn ychwanegol. Fodd bynnag, mae hynny hyd at 2018-19, sef dros gyfnod o chwe mlynedd, sydd, ar gyfartaledd, rhyw £150 miliwn y flwyddyn. Yr hyn y mae Gerry Holtham wedi bod yn dweud wrthym yw bod yn rhaid i ni fod yn feiddgar iawn yn y ffordd yr ydym yn edrych am arian cyfalaf, a dylem fod yn siarad yn nhermau biliynau ac nid miliynau. Rwy'n dod yn ôl, felly, at y cwestiwn digon teg a ofynnodd Paul Davies ynglŷn â phryd y mae'r Llywodraeth yn mynd i gyhoeddi'r cynlluniau cyllido arloesol, megis ein cynllun ni, Adeiladu dros Gymru, a oedd yn un enghraifft o gynlluniau felly. Rydych wedi dweud yn eich datganiad, ac rydych wedi ei ailadrodd mewn ymateb i Paul Davies, y bydd hyn yn digwydd maes o law—'in due course'. Hoffwn i chi fod ychydig bach yn fwy pendant na hynny ac awgrymu dyddiad mwy pendant i ni, ac nid yn unig y dyddiad, ond faint o arian yr ydych yn meddwl y bydd yn debygol o gael ei godi drwy'r cynlluniau cyllido arloesol hyn.

You refer, in your statement, to a figure of £900 million as being additional. However, that is for up to 2018-19, so over a period of six years, which, on average, is some £150 million a year. What Gerry Holtham has been telling us is that we have to be very innovative in how we seek capital funding, and we should be talking in terms of billions, not millions. I return, therefore, to the perfectly reasonable question that Paul Davies asked about when the Government will publish the innovative funding proposals similar to our scheme, Build for Wales, which was one example of such a scheme. You have said in your statement, and have reiterated in response to Paul Davies, that that will happen in due course. I would like you to be a little more specific than that and suggest a more definite date to us, and not only the date, but the amount of money you think is likely to be raised through these innovative funding schemes.

Yn ail, beth fydd yr amserlen ar gyfer sicrhau hawliau benthyg? Rydym yn gwybod bod yna gyhoeddiad am gyllideb y Llywodraeth yn 2015-16 yn digwydd ddiwedd y mis hwn. A ydych yn disgwyl bydd cyhoeddiad ar hawliau benthyg bryd hynny, a beth ydych yn disgwyl bydd cwmpawd yr hawliau hynny?

Secondly, what will the timetable be for ensuring borrowing powers? We know that an announcement will be made on the Government budget in 2015-16 at the end of this month. Do you anticipate that there will be an announcement on borrowing powers at that time, and what do expect those powers to include?

Yn olaf, pryd ydych yn disgwyl cyhoeddiad gan y Llywodraeth yn Llundain ar bwerau trethu? Rydym wedi clywed bod yr ymateb fod i gael ei wneud yn y gwanwyn. Wel, mae'r gwanwyn yn dechrau troi'n haf, ac mae'n bosibl y bydd yr haf wedi troi'n hydref cyn i ni gael clywed. A yw'r Gweinidog yn gallu'n diweddaru o ran pryd y mae'n disgwyl y cyhoeddiad hwnnw?

Finally, when do you expect an announcement by the Government in London on taxation powers? We have heard that the response was supposed to come in the spring. Well, spring is now becoming summer, and it is possible that summer will have become autumn before we have heard anything. Can the Minister give us an update on when she expects that announcement?

14:59

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that Ieuan Wyn Jones makes very clear the vital importance of our European funding and our place in Europe. In fact, if we just look at some of the EU infrastructure investments—broadband has been mentioned earlier this afternoon—we will see that structural funds supporting Superfast Cymru is just one example. It is the largest programme of its kind in the UK, and that, combined with commercial roll-out, will mean that 96% of premises in Wales will have access to fast fibre broadband by 2016, as a result of that partnership. In addition, the Harbour Way project is another example of that infrastructure investment, with £56 million from the European regional development fund invested in links between junction 38 on the M4 to Port Talbot and the docks, creating business and employment opportunities in west Wales.

Credaf fod Ieuan Wyn Jones yn nodi'n glir iawn bwysigrwydd allweddol ein cyllid Ewropeaidd a'n lle yn Ewrop. Yn wir, o edrych ar rai o fuddsoddiadau seilwaith yr UE yn unig —cafodd band eang ei grybwyll yn gynharach y prynhawn yma— gwelwn fod y cronfeydd strwythurol sy'n cefnogi Superfast Cymru'n un enghraifft. Dyma'r rhaglen fwyaf o'i bath yn y DU, ac mae hynny, ynghyd â chyflwyno masnachol, yn golygu y bydd gan 96% o safleoedd yng Nghymru fynediad i fand eang ffibr cyflym erbyn 2016, o ganlyniad i'r bartneriaeth honno. Yn ogystal, mae prosiect Ffordd yr Harbwr yn enghraifft arall o'r buddsoddi hwnnw mewn seilwaith, gyda £56 miliwn o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop wedi'i fuddsoddi mewn cysylltiadau rhwng cyffordd 38 ar yr M4 a Phort Talbot a'r dociau, sy'n creu cyfleoedd busnes a chyflogaeth yng ngorllewin Cymru.

We are committed—against the backdrop of the tough regime that we have in terms of the reducing capital budget—to stimulating economic growth, creating jobs and reducing poverty. That is why it was a budget for growth and jobs that was passed in the Assembly in December, including £232 million of infrastructure investment over the next two years. That will provide a much-needed boost for economic growth, and it will create or protect an estimated 4,000 jobs.

Rydym wedi ymrwymo—yng nghyd-destun y gyfundrefn anodd sydd gennym o ran cyllideb gyfalaf sy'n lleihau—i ysgogi twf economaidd, creu swyddi a lleihau tlodi. Dyna pam mai cyllideb ar gyfer twf a swyddi a basiwyd yn y Cynulliad ym mis Rhagfyr, gan gynnwys £232 miliwn o fuddsoddi mewn seilwaith dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd hynny'n rhoi hwb y mae ei angen yn ddirfawr i dwf economaidd, a bydd yn creu neu'n diogelu tua 4,000 o swyddi.

However, it is quite right that we are pressing all of the boundaries on a new innovative investment programme, building on what we are achieving in terms of the housing bond, the Welsh housing partnership, the local government borrowing initiative and testing the non-dividend investment vehicle for the dualling of the A465. We are looking carefully at that and not only at examples from Scotland, which has committed to a £2.5 billion revenue funded investment programme. We have to look at the annual revenue liabilities, and we have to look at that in terms of our total departmental expenditure limit and recognise that we have to do this against the forecast, as you say, of reducing budgets, not just in terms of capital, but also revenue. Therefore, I will be making announcements in due course that will take us forward in the context of the spending review and how that will place us in terms of future financial prospects. However, as I have said in answer to previous questions, we await a positive announcement from the UK Government on borrowing powers from Silk. That is crucial in terms of having the tools for the job and enabling us to take the investment that we want to make forward. However, we must be clear that this pipeline of infrastructure projects, which I will be presenting to the Chancellor during the next week, prior to the spending review, indicates that we are a Government that is prepared to use all the levers to boost growth, jobs and infrastructure.

Fodd bynnag, mae'n hollol iawn ein bod yn gwthio yn erbyn pob un o'r ffiniau ar raglen fuddsoddi arloesol newydd, gan adeiladu ar yr hyn yr ydym yn ei gyflawni o ran y bond tai, partneriaeth tai Cymru, y fenter benthyca llywodraeth leol a phrofi'r cyfrwng buddsoddi di-ddifidend ar gyfer y gwaith deuoli ar yr A465. Rydym yn edrych yn ofalus ar hynny ac nid dim ond ar enghreifftiau o'r Alban, sydd wedi ymrwymo i raglen fuddsoddi £2.5 biliwn a ariennir drwy refeniw. Mae'n rhaid inni edrych ar y rhwymedigaethau refeniw blynyddol, ac mae'n rhaid inni edrych ar hynny yn nhermau cyfanswm ein terfyn gwariant adrannol ac rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni wneud hyn yn erbyn rhagamcanion, fel y dywedwch, ynghylch cyllidebau sy'n lleihau, nid yn unig o ran cyfalaf, ond hefyd o ran refeniw. Felly, byddaf yn gwneud cyhoeddiadau maes o law a fydd yn ein symud yn ein blaenau yng nghyd-destun yr adolygiad o wariant, a beth fydd ein sefyllfa o ran rhagamcanion ariannol yn y dyfodol. Fodd bynnag, fel y dywedais wrth ateb cwestiynau blaenorol, rydym yn aros am gyhoeddiad cadarnhaol gan Lywodraeth y DU ar bwerau benthyca yn sgil Silk. Mae hynny'n hollbwysig o ran cael yr offer ar gyfer y gwaith a'n galluogi i fwrw ymlaen â'r buddsoddi yr ydym am ei wneud. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni fod yn glir bod y prosiectau seilwaith hyn sydd ar y gweill, y byddaf yn eu cyflwyno i'r Canghellor yn ystod yr wythnos nesaf, cyn yr adolygiad o wariant, yn dangos ein bod yn Llywodraeth sy'n barod i ddefnyddio pob dull i hybu twf, swyddi a seilwaith.

15:03

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

15:03

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for the statement and for the detailed report on the Wales infrastructure investment plan for growth and jobs. There is a consensus of support in the Chamber for the investment that is taking place and the way that money is being invested to create those extra jobs. Also, your statement shows the value of partnership between the Welsh Government and the UK Government, not just in terms of taking forward important initiatives around the Barnett formula and borrowing, but in the way that you are spending the extra £858 million that the Treasury has given to the Welsh Government over the course of the current spending review period, and the way that you are using that to invest in capital projects. We and Plaid Cymru, in terms of our negotiations on the budget, have tried to help you direct that money in that way.

Diolch ichi, Weinidog, am y datganiad ac am yr adroddiad manwl ar y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ar gyfer twf a swyddi. Mae consensws o gefnogaeth yn y Siambr i'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud a'r ffordd y mae arian yn cael ei fuddsoddi i greu'r swyddi ychwanegol hynny. Hefyd, mae eich datganiad yn dangos gwerth y bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, nid yn unig o ran bwrw ymlaen â mentrau pwysig o ran fformiwla Barnett a benthyca, ond o ran y ffordd yr ydych yn gwario'r £858 miliwn ychwanegol y mae'r Trysorlys wedi'i roi i Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adolygu gwariant presennol, a'r ffordd yr ydych yn ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf. Rydym ni a Phlaid Cymru, o ran ein trafodaethau ar y gyllideb, wedi ceisio eich helpu i gyfeirio'r arian hwnnw yn y ffordd honno.

I have a couple of questions, Minister. You referred a number of times during this statement to the importance of this investment in terms of creating jobs in Wales. I have had meetings with a number of construction companies that are very much indigenous, locally based construction companies that have pointed out that, in many instances, they are only able to cope with projects of a certain size, and that if too big a piece of land is released for housing development, it tends to be snapped up by the bigger multinational or UK-wide companies. Those companies do not tend to use a large amount of Welsh labour for specialist services, particularly those services around architecture, engineering et cetera. Sometimes, those companies even import some of the labour to do that work. Therefore, it is important that we have some evidence of how this money is being used to boost Welsh jobs, and that you are releasing land on a realistic scale so that Welsh builders are able to take advantage, and that Welsh businesses are being used to develop the various schemes coming out of this capital programme. What monitoring is taking place so that you can demonstrate the level of funding that is going directly into those indigenous businesses and directly creating and supporting Welsh jobs as part of that, as opposed to the funding that is being spent on businesses that are coming across the border to take advantage? To what extent are those businesses that are coming across the border using Welsh labour? That would be a very useful adjunct to your report in terms of demonstrating how this is delivering for Welsh business.

Mae gennyf rai cwestiynau, Weinidog. Cyfeiriasoch sawl gwaith yn ystod y datganiad at bwysigrwydd y buddsoddiad hwn o ran creu swyddi yng Nghymru. Rwyf wedi cwrdd â nifer o gwmnïau adeiladu sy'n gwmnïau adeiladu cynhenid, lleol, ac maent wedi tynnu sylw at y ffaith nad ydynt, yn aml iawn, ond yn gallu ymdopi â phrosiectau o faint penodol, ac os yw darn o dir sy'n rhy fawr yn cael ei ryddhau ar gyfer datblygu tai, ei fod yn tueddu i gael ei brynu gan gwmnïau mawr rhyngwladol neu gwmnïau sy'n gweithio ledled y DU. Nid yw'r cwmnïau hynny'n tueddu i ddefnyddio rhyw lawer ar lafur o Gymru ar gyfer gwasanaethau arbenigol, yn enwedig y gwasanaethau hynny sy'n ymwneud â phensaernïaeth, peirianneg ac ati. Weithiau, mae'r cwmnïau hynny hyd yn oed yn mewnforio rhywfaint o'r llafur i wneud y gwaith hwnnw. Felly, mae'n bwysig cael rhywfaint o dystiolaeth ynghylch sut y mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i roi hwb i swyddi yng Nghymru, a'ch bod yn rhyddhau tir ar raddfa realistig fel bod adeiladwyr Cymru yn gallu manteisio ar hyn, a bod busnesau Cymreig yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r cynlluniau amrywiol sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf hon. Pa fonitro sy'n digwydd er mwyn ichi allu dangos lefel y cyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i'r busnesau cynhenid hynny ac yn creu ac yn cefnogi swyddi'n uniongyrchol yng Nghymru yn sgil hynny, yn hytrach na'r arian sy'n cael ei wario ar fusnesau sy'n dod o dros y ffin i gymryd mantais? I ba raddau y mae'r busnesau hynny sy'n dod dros y ffin yn defnyddio llafur o Gymru? Byddai hynny'n ychwanegiad defnyddiol iawn i'ch adroddiad o ran dangos sut y mae hyn yn cyflawni ar gyfer busnesau Cymru.

I would like to raise another issue with you, Minister. When you announced this plan last May, you used that announcement to herald the mortgage guarantee scheme as part of the deal that was then done between the Welsh Liberal Democrats and the Welsh Government. We know that that scheme has fallen by the wayside for a variety of reasons. Could you enlighten us as to whether that is likely to be resurrected in the very near future, given the demand for that scheme in terms of helping people to get back on the housing ladder?

Hoffwn godi mater arall gyda chi, Weinidog. Wrth gyhoeddi'r cynllun hwn fis Mai diwethaf, defnyddiasoch y cyhoeddiad hwnnw i sôn am y cynllun gwarant morgais fel rhan o'r fargen rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwybod bod y cynllun hwnnw wedi syrthio ar ymyl y ffordd am amryw o resymau. A allech roi gwybod inni a yw'r cynllun hwnnw'n debygol o gael ei atgyfodi yn y dyfodol agos iawn, o ystyried y galw am y cynllun o ran helpu pobl i ddringo ar yr ysgol dai unwaith eto?

15:06

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Peter Black once again for a very constructive contribution and his support for the Wales infrastructure investment plan. It is clear in terms of my report and the publications published since last May that it is a plan that is delivering growth and jobs. Some £1.3 billion has been levered into infrastructure projects and there is the potential to create 8,000 jobs during the construction phases. I appreciate the points that have been made and the questions that have been put regarding the beneficiaries of those. That, of course, links very closely to our procurement policy—not just the national procurement policy, but the community benefits policy, which is crucial to delivering on that point.

Diolch i Peter Black unwaith eto am gyfraniad adeiladol iawn ac am ei gefnogaeth i'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Mae'n amlwg o ran fy adroddiad a'r cyhoeddiadau a gafwyd ers mis Mai diwethaf ei fod yn gynllun sy'n darparu twf a swyddi. Mae rhyw £1.3 biliwn wedi ei ddenu i brosiectau seilwaith ac mae potensial i greu 8,000 o swyddi yn ystod y cyfnodau adeiladu. Rwyf yn cydnabod y pwyntiau sydd wedi'u gwneud a'r cwestiynau sydd wedi'u holi ynghylch pwy fydd yn elwa arnynt. Mae cysylltiad agos iawn, wrth gwrs, rhwng hynny a'n polisi caffael—nid dim ond y polisi caffael cenedlaethol, ond y polisi manteision cymunedol, sy'n hanfodol er mwyn cyflawni yn hynny o beth.

It is also important to look at the opportunities that we have in terms of asset management and working better to align our existing asset management base in terms of supporting business and driving efficiency savings and using our land most appropriately.

Mae hefyd yn bwysig edrych ar y cyfleoedd sydd gennym o ran rheoli asedau a gweithio'n well i gyd-drefnu ein sylfaen rheoli asedau bresennol o ran cefnogi busnesau a hybu arbedion effeithlonrwydd a defnyddio ein tir yn y ffordd fwyaf priodol.

I know that investment in housing is a high priority—it is a high priority for this Government, it is one of your highest priorities, and it is a high priority of the Welsh investment plan for growth and jobs. That is why we are still committed to NewBuy Cymru if it is possible to progress with the support of lenders, builders and scheme administrators. You know that the Minister is continuing negotiations with the Council of Mortgage Lenders and the Home Builders Federation. We must also recognise—and I am sure that you welcome this, Peter—the nearly £100 million additional capital funding for housing priorities. We must look at where we can lever in those opportunities for affordable housing. At the finance quadrilateral meeting last week, we also looked at the eligibility, in terms of the UK Help to Buy schemes that were announced in the March budget, and looked at the detail. In fact, the Ministers for finance from Scotland and Northern Ireland were united in saying that we are not yet ready. The Treasury has not given us the detail yet, but this is something in terms of financial transactions, particularly in relation to housing, that we want to continue to look at very closely.

Gwn fod buddsoddi mewn tai'n flaenoriaeth—mae'n flaenoriaeth uchel i'r Llywodraeth hon, mae'n un o'ch blaenoriaethau uchaf chi, ac mae'n flaenoriaeth uchel yng nghynllun buddsoddi Cymru ar gyfer twf a swyddi. Dyna pam yr ydym yn dal yn ymroddedig i NewBuy Cymru os yw'n bosibl symud ymlaen gyda chefnogaeth benthycwyr, adeiladwyr a gweinyddwyr y cynllun. Byddwch yn gwybod bod y Gweinidog yn parhau i gynnal trafodaethau â Chyngor y Benthycwyr Morgeisi a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi. Rhaid inni gydnabod hefyd—ac rwyf yn siŵr eich bod yn croesawu hyn, Peter—y cyllid cyfalaf ychwanegol o bron i £100 miliwn ar gyfer blaenoriaethau tai. Mae'n rhaid inni edrych ar ble y gallwn ddenu'r cyfleoedd hynny ar gyfer tai fforddiadwy. Yn y cyfarfod cyllid pedairochrog yr wythnos diwethaf, buom yn edrych hefyd ar gymhwyster, o ran cynlluniau Cymorth i Brynu'r DU a gyhoeddwyd yng nghyllideb mis Mawrth, ac yn edrych ar y manylion. A dweud y gwir, roedd Gweinidogion cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gytûn nad ydym yn barod eto. Nid yw'r Trysorlys wedi rhoi'r manylion inni eto, ond mae hyn yn rhywbeth o safbwynt trafodion ariannol, yn enwedig mewn perthynas â thai, yr ydym yn awyddus i barhau i edrych arno'n ofalus iawn.

15:09

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

15:09

# Datganiad: Datganiad Polisi ar Addysg Uwch

# Statement: Higher Education Policy Statement

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

The higher education sector has undergone a period of significant change. We have introduced changes to funding and student finance arrangements that have put the sector in a much stronger financial position. We have made substantial progress against our commitment to fewer, stronger universities, which are more sustainable and better equipped to meet the needs of both learners and the Welsh economy.

Mae'r sector addysg uwch wedi bod trwy gyfnod o newid sylweddol. Rydym wedi cyflwyno newidiadau i gyllid a threfniadau cyllid myfyrwyr sydd wedi rhoi'r sector mewn sefyllfa ariannol gryfach o lawer. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ein hymrwymiad i sicrhau llai o brifysgolion ond rhai cryfach, sy'n fwy cynaliadwy ac yn fwy cymwys i fodloni anghenion y dysgwyr ac economi Cymru.

It is now time to set a new direction for higher education policy in Wales. In December last year, therefore, I announced my intention to produce a new higher education policy statement that sets out a clear vision and a set of priorities for higher education in Wales as we approach 2020. We need to build on the successes of recent years and the strengths of Welsh higher education. I have already said that I believe the reconfiguration agenda, which has dominated policy for the last decade, is now largely completed. I am grateful to all those who have worked proactively to bring that to fruition.

Mae'n bryd gosod cyfeiriad newydd ar gyfer polisi addysg uwch yng Nghymru. Felly, ym mis Rhagfyr y llynedd cyhoeddais fy mwriad i lunio datganiad polisi addysg uwch newydd sy'n amlinellu gweledigaeth glir a chyfres o flaenoriaethau ar gyfer addysg uwch yng Nghymru wrth inni nesáu at 2020. Mae angen inni adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf a chryfderau addysg uwch yng Nghymru. Rwyf eisoes wedi dweud fy mod yn credu bod yr agenda ad-drefnu, sydd wedi bod yn rhan mor amlwg o'r polisi dros y degawd diwethaf, bellach wedi ei chwblhau i raddau helaeth. Rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi gweithio'n rhagweithiol i sicrhau bod y gwaith hwnnw'n dwyn ffrwyth.

The policy statement that I am publishing today looks forward to how we should build on the existing success of Welsh higher education. The sector makes an enormous contribution to the economic prosperity of Wales, to research and innovation, and has an excellent track record of widening access to higher education. We should be talking up these strengths. Universities in Wales contribute more than £3 billion a year in gross expenditure to the Welsh economy. They employ more than 24,000 people. They have an annual turnover of £1.3 billion. They contribute to sustainable economic growth through knowledge creation, the development of a highly skilled workforce, and through engagement with local communities.

Mae'r datganiad polisi yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw yn edrych ymlaen at sut y dylem adeiladu ar lwyddiant addysg uwch yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r sector yn gwneud cyfraniad enfawr i ffyniant economaidd Cymru, i ymchwilio ac arloesi, ac mae ganddo hanes rhagorol o ehangu mynediad i addysg uwch. Dylem fod yn canmol y cryfderau hyn. Mae prifysgolion yng Nghymru'n cyfrannu dros £3 biliwn y flwyddyn mewn gwariant crynswth i economi Cymru. Maent yn cyflogi dros 24,000 o bobl. Mae ganddynt drosiant blynyddol o £1.3 biliwn. Maent yn cyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy drwy greu gwybodaeth, datblygu gweithlu medrus iawn, a thrwy ymgysylltu â chymunedau lleol.

The Welsh Government remains committed to opening up higher education to all those with the potential to benefit from it. We have had success here, too. The number of Welsh-domiciled students enrolled in higher education in the UK has risen from around 93,000 in 2000-01 to over 102,000 in 2011-12. Our universities generally score highly in surveys of student satisfaction and they have been more successful in achieving participation by students from non-traditional backgrounds than other areas of Britain. They have considerable strengths in research and teaching and we are proud that Wales is a net importer of students. Our higher education system is held in high regard around the world and attracts students from across the world.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i agor addysg uwch i bawb sydd â'r potensial i elwa arni. Rydym wedi cael llwyddiant yn hynny o beth, hefyd. Mae nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd wedi'u cofrestru mewn addysg uwch yn y DU wedi codi o oddeutu 93,000 yn 2000-01 i dros 102,000 yn 2011-12. Mae ein prifysgolion yn gyffredinol yn sgorio'n uchel mewn arolygon o foddhad myfyrwyr ac maent wedi bod yn fwy llwyddiannus na rhannau eraill o Brydain o ran cyfranogiad myfyrwyr o gefndiroedd nad ydynt yn rhai traddodiadol. Mae ganddynt gryfderau mawr o ran ymchwil ac addysgu, ac rydym yn falch bod Cymru'n fewnforiwr net o fyfyrwyr. Mae parch mawr i'n system addysg uwch ledled y byd ac mae'n denu myfyrwyr o bob cwr o'r byd.

We want a focus on the quality of our higher education system. We should aspire to a higher education system that demonstrates excellence at every level, not only in the quality of research or teaching within our institutions but also in terms of how well higher education providers in Wales work with business and employers to enhance skills and employability; how effectively the constituent parts of the higher education system in Wales work together to provide smooth pathways and progression for learners and to ensure maximum value for public funds invested in higher education; how collectively the higher education system in Wales contributes to regional and national goals; and in terms of the impact that the Welsh higher education sector has on the international stage.

Rydym am ganolbwyntio ar ansawdd ein system addysg uwch. Dylem anelu at system addysg uwch sy'n dangos rhagoriaeth ar bob lefel, nid yn unig o ran ansawdd yr ymchwil neu'r addysgu yn ein sefydliadau, ond hefyd o ran pa mor dda y mae darparwyr addysg uwch yng Nghymru'n gweithio gyda busnesau a chyflogwyr er mwyn gwella sgiliau a chyflogadwyedd; pa mor effeithiol y mae rhannau cyfansoddol y system addysg uwch yng Nghymru'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu llwybrau llyfn a dilyniant ar gyfer dysgwyr ac i sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn addysg uwch; sut y mae'r system addysg uwch yng Nghymru ar y cyd yn cyfrannu at nodau rhanbarthol a chenedlaethol; a'r effaith y mae'r sector addysg uwch yng Nghymru'n ei chael ar y llwyfan rhyngwladol.

Of course, there are many new challenges ahead and the new policy statement reflects these. Higher education institutions operate in an increasingly competitive market, both at home and internationally. Fundamental changes to the way in which UK higher education is funded, together with technological innovation and increased student expectations, all represent challenges to traditional models of delivery. They also offer tremendous opportunities. That is why we need to focus in a strategic, joined-up way on what the Welsh higher education sector does well, while being honest about where there is further room for improvement. Winning more research council investment remains a significant priority.

Wrth gwrs, mae sawl her newydd i ddod ac mae'r datganiad polisi newydd yn adlewyrchu hynny. Mae sefydliadau addysg uwch yn gweithredu mewn marchnad gynyddol gystadleuol, gartref ac yn rhyngwladol. Mae newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae addysg uwch yn y DU yn cael ei hariannu, ynghyd ag arloesi technolegol a chodi disgwyliadau myfyrwyr, i gyd yn herio modelau traddodiadol o ddarparu. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd aruthrol. Dyna pam y mae angen inni ganolbwyntio mewn modd strategol, cydgysylltiedig ar yr hyn y mae'r sector addysg uwch yng Nghymru'n ei wneud yn dda, a bod yn onest am ble y mae lle i wella eto. Mae denu mwy o fuddsoddi gan y cynghorau ymchwil yn parhau i fod yn flaenoriaeth o bwys.

A number of fundamental challenges face the higher education system in the early part of the twenty-first century, including the transformative challenge of the best content from the best teachers being available on a global basis online. Welsh universities will not be insulated from these challenges and they need to plan now for a more unpredictable future. The Welsh Government will work with the Higher Education Funding Council for Wales and universities in Wales to explore potential new models for the delivery of higher education in Wales. Radical innovation may be required and we need to be bold in our thinking. I have already established a group to look at the potential for online digital learning in higher education.

Mae nifer o heriau sylfaenol yn wynebu'r system addysg uwch yn rhan gyntaf yr unfed ganrif ar hugain, gan gynnwys her drawsnewidiol y ffaith bod y cynnwys gorau gan yr athrawon gorau ar gael yn fyd-eang ar-lein. Ni all prifysgolion Cymru osgoi'r heriau hyn ac mae angen iddynt gynllunio yn awr at ddyfodol sy'n fwy anodd ei ragweld. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a phrifysgolion yng Nghymru i archwilio modelau newydd posibl ar gyfer cyflwyno addysg uwch yng Nghymru. Efallai y bydd angen arloesi mewn modd radical ac mae angen inni feddwl yn feiddgar. Rwyf eisoes wedi sefydlu grŵp i edrych ar botensial dysgu digidol ar-lein mewn addysg uwch.

Possible other areas of focus might include the move to more specialised universities, having a smaller number of research-intensive institutions in Wales, with others focusing on provision of world-class teaching and learning experiences; developing new ways of delivering part time higher education; finding new ways to support postgraduate study, for instance through trialling a small number of two-year condensed undergraduate degree programmes with a third-year paid Master's degree funded through the statutory student support system; and creating a more self-sufficient higher education sector in Wales, capable of providing the broadest range of subject content available elsewhere in the UK, for example offering the opportunity to study veterinary medicine in Wales.

Mae'n bosibl y rhoddir sylw hefyd i faterion megis symud at brifysgolion mwy arbenigol, a chael llai o sefydliadau yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar ymchwil, gydag eraill yn canolbwyntio ar ddarparu profiadau dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf; datblygu ffyrdd newydd o ddarparu addysg uwch ran amser; dod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi astudio ôl-raddedig, er enghraifft drwy dreialu nifer fach o raglenni gradd israddedig dwy flynedd dwys gyda gradd Meistr trydedd flwyddyn am dâl a ariennir drwy'r system statudol cymorth i fyfyrwyr; a chreu sector addysg uwch mwy hunangynhaliol yng Nghymru, sy'n gallu darparu'r ystod ehangaf o gynnwys pynciau sydd ar gael mewn mannau eraill yn y DU, er enghraifft, cynnig cyfle i astudio milfeddygaeth yng Nghymru.

Welsh universities have been innovative in attracting investment from a variety of sources. Swansea University, for example, has attracted funding of £60 million for its new science and innovation campus from the European Investment Bank. Given the low interest loans that are currently available, the Welsh Government will work with the sector to identify new sources of long-term funding to invest in strengthening the sector and its offer to students and researchers. We focus in this document on how the sector can take advantage of the opportunities to work with the Welsh Government for mutual benefit. This is not just a Welsh Government document. It is a policy for Welsh higher education that has been developed in close collaboration with the sector. We intend to work in partnership with the sector and with other stakeholders to develop policy on a dynamic basis.

Mae prifysgolion Cymru wedi bod yn arloesol wrth ddenu buddsoddiadau o amrywiaeth o ffynonellau. Mae Prifysgol Abertawe, er enghraifft, wedi denu cyllid o £60 miliwn ar gyfer ei champws gwyddoniaeth ac arloesi newydd gan Fanc Buddsoddi Ewrop. O ystyried y benthyciadau llog isel sydd ar gael ar hyn o bryd, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r sector i ddod o hyd i ffynonellau newydd o arian tymor hir i'w fuddsoddi i gryfhau'r sector a'r hyn y mae'n ei gynnig i fyfyrwyr ac ymchwilwyr. Rydym yn canolbwyntio yn y ddogfen hon ar sut y gall y sector fanteisio ar y cyfleoedd i weithio gyda Llywodraeth Cymru er budd pawb. Nid dogfen Llywodraeth Cymru'n unig yw hon. Mae'n bolisi ar gyfer addysg uwch yng Nghymru sydd wedi ei ddatblygu mewn cydweithrediad agos â'r sector. Rydym yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â'r sector ac â rhanddeiliaid eraill i ddatblygu polisi ar sail ddeinamig.

15:15

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, thank you for bringing forward this statement today and for the policy statement on higher education. I have a number of questions, so I shall forgo my normal preamble and launch straight into them.

Weinidog, diolch ichi am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw ac am y datganiad polisi ar addysg uwch. Mae gennyf nifer o gwestiynau, felly rwyf am ymatal rhag fy rhagymadroddi arferol a mynd yn syth at y cwestiynau.

In terms of economic development, I agree with the policy statement in that the interaction between universities and businesses could help to secure private sector funding, which will also help universities to direct graduates to more highly skilled occupations, which we all agree is a good thing to do. What is not clear from the policy statement is the role that the Welsh Government will continue to play in the higher education sector to ensure that economic growth is a three-way triangle, and how proactive the Welsh Government will be in ensuring that the education sector delivers while being able to build relationships, because it does not have a great track record in all areas, with the private sector to make sure that we can drive growth through education.

O ran datblygu economaidd, rwyf yn cytuno â'r datganiad polisi y gallai'r rhyngweithio rhwng prifysgolion a busnesau helpu i sicrhau cyllid sector preifat, a fydd hefyd yn helpu prifysgolion i gyfeirio graddedigion at swyddi mwy medrus, ac rydym i gyd yn cytuno bod hynny'n beth da. Yr hyn nad yw'n glir o'r datganiad polisi yw'r rôl y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i'w chwarae yn y sector addysg uwch i sicrhau bod twf economaidd yn driongl teirffordd, a pha mor rhagweithiol y bydd Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y sector addysg yn cyflawni, ond hefyd yn gallu meithrin perthynas, gan nad oes ganddi record wych ym mhob maes, â'r sector preifat i wneud yn siŵr ein bod yn gallu sbarduno twf drwy addysg.

With regard to funding, I note at the end that the commitment to the tuition fee funding lasts until the end of this Assembly. You know of my resistance to it, because I think that the £3.6 billion plus is an enormous commitment to people, some of whom will get good jobs later on. What does this say about the current funding policy? Are you able to give us any indication of what might happen in the future? Are you able to say how many of the 102,000 students are currently studying in English universities and are therefore given some of the funding that we could use here? Could you outline a timescale on which you will work with the sector to identify new sources of long-term funding?

O ran cyllid, sylwaf ar y diwedd fod yr ymrwymiad i ariannu ffioedd dysgu yn para tan ddiwedd y Cynulliad hwn. Gwyddoch am fy ngwrthwynebiad i hynny, oherwydd credaf fod y £3.6 biliwn a mwy yn ymrwymiad enfawr i bobl, y bydd rhai ohonynt yn cael swyddi da yn nes ymlaen. Beth y mae hyn yn ei ddweud am y polisi cyllido presennol? A allwch roi unrhyw syniad inni o'r hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol? A ydych yn gallu dweud faint o'r 102,000 o fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn astudio mewn prifysgolion yn Lloegr, ac felly'n cael rhywfaint o'r arian y gallem ei ddefnyddio yma? A wnewch chi amlinellu amserlen y byddwch yn gweithio iddi gyda'r sector i ddod o hyd i ffynonellau newydd o arian tymor hir?

With regard to structures, in the Higher Education Council for Wales report 'Future Structure of Universities in Wales', mergers between Aberystwyth and Bangor and issues with Glyndŵr were discussed. While we are waiting for Sir Adrian Webb's report, can you give us any indicators of how that report might impact on the current policy statement on higher education? Do you not feel that the questions surrounding those three universities need to be answered before we can fully understand the implications of this policy statement?

O ran strwythurau, yn adroddiad Cyngor Addysg Uwch Cymru ar strwythur prifysgolion yng Nghymru yn y dyfodol, trafodwyd uno rhwng Aberystwyth a Bangor a materion yn ymwneud â Glyndŵr. Wrth inni aros am adroddiad Syr Adrian Webb, a allwch roi inni unrhyw syniad o sut y gallai'r adroddiad hwnnw effeithio ar y datganiad polisi cyfredol ar addysg uwch? Onid ydych yn teimlo bod angen ateb y cwestiynau ynghylch y tair prifysgol hynny cyn y gallwn ddeall yn llawn oblygiadau'r datganiad polisi hwn?

I also see that you are going to bring forward legislation to ensure that HEFCW will have appropriate powers and duties in relation to quality assurance and regulation of the HE sector to take account of new funding arrangements for higher education provision. Would you consider including in the scope of this legislation an independent regulator who will oversee quality assurance and regulation of all qualification-awarding bodies?

Rwyf hefyd yn gweld eich bod yn mynd i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau y bydd CCAUC yn cael pwerau a dyletswyddau priodol mewn perthynas â sicrhau ansawdd a rheoleiddio'r sector AU i ystyried trefniadau cyllido newydd ar gyfer darpariaeth addysg uwch. A fyddech yn ystyried cynnwys yng nghwmpas y ddeddfwriaeth hon reoleiddiwr annibynnol a fydd yn goruchwylio sicrhau ansawdd a rheoleiddio'r holl gyrff sy'n dyfarnu cymwysterau?

You talk, Minister, of widening access and regional coherence, and about HEIs extending their offerings outside the campus, and you talk about embedding it in other areas such as further education institutions. You also talk about retention. Using blue-sky thinking, will you be looking to build a further way where HEIs might offer credits, so that someone who is unsure of higher education might be able to start at base levels, but with a proper degree and not some kind of foundation course in a further education institution, so that they might be able to start a degree course and be able to move their way forward?

Rydych yn sôn, Weinidog, am ehangu mynediad a chydlyniad rhanbarthol, ac am sefydliadau addysg uwch yn estyn eu darpariaeth y tu allan i'r campws, ac rydych yn sôn am ymgorffori hyn mewn meysydd eraill megis sefydliadau addysg bellach. Rydych hefyd yn sôn am gadw. Gan feddwl heb orwelion, a fyddwch yn chwilio am ffordd y gallai sefydliadau addysg uwch gynnig credydau, fel y gallai rhywun sy'n ansicr o addysg uwch ddechrau ar lefelau sylfaen, ond gyda gradd briodol ac nid rhyw fath o gwrs sylfaen mewn sefydliad addysg bellach, fel y byddai modd iddynt ddechrau cwrs gradd a gallu symud yn eu blaenau?

I have many notes here on this; it is an interesting statement that I was pleased to read. With the issue of mobility, I want to fire a warning sho,t which is that the Children and Young People Committee's inquiry into the implementation of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 in June of last year raised genuine concerns about the unintended consequences, such as how there are lower numbers of young people choosing to study modern foreign languages. Minister, how will you ensure that students are in a position to take advantage of the mobility, widening access and international opportunities that you talk of?

Mae gen i lawer o nodiadau yma ar hyn; mae'n ddatganiad diddorol yr oeddwn yn falch o'i ddarllen. O ran symudedd, rwyf am seinio rhybudd, sef bod ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ym mis Mehefin y llynedd wedi codi pryderon gwirioneddol am y canlyniadau anfwriadol, megis bod llai o bobl ifanc yn dewis astudio ieithoedd tramor modern. Weinidog, sut y byddwch yn sicrhau bod myfyrwyr mewn sefyllfa i fanteisio ar y symudedd, yr ehangu mynediad a'r cyfleoedd rhyngwladol yr ydych yn siarad amdanynt?

I am just checking if the PO is happy for me to carry on going.

Rwyf yn edrych i weld a yw'r Llywydd yn hapus imi barhau.

15:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am much in favour of questions.

Rwyf o blaid cwestiynau.

15:19 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, on enhancing quality, being part of a UK-wide quality assurance system is obviously beneficial to universities in Wales, and having a system that is comparable across the UK will reinforce Wales's international position. Minister, what assurance can you give us that you will be able to work towards this UK-wide focus, especially given the recent cross-border disputes over GCSEs? We need to know that we can work with all of our partners in a sane way, going forward.

Yn olaf, o ran gwella ansawdd, mae bod yn rhan o system sicrhau ansawdd ledled y DU yn amlwg yn fuddiol i brifysgolion yng Nghymru, a bydd cael system y gellir ei chymharu ar draws y DU yn atgyfnerthu safle rhyngwladol Cymru. Weinidog, pa sicrwydd allwch chi ei roi inni y byddwch yn gallu gweithio tuag at y ffocws hwn ar draws y DU, yn enwedig o ystyried y dadleuon traws-ffiniol diweddar dros gymwysterau TGAU? Mae angen inni wybod y gallwn weithio gyda'n holl bartneriaid mewn ffordd gall, wrth symud ymlaen.

I have a couple of other questions, but I would rather reserve them for my colleagues and for when we might be able to debate this. On the whole, I am pleased to see this. It is very important that we absolutely understand what is happening to the rest of the universities in Wales, how we will truly enhance the mobility of our students at these universities and how we will be able to liaise with the UK and the rest of Europe, so that people know that when they come to a Welsh university, they will leave with a really good degree that will be recognised throughout the world.

Mae gen i un neu ddau o gwestiynau eraill, ond byddai'n well gennyf eu cadw i'm cyd-weithwyr ac at pan fyddwn efallai'n gallu cael dadl am hyn. Ar y cyfan, rwyf yn falch o weld hyn. Mae'n bwysig iawn ein bod yn deall yn llwyr yr hyn sy'n digwydd i weddill y prifysgolion yng Nghymru, sut y byddwn mewn gwirionedd yn gwella symudedd ein myfyrwyr yn y prifysgolion hyn a sut y byddwn yn gallu cydgysylltu â'r DU a gweddill Ewrop, fel bod pobl yn gwybod y byddant, pan fyddant yn dod i brifysgol yng Nghymru, yn gadael â gradd dda iawn a fydd yn cael ei chydnabod ledled y byd.

15:21 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am glad that the opposition spokesperson found the document interesting and that she was pleased to have it. It starts, I hope, a new period of consensus in this area, although there is one area where we will not be finding consensus and that is the area of student tuition fees.

Rwyf yn falch bod llefarydd yr wrthblaid yn meddwl bod y ddogfen yn ddiddorol a'i bod yn falch o'i chael. Dyma ddechrau, rwyf yn gobeithio, cyfnod newydd o gonsensws yn y maes hwn, er bod un maes lle na fydd consensws, sef ffioedd dysgu myfyrwyr.

In relation to economic development, I think that one of the key roles of the Welsh Government is to ensure that there is a good understanding between the higher education sector and our anchor companies and regionally important companies in Wales of how they can work together. As I visit universities, I see great examples of collaboration between higher education institutions and businesses in Wales and beyond our borders. I saw some of this when I looked at some of the research activities of Cardiff University last week. Clearly, we want to work in partnership with the higher education sector in Wales to deliver that co-operation with the private sector.

O ran datblygu economaidd, rwyf o'r farn mai un o rolau allweddol Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod dealltwriaeth dda rhwng y sector addysg uwch a'n cwmnïau angori a chwmnïau sy'n bwysig yn rhanbarthol yng Nghymru ynghylch sut y gallant weithio gyda'i gilydd. Wrth imi ymweld â phrifysgolion, gwelaf enghreifftiau gwych o gydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch a busnesau yng Nghymru a thu hwnt i'n ffiniau. Gwelais rywfaint o hyn pan edrychais ar rai o weithgareddau ymchwil Prifysgol Caerdydd yr wythnos diwethaf. Yn amlwg, rydym am weithio mewn partneriaeth â'r sector addysg uwch yng Nghymru i ddarparu'r cydweithio hwnnw â'r sector preifat.

In respect of the funding commitments and the issue of tuition fees, page 3 of the document shows the likely growth in institutional income to 2020 under the current regime. We have made a commitment for the lifetime of this Assembly in support of our policy on student tuition fees. It is not a policy with which she agrees; we understand that. In respect of long-term sources of finance, we have been in discussions with a number of higher education institutions about the potential for long-term borrowing and whether that can be done collaboratively by the sector in Wales, and those discussions continue.

O ran yr ymrwymiadau cyllido a ffioedd dysgu, mae tudalen 3 y ddogfen yn dangos y cynnydd tebygol mewn incwm sefydliadol hyd at 2020 o dan y drefn bresennol. Rydym wedi gwneud ymrwymiad ar gyfer oes y Cynulliad hwn i gefnogi ein polisi ar ffioedd dysgu myfyrwyr. Nid yw'n bolisi y mae hi'n cytuno ag ef; rydym yn deall hynny. O ran ffynonellau cyllid tymor hir, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â nifer o sefydliadau addysg uwch am botensial benthyca tymor hir ac a oes modd i'r sector wneud hynny ar y cyd yng Nghymru, ac mae'r trafodaethau hynny'n parhau.

Sir Adrian Webb's report focuses explicitly on the situation in north-east Wales. I expect to receive that report over the next few weeks and then to report on it to this National Assembly.

Mae adroddiad Syr Adrian Webb yn canolbwyntio'n benodol ar y sefyllfa yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Rwyf yn disgwyl i'r adroddiad hwnnw ddod i law yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, ac yna byddaf yn adrodd arno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Obviously, we will be discussing the future of HEFCW further in this place, and looking at that in the context of the legislation that we are going to bring forward. I do not think that we want to change the quality assurance arrangements specifically, but those are things that we can discuss, of course, in that context.

Yn amlwg, byddwn yn trafod dyfodol CCAUC ymhellach yn y lle hwn, ac yn edrych ar hynny yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno. Nid wyf yn meddwl ein bod yn dymuno newid y trefniadau sicrhau ansawdd yn benodol, ond mae'r rheiny yn bethau y gallwn eu trafod, wrth gwrs, yn y cyd-destun hwnnw.

In respect of attracting more students in, the retention of students and giving new opportunities to people to acquire degrees, it is important to recognise the work of further education institutions on foundation degrees. These are a very important element of the higher education mix. It is already open to individuals to acquire credits in higher education, through, for example, the Open University, and other providers. Credit frameworks exist to recognise those.

O ran denu rhagor o fyfyrwyr, cadw myfyrwyr a rhoi cyfleoedd newydd i bobl i gael graddau, mae'n bwysig cydnabod gwaith sefydliadau addysg bellach o ran graddau sylfaen. Mae'r rhain yn elfen bwysig iawn o'r gymysgedd addysg uwch. Mae eisoes yn bosibl i unigolion gael credydau mewn addysg uwch, drwy, er enghraifft, y Brifysgol Agored, a darparwyr eraill. Mae fframweithiau credyd yn bodoli i gydnabod hynny.

She mentioned mobility in an international context and in the context of modern foreign languages. I know that the vice-chancellor of Cardiff University has ambitions to increase the numbers of students who undertake a study of up to a month abroad, and has announced that recently.

Soniodd am symudedd mewn cyd-destun rhyngwladol ac yng nghyd-destun ieithoedd tramor modern. Gwn fod gan is-ganghellor Prifysgol Caerdydd uchelgais i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n ymgymryd ag astudiaeth o hyd at fis dramor, ac mae wedi cyhoeddi hynny'n ddiweddar.

In terms of cross-border relationships, may I say that I have a perfectly healthy and excellent relationship with the Minister for Universities and Science, Mr David Willetts?

O ran cysylltiadau trawsffiniol, a gaf i ddweud bod gennyf berthynas berffaith iach a rhagorol â'r Gweinidog Prifysgolion a Gwyddoniaeth, Mr David Willetts?

15:24

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. I applaud the Welsh Government's commitment to support Welsh students for the rest of this term, because it is important that we get as many Welsh students into higher education as possible and that they are supported, whatever their backgrounds.

Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Rwyf yn cymeradwyo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi myfyrwyr Cymru am weddill y tymor hwn, oherwydd mae'n bwysig ein bod yn cael cynifer o fyfyrwyr o Gymru i mewn i addysg uwch ag y bo modd a'u bod yn cael eu cefnogi, beth bynnag fo'u cefndir.

I have a couple of questions on the statement and on the policy document, which I am in the process of going through as I have not finished it yet. In relation to the point that the focus might, in the future, include research-intensive institutions and teacher excellence institutions, I have some concerns on this. I think that it is important that you clarify the difference between blue-sky-thinking research, the development of that research and the applied research, which all feed into the delivery of higher education within Wales. You mentioned full-time funding, but there are still questions about support for those students following part-time courses. For me, the part-time element is a jewel in the Welsh education system and we need to get that right—the delivery and financial support. There is also the issue of the discussions with business in relation to the provision of the programmes that are required for part-time students.

Mae gen i un neu ddau o gwestiynau ar y datganiad ac ar y ddogfen bolisi, yr wyf wrthi'n mynd drwyddi gan nad wyf wedi gorffen gwneud hynny eto. O ran y pwynt y gallai'r ffocws, yn y dyfodol, gynnwys sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ymchwil a sefydliadau rhagoriaeth addysgu, mae gennyf rai pryderon ynglŷn â hyn. Credaf ei bod yn bwysig eich bod yn egluro'r gwahaniaeth rhwng ymchwil syniadau heb orwelion, datblygiad yr ymchwil honno a'r ymchwil gymhwysol, sydd i gyd yn bwydo i mewn i ddarparu addysg uwch yng Nghymru. Soniasoch am gyllid llawn-amser, ond mae cwestiynau o hyd am gefnogaeth i'r myfyrwyr hynny sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser. I mi, mae'r elfen ran-amser yn em yn y system addysg yng Nghymru ac mae angen inni gael hynny'n iawn—y ddarpariaeth a'r cymorth ariannol. Mae angen rhoi sylw hefyd i'r trafodaethau â busnesau mewn perthynas â darparu'r rhaglenni sydd eu hangen ar gyfer myfyrwyr rhan-amser.

In relation to online learning, or technology-enhanced learning as it is now called, I do have concerns about that, because, having previously done it as an associate lecturer with the Open University, I know some of the consequences, particularly for some categories of students. Not everyone benefits from online learning, therefore the face-to-face contact and delivery, so that students can discuss, reflect and debate issues, is critical. What percentage of programmes do you expect to be delivered online and via those mechanisms?

O ran dysgu ar-lein, neu ddysgu drwy gyfrwng technoleg fel y'i gelwir yn awr, rwyf yn pryderu am hynny, oherwydd, ar ôl gwneud hynny o'r blaen fel darlithydd cysylltiol i'r Brifysgol Agored, gwn am rai o'r canlyniadau, yn enwedig ar gyfer rhai categorïau o fyfyrwyr. Nid yw pawb yn elwa ar ddysgu ar-lein, felly mae'r cyswllt a'r ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb, fel y gall myfyrwyr drafod, myfyrio a dadlau am faterion, yn hollbwysig. Pa ganran o raglenni ydych chi'n disgwyl y byddant yn cael eu darparu ar-lein a thrwy'r mecanweithiau hynny?

You point to the two-year condensed undergraduate courses and, again, I have concerns about that, particularly if it involves an extended academic year. Students need time to reflect upon their work, to be able to understand and debate the issues. So, I do have some concerns over that. You talk about piloting some courses. How many will this involve and where will they be piloted, and in which subjects?

Rydych yn cyfeirio at y cyrsiau israddedig dwy flynedd dwys ac, unwaith eto, mae gennyf bryderon ynghylch hynny, yn enwedig os yw'n golygu blwyddyn academaidd estynedig. Mae angen amser ar fyfyrwyr i fyfyrio ar eu gwaith, er mwyn gallu deall a thrafod materion. Felly, mae gennyf rai pryderon ynghylch hynny. Rydych yn sôn am dreialu rhai cyrsiau. Faint o gyrsiau fydd yn cael eu treialu a ble y byddant yn cael eu treialu, ac ym mha bynciau?

Another point on research is that in your policy statement, you highlight that most of the 20 units of assessment that the latest RAE judged as world leading were in social sciences, arts and humanities. What support will the Welsh Government give to the STEM areas? We know that there is excellence in Cardiff University, and I was recently at the site of the new Swansea campus. There is also Glyndŵr University and the University of South Wales. There is excellence, so what support will you give to the STEM areas to enhance their position?

Pwynt arall ar ymchwil yw eich bod yn eich datganiad polisi yn dweud bod y rhan fwyaf o'r 20 uned asesu yr oedd yr ymarfer asesu ymchwil diweddaraf yn barnu eu bod gyda'r gorau yn y byd ym maes y gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau. Pa gefnogaeth y bydd Llywodraeth Cymru'n ei rhoi i'r meysydd STEM? Rydym yn gwybod bod rhagoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, ac roeddwn yn ddiweddar ar safle campws newydd Abertawe. Mae Prifysgol Glyndŵr hefyd, a Phrifysgol De Cymru. Mae rhagoriaeth yma, felly pa gymorth y byddwch chi'n ei roi i'r meysydd STEM i wella eu sefyllfa?

Finally, on the linking of academic programmes, how are you going to look at the transition to vocational education and higher level apprenticeships, and vice versa, so that students can flow easily between the two and therefore benefit from the whole system?

Yn olaf, ynghylch cysylltu rhaglenni academaidd, sut ydych chi'n bwriadu edrych ar y newid i addysg alwedigaethol a phrentisiaethau lefel uwch, ac i'r gwrthwyneb, fel y gall myfyrwyr lifo'n rhwydd rhwng y ddwy drefn ac felly elwa ar y system gyfan?

15:27

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My colleague the Member for Aberavon asked a whole series of questions. He is absolutely right to focus on the benefits of applied research and I have seen that in his former institution of Swansea Metropolitan University, where there has been a lot of collaboration in the fields of design and other areas with the car industry and so on. We have excellent examples in aerospace and many other sectors within the higher education institutions in Wales. There is a very significant range of collaborations with major international businesses; Airbus would be an obvious example, but we could talk about Sony and many others.

Gofynnodd fy nghyd-weithiwr, yr Aelod dros Aberafan, gyfres o gwestiynau. Mae'n hollol iawn i ganolbwyntio ar fanteision ymchwil gymhwysol ac rwyf wedi gweld hynny yn ei gyn sefydliad, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, lle bu llawer o gydweithio ym maes dylunio ac mewn meysydd eraill gyda'r diwydiant ceir ac yn y blaen. Mae gennym enghreifftiau gwych ym maes awyrofod a llawer o sectorau eraill yn y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae ystod sylweddol iawn o gydweithio â busnesau rhyngwladol mawr; byddai Airbus yn enghraifft amlwg, ond gallem siarad am Sony a llawer o rai eraill.

In the context of online learning, I am looking forward to the report of the group that I established to look at this. I think that there is a lot of noise in the system, as he will appreciate, around the world about mass open online courses at the present time. I have never believed that this will mean an end to traditional campus-based study. There will always be a place for face-to-face support from tutors and lecturers in that context. I do not have any kind of percentage idea about it. What I do believe is that technology changes the nature of study in the sense that it enables students to absorb their lectures in their own time, rather than having to sit in a mass lecture hall. That in itself has implications for the design of higher education facilities in the future. It also means that they have access to some of the best teachers around the world, and that point has to be borne in mind by higher education institutions. It may be—and this will come through the work of our group I think—that the role may switch less to the delivery of lecturing and more to the one-on-one, targeted support to individuals.

Yng nghyd-destun dysgu ar-lein, rwyf yn edrych ymlaen at adroddiad y grŵp a sefydlwyd gennyf i edrych ar hyn. Credaf fod llawer o sŵn yn y system, fel y bydd ef yn gwybod, ledled y byd am gyrsiau agored torfol ar-lein ar hyn o bryd. Nid wyf erioed wedi credu y bydd hyn yn golygu diwedd ar astudio traddodiadol ar y campws. Bydd lle bob amser i gymorth wyneb-yn-wyneb gan diwtoriaid a darlithwyr yn y cyd-destun hwnnw. Nid oes gennyf unrhyw fath o syniad canrannol am hyn. Yr hyn yr wyf yn ei gredu yw bod technoleg yn newid natur astudio oherwydd mae'n golygu y gall y myfyrwyr dderbyn eu darlithoedd yn eu hamser eu hunain, yn hytrach na gorfod eistedd mewn neuadd ddarlithio dorfol. Mae hynny ynddo'i hun yn golygu y bydd goblygiadau ar gyfer cynllunio cyfleusterau addysg uwch yn y dyfodol. Mae hefyd yn golygu bod rhai o'r athrawon gorau ledled y byd ar gael iddynt, a rhaid i'r sefydliadau addysg uwch gofio hynny. Efallai —a bydd hyn yn dod drwy waith ein grŵp rwyf yn meddwl—y bydd y rôl yn newid ac yn golygu llai o ddarlithio a mwy o gymorth un-ag-un, wedi'i dargedu, i unigolion.

In respect of the two-year condensed undergraduate degree, what we are doing here is floating an option for addressing what is a difficult issue, which is the funding of postgraduate study at a taught Master's level in particular. We are certainly not expecting this to become the norm within the higher education system. What we are looking at is how you can open up new possibilities and maybe pilot a few schemes. I do not have any specific courses in mind at the moment. This is for discussion with the sector, as I have said. This is a dynamic document and we want to take that forward. However, in Wales, and in the rest of the UK, we need to think about how we are funding taught postgraduate study, and this might open up those opportunities.

O ran y radd israddedig ddwy flynedd ddwys, yr hyn yr ydym yn ei wneud yma yw cynnig opsiwn ar gyfer mynd i'r afael â mater anodd, sef ariannu astudiaethau ôl-raddedig, yn arbennig ar lefel Meistr a addysgir. Yn sicr, nid ydym yn disgwyl i hyn ddod yn norm o fewn y system addysg uwch. Yr hyn yr ydym yn edrych arno yw sut y gallwch greu posibiliadau newydd ac efallai dreialu rhai cynlluniau. Nid oes gennyf unrhyw gyrsiau penodol mewn golwg ar hyn o bryd. Mae hyn i'w drafod â'r sector, fel y dywedais. Mae hon yn ddogfen ddeinamig ac rydym yn awyddus i fwrw ymlaen â hynny. Fodd bynnag, yng Nghymru, ac yng ngweddill y DU, mae angen inni feddwl am y ffordd yr ydym yn ariannu astudiaethau ôl-raddedig a addysgir, a gallai hyn wneud y cyfleoedd hynny'n fwy agored.

In respect of the research councils, it is very important that more higher education institutions populate the committees of the research councils with individuals from within their own institutions here in Wales. That would be beneficial to us—we have been told that by the research councils. In respect of the STEM subjects, the Member will be well aware of the £50 million investment between the Minister for business, my own department and HEFCW in Sêr Cymru, to attract more stars in the science sector to Wales, and we are working very hard to enable that to take place. The new Swansea University campus is in my friend's constituency in Aberavon, and he will know of the opportunities that are being opened up there as well.

O ran y cynghorau ymchwil, mae'n bwysig iawn bod mwy o sefydliadau addysg uwch yn dewis unigolion o'u sefydliadau hwy eu hunain ar bwyllgorau'r cynghorau ymchwil yma yng Nghymru. Byddai hynny o fudd inni—mae'r cynghorau ymchwil wedi dweud hynny wrthym. O ran y pynciau STEM, bydd yr Aelod yn gwybod yn iawn am y buddsoddiad £50 miliwn yn Sêr Cymru rhwng y Gweinidog busnes, fy adran i fy hun a CCAUC, er mwyn denu mwy o sêr yn y sector gwyddoniaeth i Gymru, ac rydym yn gweithio'n galed iawn i'w gwneud yn bosibl i hynny ddigwydd. Mae campws newydd Prifysgol Abertawe yn etholaeth fy nghyfaill yn Aberafan, a bydd yn gwybod am y cyfleoedd sy'n cael eu hagor yno hefyd.

On the final point, on higher-level apprenticeships, this is something that my colleague the Deputy Minister for Skills and Technology is very actively pursuing. We see that there is potential for that within the scope of the new funding that we have announced on apprenticeships and we are looking at that at the present time.

Ar y pwynt olaf, ynghylch prentisiaethau lefel uwch, mae hyn yn rhywbeth y mae fy nghyd-weithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, yn mynd i'r afael ag ef yn frwd iawn. Rydym yn gweld bod potensial i hynny o fewn cwmpas y cyllid newydd yr ydym wedi'i gyhoeddi ar gyfer prentisiaethau ac rydym yn edrych ar hynny ar hyn o bryd.

15:31 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Nid wyf yn gwybod faint o gwestiynau sydd ar ôl, rhaid dweud, ond mae tipyn i'w ddweud. Yn gyntaf, croesawaf y Gweinidog yn ôl yn saff ar y cledrau yn y maes hwn, a dweud i ddechrau ein bod yn cytuno bod hwn yn sector llwyddiannus a chryf i Gymru. Mae'n un o gonglfeini'r economi, ac yn un o gonglfeini cyrhaeddiad Cymru hefyd, ac rydym eisiau gweld y sector yn cael ei warchod a bod adeiladu arno. Rwy'n falch iawn bod datganiad y Gweinidog heddiw yn cydnabod bod y gwaith ad-drefnu bellach wedi'i gwblhau. Rwy'n meddwl bod cwestiwn o hyd ynglŷn â Phrifysgol Glyndŵr. Nid wyf yn siŵr os atebodd y Gweinidog gwestiwn Angela Burns ar hynny yn gynharach, ond byddwn yn hoffi clywed—rwy'n gwybod ac yn deall pam bod oedi wedi bod—ddiweddariad ynglŷn â phryd y bydd datganiad datblygiad ar y dyfodol yn y gogledd-ddwyrain a sgîl effeithiau hynny, wrth gwrs.

I do not know how many questions are left to be asked, I must say, but there is quite a bit to be said. First of all, may I welcome the Minister, who is clearly back on track in this area, and say at the outset that we agree with him that this is a very successful and strong sector for Wales. It is a cornerstone of our economy, and one a cornerstone of Wales's achievements too, and we want to see the sector protected and built upon. I am very pleased that the Minister's statement today does acknowledge that the reconfiguration work has now been completed. I think that there is still a question about Glyndŵr University. I am not sure that the Minister answered the question asked earlier by Angela Burns on that, but I would like to hear—I know and understand why there have been delays—an update on when we should expect a statement on the future in north-east Wales and the impact of that, of course.

Rwyf hefyd yn croesawu yn arbennig gyhoeddi eich datganiad polisi heddiw. Mae Plaid Cymru yn cwblhau ei waith ar adeiladu'r sector ac rydym wedi bod yn ymgynghori. Rhag ofn bod diddordeb, mae gennym seminar ar 28 Mehefin yn y Pierhead, lle mae croeso i bobl gyfrannu at y ffordd ymlaen.

I also particularly welcome the publication of your policy statement today. Plaid Cymru is completing its work on building on the sector and has been consulting on this. Should you be interested, we have a seminar on 28 June in the Pierhead; people are welcome to contribute to our review on the way forward.

Rwyf am ganolbwyntio heddiw ar y pedwar prif faes i'r Gweinidog, sef cyllido a ffioedd, mynediad i addysg uwch, ymchwil a'r Gymraeg. Dechreuaf gyda chyllido. Mae'r datganiad, rwy'n ofni, yn cymryd llawer iawn yn ganiataol, ac mae sawl rhagdybiaeth yn y graff, sydd yn edrych yn eithriadol o drawiadol o weld arian ar gyfer prifysgolion yn cynyddu mewn termau ariannol, er nad mewn termau real efallai. Fodd bynnag, dyma bolisi sy'n dibynnu'n llwyr ar y llif myfyrwyr rhwng Cymru a Lloegr yn aros yr un peth. Rydym eisoes wedi gweld nad oedd rhai o ragdybiaethau'r gorffennol yn wir, felly rwy'n awgrymu nad yw hynny'n arbennig o sicr. Rwyf hefyd yn nodi, gyda'r Gweinidog, bod y polisi presennol yn costio—eleni, er enghraifft, mae £74 miliwn yn mynd yn uniongyrchol gyda myfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgolion y tu allan i Gymru. Nid yw Plaid Cymru o'r farn, felly, bod y polisi presennol yn fforddiadwy nac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

I will concentrate today on the four main areas for the Minister: funding and fees, access to higher education, research and the Welsh language. I will start with funding. I am afraid that the statement takes much for granted, and there are a number of assumptions in the graph, which looks exceptionally impressive in terms of funding for universities increasing in cash terms, if not in real terms perhaps. However, this is a policy that is entirely dependent on the flow of students between England and Wales remaining the same. We have already seen that some of the assumptions made in the past were not accurate, so I suggest that that is not particularly certain for the future. I also note, with the Minister, that there is a cost attached to the current policy—this year, for example, £74 million will go directly with students travelling to study in universities outside Wales. Plaid Cymru is not, therefore, of the opinion that the current policy is affordable and sustainable in the long term.

Mae mwy i'r system, wrth gwrs, na ffioedd yn unig, felly rwy'n croesawu'r cyfeiriad yn y datganiad at gyrsiau gradd dwy flynedd a'r posibilrwydd o drydedd flwyddyn yn gwneud MA. Dyma syniad y bûm i'n ei wyntyllu ac yn ymgynghori arno. Nid wyf yn gwybod a fydd y Gweinidog yn cael yr un ymateb ac a gefais i o sector y prifysgolion, ond byddwn yn hoffi i'r Gweinidog fynd ymhellach nag y gwnaeth wrth ymateb i David Rees. Rwy'n meddwl bod ateb yma i rai cyrsiau yng Nghymru, a bod ffordd o ddatblygu patrwm astudio gwahanol sy'n ateb anghenion Cymru ac sydd yn ymateb i'r cyfyngderau ariannol sydd gennym, sy'n her i brifysgolion, rwy'n cytuno.

There is more to the system, of course, than fees alone, so I welcome the reference in the statement to two-year condensed courses and the possibility of a third year studying for an MA. This is an idea that I have put forward and consulted upon. I do not know whether the Minister will get the same response as I received from the university sector, but I would like him to go further than he did in responding to David Rees. I think that there is a solution here for certain courses in Wales, and that there is a means of developing an alternative study pattern that meets Welsh needs and responds to the financial limitations that we currently have, which would, I agree, be a challenge for universities.

O ran mynediad, mae nifer y rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru sy'n gwneud cais, o leiaf, i brifysgolion wedi cynyddu; rwy'n cydnabod hynny. Fodd bynnag, mae wedi cynyddu o 0.5%, sy'n gynnydd bach iawn. Byddwn i'n meddwl bod angen mwy o waith yn y maes hwn gan y Llywodraeth. Nodaf fod Paul Murphy wedi cael ei benodi yn llysgennad dros gael mwy o fyfyrwyr i golegau Oxbridge. Boed hynny fel y bo, credaf fod angen mwy o ladmeryddion, er mwyn cael myfyrwyr o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig i mewn i unrhyw brifysgol, lle gallant flodeuo a dangos eu doniau. Hoffwn weld y Llywodraeth yn talu mwy o sylw i hynny wrth symud ymlaen.

In terms of access, the numbers applying to universities from our most disadvantaged areas have increased; I acknowledge that. However, it has only increased by 0.5%, which is very small. I would have thought that more work was required by Government in this area. I note that Paul Murphy has been appointed ambassador for attracting more students to Oxbridge. Be that as it may, I think that we need more people to attract people from our most disadvantaged communities into any university, where they can blossom and show off their skills. I would like to see the Government paying more attention to that as it moves forward.

O ran ymchwil, dyma'r rhan lle roeddwn fwyaf siomedig gyda'r datganiad polisi, nid yn gymaint gyda'r hyn a ddywedodd y Gweinidog heddiw, ond gyda'r datganiad polisi ei hun. Credaf fod y ddogfen yn hunan-fodlon o ran ymchwil, ac yn complacent, a defnyddio'r gair Saesneg. Er bod y Gweinidog wedi cydnabod heddiw bod hwn yn rhyw fath o flaenoriaeth, mae tueddiad yn y datganiad i guddio'r ffaith nad ydym yn gwneud hanner cystal ag y dylem o ran cael arian o'r cynghorau cyllido—mae'n debyg mai dim ond 30.6% yr ydym yn ei gael o'r arian y dylem ei gael o'r saith cyngor ymchwil. Nid ydym ychwaith yn cael arian ar lefel Ewropeaidd, o dan gynllun Horizon 2020, lle rydym yn sgorio 2.26% yn unig, o'i gymharu â'r Alban, sy'n sgorio 9.4%.

In terms of research, this is the area on which I was most disappointed by the policy statement, not so much with what the Minister said today, but with the policy statement itself. I find the document complacent on research. Although the Minister has today acknowledged that this is a priority, there is a tendency in this statement to conceal the fact that we are not doing half as well as we should be doing in accessing funds from research councils—we are, it seems, only receiving 3.6% of the funding that we should receive from the seven research councils. We are not, either, getting money on an European level, under the Horizon 2020 scheme, where we score only 2.26%, compared with Scotland, which is achieving 9.4%.

I roi hynny mewn ffigurau go iawn, rydym yn colli rhywbeth tebyg i £20 miliwn y flwyddyn ar y cynghorau ymchwil, ac yn colli tua €80 miliwn o safbwynt y rhaglen Horizon. Rydym yn sôn am symiau sylweddol a allai fod ar gael i brifysgolion yng Nghymru. Er bod gwelliant wedi ei wneud, byddwn wedi hoffi llawer mwy o gydnabyddiaeth yn y ddogfen bolisi o'r her sy'n dal i fodolI. Rwy'n cydnabod yr hyn y mae'r Gweinidog wedi ei ddweud heddiw, ond mae angen eu cael ar bapur. Fel y mae'r ddogfen yn ei nodi—ac fel y mae'r Gweinidog yn ei ddweud—dyma ddogfen sy'n cael ei pherchnogi gan y Llywodraeth a'r sector gyda'i gilydd. Ofnaf fod y sector wedi llurgunio rywfaint ar y ddogfen, a'i fod yn cuddio y tu ôl i rai ffeithiau positif, heb weld y darlun llawn.

To put that in real figures, we are losing out to the tune of some £20 million a year from research councils, and some €80 million from the Horizon programme. We are talking about significant sums that could be available to Welsh universities. Although there have been improvements, I would have liked to have seen far more recognition in the policy document of the challenge that remains. I acknowledge what the Minister has said today, but we need it on paper. As the document says—and as the Minister said—this is a document that is owned by the Government and the sector jointly. I am afraid that the sector has had too much of an influence on the document, and that it is hiding behind some positive facts, and not seeing the full picture.

Yn olaf, hoffwn ddweud rhywbeth ynglŷn â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Roeddwn yn falch iawn o weld prosbectws y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar glawr yn y digwyddiad amser cinio yma heddiw, lle roeddem yn dathlu Tanio Tyfiant prifysgolion Cymru. Credaf fod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi bod yn llwyddiant yn ei flynyddoedd cyntaf, ac rwy'n falch bod y Gweinidog yn cydnabod hynny hefyd. Dyma waddol llwyddiannus Llywodraeth Cymru'n Un. Edrychaf ymlaen at gyd-weithio â'r Gweinidog i sicrhau llwyddiant y Coleg Cymraeg Cendlaethol yn y dyfodol.

To conclude, I would like to say something about the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. I was pleased to see the college's prospectus at the lunchtime event held here today, where we were celebrating Driving Growth in Welsh universities. I believe that the Coleg Cymraeg Cenedlaethol has been a success in its first years and I am pleased that the Minister also recognises that success. This is the successful legacy of the One Wales Government. I look forward to working with the Minister to ensure the success of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol for the future.

15:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wrth gwrs fy mod yma o hyd. [Chwerthin.]

I am, of course, still here. [Laughter.]

On the Plaid Cymru spokesperson's comments on north-east Wales, we are awaiting the report from Sir Adrian Webb. My intention would be to bring that to the Assembly, so that we can have a further discussion on it. However, I do not want to pre-judge that report. I have not seen the report yet, and I believe that it would be unwise for me to comment. I know that there has been extensive consultation with stakeholders in north-east Wales, with the public sector, the private sector, higher education and elsewhere. I look forward to reading that report, and considering it.

O ran sylwadau llefarydd Plaid Cymru ar ogledd-ddwyrain Cymru, rydym yn aros am adroddiad Syr Adrian Webb. Fy mwriad fyddai dod â hwnnw i'r Cynulliad, fel y gallwn gael trafodaeth bellach arno. Fodd bynnag, nid wyf am ragfarnu'r adroddiad hwnnw. Nid wyf wedi gweld yr adroddiad eto, ac rwyf yn credu y byddai'n annoeth imi wneud sylw. Gwn y bu ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid yng ngogledd-ddwyrain Cymru, â'r sector cyhoeddus, y sector preifat, addysg uwch ac eraill. Edrychaf ymlaen at ddarllen yr adroddiad hwnnw, a'i ystyried.

In respect of funding and fees, I believe that the income projections that we have set out are reasonable. I do not know whether the party opposite still adheres to the policy of 'One Wales'; we will no doubt find that out in due course. However, I wish to welcome what Simon Thomas said about what I suggested around the idea of a condensed two-year undergraduate programme to assist in funding Master's courses. I also agree with him that Wales needs to look at study patterns that work for us as a country. If we can build a consensus around that, that is something that I would like to discuss further with him.

O ran cyllid a ffioedd, credaf fod y rhagamcanion incwm yr ydym wedi eu nodi yn rhesymol. Nid wyf yn gwybod a yw'r blaid gyferbyn yn dal i lynu at bolisi 'Cymru'n Un'; mae'n siŵr gennyf y cawn wybod hynny maes o law. Fodd bynnag, rwyf am groesawu'r hyn a ddywedodd Simon Thomas am yr hyn yr wyf yn ei awgrymu ynghylch y syniad o raglen israddedig ddwy flynedd ddwys i helpu i ariannu cyrsiau Meistr. Rwyf hefyd yn cytuno ag ef fod angen i Gymru edrych ar batrymau astudio sy'n gweithio i ni fel gwlad. Os gallwn adeiladu consensws o amgylch hynny, mae hynny'n rhywbeth yr hoffwn ei drafod ymhellach ag ef.

On access, we need to pay tribute—as I tried to do in my statement—to the work of Welsh higher education institutions. HEFCW has helped to drive up the numbers that enter higher education from Communities First areas, for example, which has been set out as a target in its corporate strategy. We have put in place, within the fees plans, clear expectations of what higher education institutions must do to promote access for people from more disadvantaged areas, as well as people with more disadvantaged backgrounds. There will always be more that can be done, but I believe that the sector in Wales has a good record in this area—as it does, on the whole, in research. It is important that we do not talk down the research achievements of our higher education institutions in Wales. There is an issue around research council funding, although if you look at arts and humanities and social sciences research, I think that you will see that we are doing pretty well. It is in other areas that we need to look at what is being done, in STEM particularly, and that was raised by my colleague the Member for Aberavon.

O ran mynediad, mae angen inni dalu teyrnged—fel yr wyf wedi ceisio'i wneud yn fy natganiad—i waith sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae CCAUC wedi helpu i godi'r niferoedd sy'n mynd i addysg uwch o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, er enghraifft, sy'n darged yn ei strategaeth gorfforaethol. Rydym wedi rhoi disgwyliadau clir ar waith, o fewn y cynlluniau ffioedd, ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i sefydliadau addysg uwch ei wneud i hyrwyddo mynediad i bobl o ardaloedd mwy difreintiedig, yn ogystal â phobl o gefndiroedd mwy difreintiedig. Bydd lle bob amser i wneud mwy, ond rwyf yn credu bod gan y sector yng Nghymru record dda yn y maes hwn—fel sydd ganddo, ar y cyfan, mewn ymchwil. Mae'n bwysig nad ydym yn dibrisio cyflawniadau ymchwil ein sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae lle i edrych ar gyllid y cynghorau ymchwil, ond os edrychwch ar ymchwil ym maes y celfyddydau a'r dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, rwyf yn meddwl y gwelwch ein bod yn gwneud yn eithaf da. Mewn meysydd eraill y mae angen inni edrych ar yr hyn sy'n cael ei wneud, yn enwedig o ran STEM, a chodwyd hynny gan fy nghyd-weithiwr, yr Aelod dros Aberafan.

In respect of Horizon 2020, some of our higher education institutions have been doing well in this programme, but there is more that we can do. What we need to ensure is that we establish how our higher education institutions move on from the, perhaps, overreliance that there has been on structural funding into framework and other funding in the future.

O ran Horizon 2020, mae rhai o'n sefydliadau addysg uwch wedi bod yn gwneud yn dda yn y rhaglen hon, ond mae mwy y gallwn ei wneud. Yr hyn y mae angen inni ei sicrhau yw ein bod yn pennu sut y mae ein sefydliadau addysg uwch yn symud ymlaen o'r orddibyniaeth sydd wedi bod, efallai, ar arian strwythurol at gyllid fframwaith a chyllid arall yn y dyfodol.

15:40

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Os yw Simon Thomas yn poeni bod yr holl gwestiynau wedi cael eu gofyn, mae eisiau iddo sefyll lle rwyf i'n sefyll.

If Simon Thomas is concerned that all the questions have been asked, he should stand where I am standing.

A gaf i hefyd ddiolch i chi am y datganiad, Weinidog, ac am adael i ni gael golwg ar y ddogfen? Nid wyf wedi ei darllen o glawr i glawr—mae tua 40 tudalen ynddi—ond o'r hyn rwyf wedi ei ddarllen, nid wyf yn meddwl y byddai llawer ohonom yn y fan hon yn gwrthwynebu unrhyw safbwynt mae'r Llywodraeth yn ei gymryd. Rwy'n croesawu'r ffaith bod cyd-dynnu yn y maes hwn ac rwy'n meddwl y byddai pob Aelod yn y Cynulliad yn ategu'r hyn a ddywedoch ynglŷn â'r ffaith bod yn rhaid inni gydweithio er mwyn creu ansawdd gwell o fewn y sector hwn er mwyn buddiannau Cymru.

May I also thank you for your statement, Minister, and for allowing us to see the document? I have not read it from cover to cover—it is about 40 pages' long—but from what I have read, I do not think that many of us would object to any position that the Government takes. I welcome the fact that there is collaboration in this area and I think that all Assembly Members would endorse what you said about the fact that we have to collaborate in order to secure better quality within this sector, for the benefit of Wales.

Rydych wedi dweud bod y rhan fwyaf o'r ad-drefnu wedi cael ei gwblhau. Mae ansicrwydd o ran y sefyllfa yn y gogledd-ddwyrain. Rwy'n deall y rhesymau pam y tynnwyd yr adroddiad yn ôl, i ryw raddau, ac rwyf hefyd yn deall pam na chadwyd at yr amserlen wreiddiol. Rwyf hefyd yn derbyn yr hyn a ddywedoch, sef bod yn rhaid i chi ystyried cynnwys yr adroddiad yn ddwys ac nad ydych eisiau rhuthro at unrhyw gasgliad. Fodd bynnag, o'r hyn rwy'n ei glywed, nid yw'n ymddangos y byddwch yn gwneud datganiad i'r Cynulliad cyn diwedd tymor yr haf eleni.

You have said that the majority of the reconfiguration has been completed. There is uncertainty with regard to the situation in north-east Wales. I understand why the report was withdrawn, to a certain extent, and I also understand why the original timetable was not adhered to. I also accept what you said, that you have to seriously consider the content of the report and that you do not want to rush to any conclusions. However, from what I hear, it does not appear that you will be making a statement to the Assembly before the summer recess this year.

O ran manylion, rydych wedi dweud bod cynyddu'r incwm ymchwil i Gymru yn flaenoriaeth i chi fel Llywodraeth, ac rydym i gyd yn cefnogi hynny. A ydych yn fodlon â'r gwelliannau o fewn y ddwy flynedd ers i chi ddweud fel Llywodraeth bod angen gwella'r sefyllfa? Rwy'n derbyn yr hyn a ddywedoch o ran y pynciau celfyddydol ac ati, ond fel y dywedodd Simon, mae meysydd eraill lle nad yw'r perfformiad ar hyn o bryd yn dda.

Turning to details, you have said that increasing the research income coming to Wales is a priority for you as a Government, and we all support that. Are you satisfied with the improvements seen in the two years since you, as a Government, said that the situation needed to improve? I accept what you said about the arts subjects and so on, but as Simon said, performance is not currently as good in other areas.

O ran cael mwy o fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig, mae llawer o'r canllawiau wedi cael eu seilio ar Cymunedau yn Gyntaf. Mae pryder yn y gogledd o ran yr ardaloedd gwledig sydd wedi eu tynnu allan o Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r system gyllido wedi ei rhoi ymlaen am flwyddyn, er mwyn i HEFCW weld yn union sut y bydd yn gwneud hynny. A ydych yn fodlon bod y gwaith hwnnw yn cael ei wneud ar hyn o bryd? Mae'r ddogfen yn dweud, hyd yn oed os yw myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cael eu denu i brifysgolion, bod y niferoedd sy'n mynd ymlaen i raglenni fel Erasmus yn llawer is na'r disgwyl. A oes digon o waith yn cael ei wneud ar hynny?

In terms of attracting more students from disadvantaged backgrounds, much of the guidance is based on Communities First. There is concern in north Wales about the rural areas that have been taken out of Communities First. The funding system has been put forward for a year, for HEFCW to see exactly how that is done. Are you satisfied that that work is being done? The document says that, even if students from disadvantaged areas are attracted to university, the number going on to programmes such as Erasmus is much lower than expected. Is enough being done on that?

Yn olaf, o ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae'r ddogfen yn dweud ei fod yn llwyddiant ond nad yw'r cysylltiadau rhwng y coleg cenedlaethol a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gryf. Rwy'n synnu. Mae fy mab ym mlwyddyn 11, yn sefyll TGAU ar hyn o bryd, ac mae nifer o brifysgolion o Gymru, a hyd yn oed o Loegr, wedi bod yn gwneud cyflwyniadau yn ei ysgol cyfrwng Cymraeg, ond nid oes cyswllt rhwng yr ysgol a'r coleg cenedlaethol. A oes modd i'r Llywodraeth bwyso ar y coleg cenedlaethol i wella'i gysylltiadau ag ysgolion cyfrwng Cymraeg?

Finally, in terms of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, the document says that it is a success but that links between the college and Welsh-medium schools are not strong. I am surprised. My son is in year 11, doing his GCSEs at the moment, and a number of Welsh universities, and even some from England, have visited his Welsh-medium school to make presentations, but there has been no communication between the school and the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Can the Government encourage the college to improve its links with Welsh-medium schools?

15:44

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Again, I think that the comments of the Liberal Democrats spokesperson were broadly supportive of what we are doing, and I agree with him that this is very much about a partnership with the sector and we want to see greater collaboration. I think that we have started to see that over the last few years.

Unwaith eto, credaf fod sylwadau llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gefnogol at ei gilydd i'r hyn yr ydym yn ei wneud, a chytunaf ag ef fod hyn yn ymwneud â phartneriaeth â'r sector ac rydym am weld mwy o gydweithio. Credaf ein bod wedi dechrau gweld hynny dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

In respect again of north-east Wales, I have not received the report yet; so, I am not in a position to say any more. Obviously, it will be of great interest to him and many others within this Chamber. There is no doubt that we will return to that in due course.

O ran gogledd-ddwyrain Cymru, nid wyf wedi derbyn yr adroddiad eto; felly, nid wyf mewn sefyllfa i ddweud mwy. Yn amlwg, bydd o ddiddordeb mawr iddo ef a llawer o rai eraill yn y Siambr hon. Byddwn yn sicr yn dychwelyd at hynny maes o law

In respect of research income, I think that we have a better analysis and understanding now of the detail of success within Wales in attracting research income and where we are strong and where we are weak. We are trying to rectify the situation where we have been traditionally weaker with the Sêr Cymru programme. That is a major investment, with £50 million from this Government and partners. I think that that should be welcomed and supported. I hope that it will lead to us addressing some of those challenges. From the conversations that I have had with the vice-chancellors over the last year or so, I think that they are all up for this challenge.

O ran incwm ymchwil, credaf fod gennym well dadansoddiad a dealltwriaeth bellach o fanylion llwyddiant yng Nghymru o ran denu incwm ymchwil a lle rydym yn gryf a lle rydym yn wan. Rydym yn ceisio unioni'r sefyllfa lle rydym wedi bod yn wannach yn draddodiadol drwy raglen Sêr Cymru. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol, gyda £50 miliwn gan y Llywodraeth hon a phartneriaid. Credaf y dylid ei groesawu a'i gefnogi. Rwyf yn gobeithio y bydd yn gyfle inni fynd i'r afael â rhai o'r heriau hynny. Yn ôl y sgyrsiau yr wyf wedi'u cael â'r is-gangellorion dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, rwyf yn meddwl eu bod i gyd yn barod am yr her hon.

In respect of attracting students from disadvantaged and non-traditional backgrounds, again I reiterate that we have put in place the fees plans. It is clear what higher education institutions have to do. HEFCW also has its targets within its corporate strategy. If there are any areas where the Member thinks that we still have challenges to fulfil—and I am sure that there is more that we could do in the future—I would encourage him to write to me about them.

O ran denu myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig a chefndiroedd nad ydynt yn rhai traddodiadol, dywedaf eto ein bod wedi rhoi cynlluniau ffioedd ar waith. Mae'n amlwg beth sy'n rhaid i sefydliadau addysg uwch ei wneud. Mae gan CCAUC hefyd ei dargedau o fewn ei strategaeth gorfforaethol. Os oes unrhyw feysydd lle mae Aelodau'n credu bod gennym heriau i'w cyflawni—ac rwyf yn siŵr bod mwy y gallem ei wneud yn y dyfodol—byddwn yn eu hannog i ysgrifennu ataf yn eu cylch.

In respect of the Coleg Cenedlaethol, I will certainly go back to it to discuss its outreach programme to Welsh-medium schools in respect of recruitment and what it can do to bolster the number of students from Welsh-medium schools who go on in a continuum of learning, if you like, into study through the medium of Welsh in the higher education sector. Increasingly, as we develop new resources through the Coleg Cenedlaethol and digital resources also for our schools through our own Hwb and Learning Wales, we will see the opportunity for sharing materials across schools and in further and higher education, which I think will be beneficial, and I hope that those working through the medium of Welsh in the Coleg Cenedlaethol will see the benefits of developing those links. I think that most of them do, but it is still early days for the Coleg Cenedlaethol and so it may be that their roots have not reached as deeply as they would like them to do.

O ran y Coleg Cenedlaethol, byddaf yn sicr yn mynd yn ôl ato i drafod ei raglen allgymorth i ysgolion cyfrwng Cymraeg o ran recriwtio a'r hyn y gall ei wneud i hybu nifer y myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n parhau â'u dysgu drwy astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg uwch. Wrth inni ddatblygu adnoddau newydd drwy'r Coleg Cenedlaethol ac adnoddau digidol hefyd i'n hysgolion drwy ein Hwb ein hunain a Dysgu Cymru, byddwn yn gweld fwyfwy fod cyfle i rannu deunyddiau ar draws ysgolion ac mewn addysg bellach ac uwch, a chredaf y bydd hynny'n fuddiol, ac rwyf yn gobeithio y bydd y rhai sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Coleg Cenedlaethol yn gweld manteision datblygu'r cysylltiadau hynny. Credaf fod y rhan fwyaf ohonynt yn gweld hynny, ond mae'n gynnar eto i'r Coleg Cenedlaethol ac felly gall fod nad yw ei wreiddiau wedi cyrraedd mor ddwfn ag yr hoffai iddynt ei wneud.

15:47 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae un peth achos mae nifer o'r cwestiynau roeddwn i eisiau eu gofyn wedi eu gofyn yn barod. Fel y dywedoch yn gynharach, Weinidog, y prifysgolion yw un o'r diwydiannau mwyaf gwerthfawr yng Nghymru, wrth i chi feddwl fod y £3.6 biliwn rwy'n credu i chi sôn amdano yn dod mewn. Dyna maen nhw'n ei gyfrannu at arian y wlad. Fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes, rwyf wedi ymweld yn bersonol â phrifysgolion, megis adran beirianneg Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Glyndŵr, a gweld y gwaith da maen nhw'n ei wneud yn y mannau hynny. Y cwestiwn cyntaf sydd gen i yw: beth yw'r ffordd orau o ran polisi o sicrhau bod diwydiant yn elwa o'r gwaith a wnaed ym mhrifysgolion Cymru? A oes unrhyw wersi yr ydych chi wedi eu dysgu ynglŷn ag arfer gorau i sicrhau hyn? Rwy'n credu y byddai'r prifysgolion yn gallu cael arian o ddiwydiant wedi hynny. Roeddwn yn falch o glywed am brosiect ASTUTE, sef 'Advanced Sustainable Manufacturing Technologies', a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Yno, mae prifysgolion ledled Cymru yn gweithio ar y cyd i gasglu arbenigedd i gynyddu ffyniant economaidd y gorllewin a'r Cymoedd. Yn amlwg mae hyn yn beth positif yn yr ardal gyfredol. A oes cynlluniau i estyn y prosiect hwn i ardaloedd eraill yng Nghymru oherwydd roedd yr hyn welsom ni o brifysgolion Cymru yn estyn i'r Cymoedd yn arbennig? Mae fy nhrydydd cwestiwn wedi ei ofyn yn barod. Sut fyddwch chi'n sicrhau y bydd y prifysgolion yn ennill mwy o arian o Ewrop dan Horizon 2020?

I will be brief because many of the questions that I wanted to ask have already been asked. As you said earlier, Minister, the universities are one of the most valuable industries to Wales when you bear in mind that £3.6 billion, which I think you mentioned, is generated by them. That is what they contribute to the Welsh economy. As a member of the Enterprise and Business Committee, I have personally visited universities, such as the engineering department at Cardiff University and Glyndŵr University, and I have seen the excellent work that they do there. My first question is: what is the best way in terms of policy to ensure that industry benefits from the work that is done in the universities of Wales? Are there any lessons that you have learned about best practice in terms of ensuring this? Then I do think that the universities themselves can generate funds from industry. I was pleased to hear recently about the ASTUTE project, namely Advanced Sustainable Manufacturing Technologies, which is funded by the Welsh Government. There, universities across Wales work jointly in order to bring together expertise to improve prosperity in west Wales and the Valleys. Clearly, this is a positive development in that area. Are there any plans to extend this project to other parts of Wales because what we saw in terms of the Welsh universities reaching out into the Valleys was excellent? My third question has already been asked. How can we ensure that universities gain more funds from Europe under Horizon 2020?

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.49 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.49 p.m.*

15:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome what my colleague the Member for Llanelli has said in respect of the contribution of the higher education sector to the Welsh economy. I think that a number of Members were present at the event organised by Higher Education Wales earlier to launch its document. I also agree with him about the excellent work that is being done by a number of institutions in the field of engineering. He mentioned Cardiff and Glyndŵr universities. Swansea University also has extensive engineering facilities, as does the University of South Wales. So, these are all important areas and we need to build on them in terms of relationships with industry. In some respects, one of the things that it is important that the sector does not do is to make assumptions about what industry needs. We know that, actually, there are businesses that encourage applied research and want blue skies research, too, because of the spin-off that that can often bring to them. It is therefore important that they understand the sophistication of the needs of industry, and it is also important that they communicate where they have real expertise—not trying to cover necessarily the whole field, but being very specific about the areas of expertise is also important.

Rwyf yn croesawu'r hyn y mae fy nghyd-weithiwr, yr Aelod dros Lanelli, wedi'i ddweud o ran cyfraniad y sector addysg uwch i economi Cymru. Credaf fod nifer o Aelodau'n bresennol yn y digwyddiad a drefnwyd gan Addysg Uwch Cymru'n gynharach i lansio ei dogfen. Rwyf hefyd yn cytuno ag ef am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan nifer o sefydliadau ym maes peirianneg. Soniodd am brifysgolion Caerdydd a Glyndŵr. Mae gan Brifysgol Abertawe gyfleusterau peirianyddol helaeth hefyd, yn ogystal â Phrifysgol De Cymru. Felly, mae'r rhain i gyd yn feysydd pwysig ac mae angen inni adeiladu arnynt o ran y berthynas â diwydiant. Mewn rhai ffyrdd, un o'r pethau y mae'n bwysig nad yw'r sector yn ei wneud yw gwneud rhagdybiaethau am yr hyn sydd ei angen ar ddiwydiant. Rydym yn gwybod am fusnesau sy'n annog ymchwil gymhwysol ac sydd am weld ymchwil heb orwelion, hefyd, oherwydd y pethau a all yn aml ddeillio o hynny iddynt. Felly mae'n bwysig eu bod yn deall natur soffistigedig anghenion diwydiant, ac mae hefyd yn bwysig eu bod yn rhoi gwybod lle mae ganddynt arbenigedd gwirioneddol—heb geisio ymdrin o reidrwydd â'r maes cyfan, ond mae hefyd yn bwysig bod yn benodol iawn am y meysydd arbenigedd.

I was interested and encouraged by what he had to say about the ASTUTE programme in west Wales. Clearly, we have a number of initiatives throughout Wales that are designed to encourage young people from a variety of backgrounds into higher education who might not previously have considered it.

Roedd yr hyn yr oedd ganddo i'w ddweud am y rhaglen ASTUTE yng ngorllewin Cymru'n ddiddorol ac yn galonogol. Yn amlwg, mae gennym nifer o fentrau ledled Cymru sydd wedi'u cynllunio i annog pobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd na fyddent efallai wedi ystyried hynny o'r blaen i ddod i mewn i addysg uwch.

Finally, I think that I have addressed the whole issue of the Horizon funding. Some institutions have done well through this, but it is clear that we have to move the sector on from its overreliance on structural funds to the framework and other research funds that may be available throughout the European Union.

Yn olaf, credaf fy mod wedi mynd i'r afael â holl fater cyllid Horizon. Mae rhai sefydliadau wedi gwneud yn dda drwy hyn, ond mae'n amlwg bod yn rhaid inni symud y sector ymlaen o'i orddibyniaeth ar gronfeydd strwythurol at yr arian fframwaith a'r cronfeydd ymchwil eraill a allai fod ar gael ledled yr Undeb Ewropeaidd.

## Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013

Cynnig NDM5261 Lesley Griffiths

## Apprenticeships (Alternative Welsh Completion Conditions) Regulations 2013

Motion NDM5261 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2013.

Approves that the draft The Apprenticeships (Alternative Welsh Completion Conditions) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 14 May 2013.

15:51

### Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I hope that it is our common understanding that apprenticeships are synonymous with employment. It is the experience of genuine employment that sets an apprenticeship apart from most other forms of vocational training. We are putting apprenticeships in Wales on a statutory footing. This means that the vast majority of apprentices will be employed and have an apprenticeship agreement as part of their contract of service under the standard completion conditions. However, we need to make provision for limited exceptions to the requirement for apprentices to be employed. That is why we are here today, to agree the circumstances as specified in these regulations.

Rwyf yn gobeithio ein bod i gyd yn deall bod prentisiaethau'n gyfystyr â chyflogaeth. Yr hyn sy'n gosod prentisiaethau ar wahân i'r rhan fwyaf o fathau eraill o hyfforddiant galwedigaethol yw'r profiad o gyflogaeth wirioneddol. Rydym yn rhoi sylfaen statudol i brentisiaethau yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd mwyafrif llethol y prentisiaid yn cael eu cyflogi ac yn cael cytundeb prentisiaeth fel rhan o'u contract gwasanaeth o dan yr amodau cwblhau safonol. Fodd bynnag, mae angen inni wneud darpariaeth ar gyfer eithriadau cyfyngedig i'r gofyniad i brentisiaid gael eu cyflogi. Dyna pam yr ydym yma heddiw, i gytuno ar yr amgylchiadau fel y'u pennir yn y rheoliadau hyn.

The proposed exceptions fall into two categories. First, to enable those who choose to be self-employed, there is the option to achieve an apprenticeship certificate if they have followed and achieved the content of an apprenticeship framework. Secondly, there are those employed apprentices who are made redundant during the course of their apprenticeship. The regulations provide that they may complete their apprenticeship within six months of the date of their redundancy by working other than for reward—for example, by working in an unpaid capacity. Having completed their apprenticeship, they should be better placed in the labour market. I hope that you will agree that these regulations balance the desire for apprentices to be employed with the need to allow for some flexibility in those circumstances where employment is not possible. I commend the regulations to you.

Mae'r eithriadau arfaethedig yn disgyn i ddau gategori. Yn gyntaf, er mwyn galluogi'r rhai sy'n dewis bod yn hunangyflogedig, mae opsiwn i gyflawni tystysgrif prentisiaeth os ydynt wedi dilyn ac wedi cyflawni cynnwys fframwaith prentisiaeth. Yn ail, mae'r prentisiaid cyflogedig sy'n colli eu swyddi yn ystod eu prentisiaeth. Mae'r rheoliadau'n darparu y gallant gwblhau eu prentisiaeth o fewn chwe mis i ddyddiad eu diswyddo drwy weithio heblaw am wobr—er enghraifft, drwy weithio mewn rôl ddi-dâl. Ar ôl cwblhau eu prentisiaeth, dylent fod mewn sefyllfa well yn y farchnad lafur. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn cytuno bod y rheoliadau hyn yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr awydd i brentisiaid gael eu cyflogi a'r angen i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd yn yr amgylchiadau hynny lle nad yw cyflogaeth yn bosibl. Cymeradwyaf y rheoliadau ichi.

15:53

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do not see any Member who wishes to speak. I therefore suggest that we proceed straight to the motion. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that no-one does. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Ni welaf ddim un Aelod sy'n dymuno siarad. Felly, awgrymaf ein bod yn symud ymlaen yn syth at y cynnig. Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013

## Public Bodies (Abolition of the Administrative Justice and Tribunals Council) Order 2013

Cynnig NDM5131 Carwyn Jones
Motion NDM5131 Carwyn Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn y Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2013.

To propose that the National Assembly for Wales agrees, in accordance with section 9(6) of the Public Bodies Act 2011, that the Secretary of State make the Public Bodies (Abolition of Administrative Justice and Tribunals Council) Order 2013, in accordance with the draft laid in Table Office on 7 January 2013.

15:53

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The consent motion regarding the Public Bodies (Abolition of Administrative Justice and Tribunals Council) Order 2013 was laid before the Assembly on 7 January and is for consideration this afternoon. I would like to thank the members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, which considered the Welsh Government memorandum, noted the Order and were content.

Cafodd y cynnig cydsyniad ynghylch Gorchymyn y Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 ei osod gerbron y Cynulliad ar 7 Ionawr ac mae cyfle i'w ystyried y prynhawn yma. Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a fu'n ystyried memorandwm Llywodraeth Cymru, a nododd y Gorchymyn ac a oedd yn fodlon.

The decision to abolish the AJTC follows the outcome of the UK Government's review of public bodies. The UK Government believes that an advisory body is no longer required in the field of administrative justice. The AJTC, and its Welsh committee, was initially set up under the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007, and the council keeps under review the administrative justice system as a whole, with a view to making it accessible, fair and efficient. The council seeks to ensure that the relationships between the courts, tribunals and alternative dispute resolution providers satisfactorily reflect the needs of those users, and the Welsh committee of the council has those functions in Wales at present.

Mae'r penderfyniad i ddiddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn dod yn sgil canlyniad adolygiad Llywodraeth y DU o gyrff cyhoeddus. Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen corff ymgynghorol bellach ym maes cyfiawnder gweinyddol. Cafodd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, a'i bwyllgor Cymreig, ei sefydlu'n wreiddiol o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, ac mae'r cyngor yn parhau i adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol yn ei chyfanrwydd, gyda golwg ar ei gwneud yn hygyrch, yn deg ac yn effeithlon. Mae'r cyngor yn ceisio sicrhau bod y berthynas rhwng y llysoedd, y tribiwnlysoedd a darparwyr dulliau amgen o ddatrys anghydfod yn adlewyrchu'n foddhaol anghenion y defnyddwyr hynny, a chan bwyllgor Cymreig y cyngor y mae'r swyddogaethau hynny yng Nghymru ar hyn o bryd.

Consideration has been given to this situation. Our main preference would have been for things to continue as they are. We believe that the council carries out some good work, but we are aware of the fact that it is the UK Government's firm commitment to abolish the AJTC, and the Assembly is being asked to consent under section 9 of the Public Bodies Act 2011. That said, following discussions that have taken place with the UK Government, I am able to inform the Assembly that we intend to set up our own non-statutory committee here in Wales from the time when the AJTC ceases to exist. The Ministry of Justice has agreed to reimburse costs of up to £100,000 for the next 24 months in relation to the establishment of that committee. The committee itself will oversee tribunal reform and devolved administrative justice matters in Wales. The operation of the committee will be reviewed in the final year of its operation. It is our intention to keep in place a body that will have the responsibility of acting as a guardian, as it were, of the public interest with regard to administrative justice.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r sefyllfa hon. Ein dewis cyntaf fyddai i bethau barhau fel y maent. Rydym yn credu bod y cyngor yn gwneud gwaith da, ond rydym yn ymwybodol o'r ffaith fod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n glir i ddiddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, a gofynnir i'r Cynulliad gydsynio o dan adran 9 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Wedi dweud hynny, yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth y DU, gallaf roi gwybod i'r Cynulliad ein bod yn bwriadu sefydlu ein pwyllgor anstatudol ein hunain yma yng Nghymru o'r adeg pan fydd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn peidio â bodoli. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cytuno i ad-dalu costau o hyd at £100,000 ar gyfer y 24 mis nesaf mewn perthynas â sefydlu'r pwyllgor hwnnw. Bydd y pwyllgor ei hun yn goruchwylio diwygio tribiwnlysoedd a materion cyfiawnder gweinyddol datganoledig yng Nghymru. Bydd gwaith y pwyllgor yn cael ei adolygu ym mlwyddyn olaf ei weithrediad. Ein bwriad yw cadw corff a chanddo gyfrifoldeb dros warchod budd y cyhoedd mewn perthynas â chyfiawnder gweinyddol.

The working title of the body that we propose to set up in Wales is the Welsh administrative justice and tribunals advisory committee. Its job will be to identify to Welsh Ministers any issues affecting the administrative justice system here in Wales. It will be charged with ensuring that users of the system are listened to and their interests represented, and it will encourage the sharing of good practice among practitioners.

Teitl dros dro y corff yr ydym yn bwriadu ei sefydlu yng Nghymru yw pwyllgor ymgynghorol cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd Cymru. Ei waith fydd rhoi gwybod i Weinidogion Cymru am unrhyw faterion sy'n effeithio ar y system cyfiawnder gweinyddol yma yng Nghymru. Bydd yn gyfrifol am sicrhau bod defnyddwyr y system yn cael eu clywed a'u buddiannau'n cael eu cynrychioli, a bydd yn annog rhannu arfer da ymhlith ymarferwyr.

I hope that gives the Assembly an idea of why we have brought forward and are supporting this motion today. I can assure the Assembly that plans are in place for a new advisory committee to ensure that expert advice remains in place here in Wales, and that the needs of the user in Wales continue to be paramount.

Rwyf yn gobeithio bod hynny'n rhoi syniad i'r Cynulliad ynghylch pam yr ydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw a pham yr ydym yn ei gefnogi. Gallaf sicrhau'r Cynulliad fod cynlluniau ar waith ar gyfer pwyllgor ymgynghorol newydd er mwyn sicrhau bod cyngor arbenigol yn parhau i fod ar gael yma yng Nghymru, a bod anghenion y defnyddiwr yng Nghymru'n parhau i fod yn hollbwysig.

15:56

## Mick Antoniw [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

This is a rather important Order because it relates to the overseeing of tribunals, not just the tribunals that we have jurisdiction over in Wales, but in respect of those that are not devolved, such as employment, immigration and social security appeals. It is disappointing that the UK Government is choosing to abolish this body, particularly in the light of scrutiny in both the House of Commons and the House of Lords that makes it clear that this is not considered to comply with section 8(2) of the Public Bodies Act. During the most recent House of Lords scrutiny of this, peers talked about how surprised they were that the draft Order had not been,

Mae hwn yn Orchymyn eithaf pwysig oherwydd ei fod yn ymwneud â goruchwylio tribiwnlysoedd, nid dim ond y tribiwnlysoedd y mae gennym awdurdodaeth drostynt yng Nghymru, ond y rheiny nad ydynt wedi'u datganoli, megis cyflogaeth, mewnfudo ac apeliadau nawdd cymdeithasol. Mae'n destun siom bod Llywodraeth y DU yn dewis diddymu'r corff hwn, yn enwedig yng ngoleuni craffu yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi sy'n ei gwneud yn glir nad ystyrir bod hyn yn cydymffurfio ag adran 8(2) o'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus. Yn ystod craffu mwyaf diweddar Tŷ'r Arglwyddi ar hyn, dywedodd yr arglwyddi eu bod yn synnu nad yw'r Gorchymyn drafft wedi,

'handled effectively, properly, openly and honestly'.

ei drin yn effeithiol, yn briodol, yn agored ac yn onest.

They concluded that:

'Based on the evidence that has been gradually obtained after persistent enquiry, the Committee can only conclude that the proposed abolition of the AJTC has been poorly thought through.'

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn raddol ar ôl ymchwilio'n barhaus, ni all y Pwyllgor ond dod i'r casgliad nad oedd y cynnig i ddiddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd wedi cael ystyriaeth ofalus.

It may in fact, at UK level, be subject to a judicial review. So, why is the UK Government proceeding with it? The likelihood is that it will save very little money, and 37 of the 41 consultation responses were against abolition. We know from our experience with the Agricultural Wages Board that, even if we block it under the Public Bodies Act, the UK Government will look for another mechanism. I find this distasteful and undemocratic.

Yn wir, gall fod, ar lefel y DU, yn destun adolygiad barnwrol. Felly, pam mae Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen ag ef? Y tebyg yw na fydd yn arbed llawer iawn o arian, ac roedd 37 o'r 41 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn erbyn ei ddiddymu. Gwyddom o'n profiad â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol y bydd Llywodraeth y DU, hyd yn oed os byddwn yn ei rwystro o dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus, yn chwilio am fecanwaith arall. Credaf fod hynny'n annymunol ac yn annemocrataidd.

What is important now, though, is that we set up our own body that does provide that overseeing role, and does provide a certain degree of independence between the judicial process and the Executive. First Minister, I very much look forward to detailed proposals being brought forward from the Government that can be scrutinised at the Constitutional and Legislative Affairs Committee and by this Assembly.

Yr hyn sy'n bwysig yn awr, fodd bynnag, yw ein bod yn sefydlu ein corff ein hunain sy'n darparu'r rôl oruchwylio honno, ac yn darparu rhywfaint o annibyniaeth rhwng y broses farnwrol a'r Weithrediaeth. Brif Weinidog, rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at weld cynigion manwl yn cael eu dwyn ymlaen gan y Llywodraeth y gellir craffu arnynt yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a chan y Cynulliad hwn.

15:58

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I very much take on board the comments made by my friend the Member for Pontypridd. We understand that it is imperative that there is no substantial gap between the ending of the present system and the beginning of the new system that we propose. It is right to say that legal issues have been raised by the House of Lords that are as yet unresolved, but they are matters for the UK Government. The Scottish Parliament has already voted to pass its LCM equivalent in relation to this issue and, as far as Wales is concerned, we will, as I said, put in place a non-statutory committee. There is money on the table, as far as the Ministry of Justice is concerned, that we are more than willing to accept as we set up the new system.

Rwyf yn derbyn y sylwadau a wnaed gan fy ffrind, yr Aelod dros Bontypridd. Rydym yn deall ei bod yn hanfodol nad oes bwlch sylweddol rhwng diwedd y system bresennol a dechrau'r system newydd yr ydym yn ei chynnig. Mae'n iawn dweud bod materion cyfreithiol wedi eu codi gan Dŷ'r Arglwyddi sydd hyd yma heb eu datrys, ond mater i Lywodraeth y DU yw hynny. Mae Senedd yr Alban eisoes wedi pleidleisio i basio ei chynnig cydsyniad deddfwriaethol cyfatebol mewn perthynas â'r mater hwn, ac o safbwynt Cymru, byddwn, fel y dywedais, yn sefydlu pwyllgor anstatudol. Mae arian ar y bwrdd, o safbwynt y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac rydym yn fwy na pharod i'w dderbyn wrth inni sefydlu'r system newydd.

15:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

# Y Frech Goch a Phwysigrwydd Rhaglenni Brechu

# Measles and the Importance of Vaccination Programmes

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, gwelliant 2 yn enw William Graham, a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, amendment 2 in the name of William Graham, and amendment 3 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5260 Lesley Griffiths

Cynnig NDM5260 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r ymateb i'r achosion diweddar o'r frech goch; a

1. Notes the response to the recent measles outbreak; and

2. Yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni brechu plant.

2. Recognises the importance of childhood vaccination programmes.

15:59 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Diolch yn fawr am y cyfle i drafod y frech goch a phwysigrwydd rhaglenni brechu yn y Siambr heddiw.

I am grateful for the opportunity to discuss measles and the importance of vaccination programmes in the Chamber today.

Hoffwn ddechrau drwy ystyried am ennyd beth yw effaith rhaglenni brechu ar iechyd y cyhoedd. Ar ôl dŵr glân, brechu yw'r ymyrraeth bwysicaf yn y byd ar gyfer iechyd y cyhoedd er mwyn achub bywydau a diogelu pobl rhag glefydau. Prin yw'r triniaethau meddygol a all gymharu â'r manteision helaeth a ddaw o frechu, un o'r ymyraethau iechyd mwyaf diogel ac effeithiol o ran cost ohonynt i gyd.

I would like to start by considering for a moment the impact of vaccination programmes on public health. After clean water, vaccination is the most important public health intervention in the world in order to save lives and protect people from disease. Few medical treatments can compare with the many advantages that come from vaccination, which is one of the safest and most cost-effective interventions of them all.

It is easy to forget the difference that vaccination has made to health in the United Kingdom. Many diseases that used to be common only a few generations ago are now rare or not seen at all. Diphtheria, tetanus, polio and whooping cough were all diseases to strike fear in any family or community. Today, they have either been eliminated or are very rare indeed. Nor have vaccination programmes stood still. The United Kingdom was the first country in the world to introduce a universal meningococcal C vaccination in 1999 and cases of that disease since that time have fallen by more than 95% in all ages.

Mae'n hawdd anghofio'r gwahaniaeth y mae brechu wedi ei wneud i iechyd yn y Deyrnas Unedig. Mae llawer o glefydau a arferai fod yn gyffredin rai cenedlaethau yn ôl, yn awr yn brin neu ddim i'w gweld o gwbl. Roedd difftheria, tetanws, polio a'r pas i gyd yn glefydau a fyddai'n peri ofn i unrhyw deulu neu gymuned. Heddiw, maent naill ai wedi eu dileu neu'n brin iawn. Nid yw rhaglenni brechu wedi sefyll yn llonydd ychwaith. Y Deyrnas Unedig oedd y wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno brechiad meningococaidd C cyffredinol ym 1999 ac mae achosion o'r clefyd wedi gostwng dros 95% ers hynny ymhlith pob oedran.

Since 2008, girls aged 12 and 13 have been offered the human papilloma virus vaccine to prevent cancer of the cervix. Not only does vaccination protect the general health of the population, it is arguably the most effective measure of all in tacking health inequalities. Uptake of a full course of three doses of HPV vaccine, for example, is greatest for young women aged 15 in Merthyr, and best of all for young women aged 17 in Blaenau Gwent.

Ers 2008, mae merched 12 a 13 oed wedi cael cynnig brechlyn y feirws papiloma dynol i atal canser ceg y groth. Mae'r brechlyn yn diogelu iechyd cyffredinol y boblogaeth, a gellid dadlau hefyd mai hwn yw'r mesur mwyaf effeithiol sy'n bodoli o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae'r niferoedd sy'n derbyn cwrs llawn o dri dos o'r brechlyn HPV, er enghraifft, ar eu mwyaf ar gyfer merched ifanc 15 oed ym Merthyr, ac ar eu gorau oll ar gyfer merched ifanc 17 oed ym Mlaenau Gwent.

Those are the reasons why the Welsh Government has decided to add a further set of new immunisation programmes between now and 2015. A vaccine to prevent rotavirus gastroenteritis will be added to the infant immunisation programme from 1 July of this year. Protection against meningococcal C meningitis will be extended and strengthened for teenagers from September of this year and for young adults going to university from September 2014.

Dyna'r rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ychwanegu cyfres arall o raglenni imiwneiddio newydd rhwng nawr a 2015. Bydd brechlyn i atal gastroenteritis rotafeirws yn cael ei ychwanegu at y rhaglen imiwneiddio ar gyfer babanod o 1 Gorffennaf eleni. Bydd amddiffyniad yn erbyn llid yr ymennydd meningococaidd C yn cael ei ymestyn a'i gryfhau i bobl ifanc o fis Medi eleni ac i oedolion ifanc sy'n mynd i brifysgol o fis Medi 2014.

In addition, the phased introduction of annual flu immunisation for all children aged between two and 16, using a nasal spray vaccine, will begin in September 2013, starting with two and three-year-old children and pupils in school year 7. In the same set of new vaccinations, we will introduce this year, for those aged 70 to 79, a vaccination against shingles, beginning with those aged 70 and 79 in 2013.

Hefyd, bydd y broses raddol o gyflwyno rhaglen flynyddol i imiwneiddio pob plentyn rhwng dwy ac 16 oed rhag y ffliw, gan ddefnyddio brechlyn chwistrell i'r trwyn, yn dechrau ym mis Medi 2013, gan ddechrau â phlant dwy a thair blwydd oed a disgyblion ym mlwyddyn ysgol 7. Yn yr un gyfres o frechiadau newydd, byddwn yn cyflwyno brechiad yn erbyn yr eryr i bobl 70 i 79 oed eleni, gan ddechrau gyda'r rhai 70 a 79 oed yn 2013.

I now turn to the issue of measles and the outbreak that started in Wales in November 2012. Measles is a highly infectious and potentially fatal disease, but one that is easily prevented by receiving the MMR vaccine. The recent outbreak in the Swansea area started last November when a small number of children returned home infected with measles from a holiday camp in south-west England. Those young people were drawn from an age group most susceptible to the disease because of low vaccination levels in earlier years. Moreover, they lived in a part of Wales especially vulnerable to a measles outbreak. The 1997 controversy about the MMR vaccine reduced the take-up of that vaccine everywhere, but particularly so in Swansea and Neath Port Talbot.

Trof yn awr at y frech goch a'r achosion a gafwyd yng Nghymru ym mis Tachwedd 2012. Mae'r frech goch yn glefyd heintus iawn ac yn un a allai fod yn angheuol, ond mae'n un rhwydd ei atal drwy gael y brechlyn MMR. Dechreuodd yr achosion diweddar yn ardal Abertawe fis Tachwedd diwethaf pan ddychwelodd nifer fach o blant adref wedi'u heintio â'r frech goch o wersyll gwyliau yn ne-orllewin Lloegr. Roedd y bobl ifanc hyn yn y grŵp oedran mwyaf agored i'r clefyd oherwydd lefelau brechu isel yn y blynyddoedd cynharach. Ar ben hynny, roeddent yn byw mewn rhan o Gymru sy'n arbennig o agored i achosion o'r frech goch. Bu gostyngiad yn y nifer a oedd yn manteisio ar y brechlyn ym mhob man yn sgil y dadlau ym 1997 ynghylch y brechlyn MMR, ond yn arbennig felly yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Between November of last year and January of this year, the response was led by a local multidisciplinary outbreak control team. While, from November, the number of notified cases of measles rose steadily at first, there was a rapid acceleration in the numbers reported at the end of February 2013. At that time, responsibility for responding to the outbreak passed to Public Health Wales, which convened a senior response team. This nationally-led response has continued ever since.

Rhwng mis Tachwedd y llynedd a mis Ionawr eleni, arweiniwyd yr ymateb gan dîm rheoli achosion amlddisgyblaethol lleol. Er bod nifer yr achosion o'r frech goch yr hysbyswyd yn eu cylch o fis Tachwedd ymlaen wedi cynyddu'n raddol i ddechrau, cynyddodd y niferoedd yn gyflym tua diwedd mis Chwefror 2013. Ar y pryd, cafodd y cyfrifoldeb am ymateb i'r achosion ei drosglwyddo i Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gwnaethant hwy gynnull uwch dîm ymateb. Mae'r ymateb hwn dan arweiniad cenedlaethol wedi parhau ers hynny.

The peak in the outbreak was reached by 15 April, when nearly 200 notifications were received in a single week. By mid-May, however, weekly reporting had fallen to a tenth of that figure. Since 20 May, there have been no new laboratory-confirmed cases in the Swansea area, although some children are still being tested. In total, the number of notified measles cases in the outbreak areas of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, Hywel Dda Local Health Board and Powys Teaching Local Health Board has reached 1,191. There have, in addition, been some 220 cases of measles outside the outbreak areas in Wales since last November.

Cyrhaeddodd nifer yr achosion ei lefel uchaf erbyn 15 Ebrill, pan gafwyd bron i 200 o hysbysiadau mewn un wythnos. Erbyn canol mis Mai, fodd bynnag, roedd nifer yr hysbysiadau wythnosol wedi gostwng i ddeg y cant o'r ffigur hwnnw. Ers 20 Mai, ni chadarnhawyd yr un achos newydd gan labordai yn ardal Abertawe, er bod rhai plant yn dal i gael eu profi. Gyda'i gilydd, mae nifer yr achosion o'r frech goch yr hysbyswyd yn eu cylch yn yr ardaloedd dan sylw, sef Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys wedi cyrraedd 1,191. Hefyd, bu tua 220 o achosion o'r frech goch y tu allan i'r ardaloedd hynny yng Nghymru ers mis Tachwedd y llynedd.

It is clear that the response in Wales has benefited from a national public health system capable of leading and co-ordinating a much wider effort, involving primary care, local authorities and the voluntary sector. This has enabled services to respond quickly and establish processes to deliver vaccination outside routine arrangements. Additional clinics were set up in general practitioner surgeries, community-based drop-in clinics, and in schools, providing a good example of collaborative working across agencies. The role of headteachers, for example, in sending out information, contacting parents, pursuing the non-return of parental consent forms and so on, has been vital. These combined efforts have resulted in over 67,000 additional non-routine vaccinations being given since 1 March this year. This included over 19,600 people aged between 10 and 18—the age group hardest hit by the measles outbreak centred on the Swansea area.

Mae'n amlwg bod yr ymateb yng Nghymru wedi elwa o system iechyd cyhoeddus genedlaethol sy'n gallu arwain a chydlynu ymdrech lawer ehangach, gan gynnwys gofal sylfaenol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae hyn wedi galluogi gwasanaethau i ymateb yn gyflym a sefydlu prosesau i gyflwyno brechiadau y tu allan i drefniadau arferol. Cafodd clinigau ychwanegol eu sefydlu mewn meddygfeydd meddygon teulu, mewn clinigau galw heibio cymunedol, ac mewn ysgolion, gan roi enghraifft dda o gydweithio ar draws asiantaethau. Mae swyddogaeth penaethiaid ysgolion, er enghraifft, o ran lledaenu gwybodaeth, cysylltu â rhieni, mynd ar drywydd pobl nad ydynt yn dychwelyd ffurflenni caniatâd rhieni ac yn y blaen, wedi bod yn hanfodol. Mae'r ymdrechion cyfunol hyn wedi arwain at roi dros 67,000 o frechiadau ychwanegol, ar wahân i'r rhai arferol, ers 1 Mawrth eleni. Mae hyn yn cynnwys dros 19,600 o bobl rhwng 10 a 18 oed—y grŵp oedran yr effeithiwyd fwyaf arno gan yr achosion o'r frech goch o gwmpas ardal Abertawe.

Modelling work undertaken on behalf of Public Health Wales through the University of Warwick provisionally suggests that these combined efforts have reduced the length of the outbreak by an estimated 10 weeks, and its severity by a factor of 20. With 88 hospitalisations as a result of the outbreak, it is easy to see what its impact might otherwise have been.

Mae gwaith modelu a wnaed ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru ym Mhrifysgol Warwick yn awgrymu'n answyddogol bod yr ymdrechion hyn ar y cyd wedi lleihau hyd y sefyllfa o tua 10 wythnos, a'i difrifoldeb o ffactor o 20. Gydag 88 o bobl wedi gorfod mynd i'r ysbyty yn sgil yr achosion, mae'n hawdd gweld yr effaith y gallai fod wedi'i chael fel arall.

Of course, the only way to prevent future outbreaks is to ensure that at least 95% of children in Wales have received two doses of the MMR vaccine. In that context, it is encouraging to see that the latest report from Public Health Wales shows that, for the first time ever, the national average uptake of MMR in two-year-olds has reached 95% and that this level is being achieved in a record number of Welsh local authorities. This is the result of a long-term positive trend, boosted by the efforts of local health boards and general practices in recent weeks.

Wrth gwrs, yr unig ffordd i atal achosion yn y dyfodol yw sicrhau bod o leiaf 95% o blant yng Nghymru wedi cael dau ddos o'r brechlyn MMR. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'n galonogol gweld bod yr adroddiad diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod niferoedd cenedlaethol cyfartalog y plant dwy flwydd oed sy'n cael MMR wedi cyrraedd 95% am y tro cyntaf erioed, a bod y lefel hon yn cael ei chyflawni yn y nifer uchaf erioed o awdurdodau lleol Cymru. Mae hyn o ganlyniad i duedd gadarnhaol hirdymor, ac i hwb gan ymdrechion byrddau iechyd lleol a meddygfeydd teulu yn yr wythnosau diwethaf.

In conclusion, managing the outbreak has been a significant achievement for all concerned. We should express our gratitude to the hard-working staff of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board and our schools, and to other public officials in Swansea and elsewhere, for all of the work that they have done in helping to counter the measles outbreak. The Government is happy to support amendment 1 in the name of Elin Jones to that effect.

I gloi, mae pawb dan sylw wedi llwyddo'n rhagorol wrth reoli'r achosion o'r clefyd. Dylem fynegi ein diolch i staff gweithgar Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'n hysgolion, ac i swyddogion cyhoeddus eraill yn Abertawe ac mewn mannau eraill, am yr holl waith y maent wedi'i wneud i helpu i atal achosion o'r frech goch. Mae'r Llywodraeth yn hapus i gefnogi gwelliant 1 yn enw Elin Jones i'r perwyl hwnnw.

We, too, are concerned at the activities of some private companies during the outbreak, and will support the Liberal Democrat amendment, amendment 3, that gives expression to that view. I am not convinced that a full public inquiry is the most effective way to learn lessons for the future, and cannot support amendment 2, which calls for one. However, I agree that lessons should be learned, and they will be—both through Public Health Wales and through the possible work of the Health and Social Care Committee. Today's debate is also an important part of the learning and improvement process, and I look forward to hearing the contributions of Members across the Chamber.

Rydym ni hefyd yn pryderu am weithgareddau rhai cwmnïau preifat yn ystod cyfnod yr achosion, a byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, gwelliant 3, sy'n mynegi'r farn honno. Nid wyf yn argyhoeddedig mai ymchwiliad cyhoeddus llawn yw'r ffordd fwyaf effeithiol i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol, ac ni allaf gefnogi gwelliant 2, sy'n galw am un. Fodd bynnag, rwyf yn cytuno y dylid dysgu gwersi, a chânt eu dysgu—trwy Iechyd Cyhoeddus Cymru a thrwy waith posibl y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r ddadl heddiw hefyd yn rhan bwysig o'r broses o ddysgu a gwella, ac edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau Aelodau ar draws y Siambr.

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig gwelliant 1 yn enw Elin Jones.

I have selected the three amendments to the motion and call on Bethan Jenkins to move amendment 1 in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo'n unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn mynegi ei ddiolch i staff gweithgar Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a swyddogion cyhoeddus eraill yn Abertawe ac mewn mannau eraill am y gwaith y maent wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â'r achosion o'r frech goch.*

*Expresses its gratitude to the hardworking staff of Abertawe Bro Morgannwg UHB and other public officials in Swansea and elsewhere for all the work they have done in countering the measles outbreak.*

16:09

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1 in the name of Elin Jones.

Cynigiaf welliant 1 yn enw Elin Jones.

Plaid Cymru would agree with the Welsh Government's motion, but we believe that it needs to be better worded, or more effectively worded, to highlight specifically the achievements of the staff of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, the staff who brought into being and carried out such a huge emergency vaccination programme, helping to meet the demands that were suddenly placed upon it as a local health board. Make no mistake, the size of the task was huge, and, while we have heard plenty of people looking for things to blame this outbreak on, there has been little praise, if any, for the efforts of staff outside of the health board, and I hope that the Welsh Government agrees that it is an important point to make; I know that the Minister indicated that he would be supporting our amendment.

Byddai Plaid Cymru yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru, ond rydym yn credu bod angen ei eirio'n well, neu ei eirio'n fwy effeithiol, i dynnu sylw yn benodol at yr hyn a gyflawnodd staff Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, y staff a gyflwynodd ac a gynhaliodd raglen frechu frys mor enfawr, gan helpu i fodloni'r gofynion a osodwyd arnynt yn sydyn fel bwrdd iechyd lleol. Does dim dwywaith bod maint y dasg yn enfawr, ac, er ein bod wedi clywed digonedd o bobl yn chwilio am bethau i'w beio am yr achosion hyn, ni roddwyd llawer o glod, os rhoddwyd clod o gwbl, i ymdrechion staff o'r tu allan i'r bwrdd iechyd. Rwyf yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno bod hwn yn bwynt pwysig i'w wneud; gwn fod y Gweinidog wedi dweud y byddai'n cefnogi ein gwelliant.

However, our amendment aside, it is important that we look at the wider picture. A considerable amount of blame, as has been noted, has been placed on the campaign against the triple vaccine that was run by the 'South Wales Evening Post' over a decade ago, which highlighted the discredited doctor's view. I would like to put on record—I think that colleagues in Plaid Cymru would agree with me—that, if it was the case that the Minister or the Government at the time recognised that this should not have happened, or that the 'South Wales Evening Post' was taking a worrying stance, it could have looked before now at the uptake in the area and perhaps have been more proactive. It is easy to say in hindsight that this needed to be done, but I would like to ask what the Government did at the time of this particular campaign.

Fodd bynnag, ar wahân i'n gwelliant ni, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y darlun ehangach. Mae cryn dipyn o fai, fel y nodwyd, wedi ei roi ar yr ymgyrch yn erbyn y brechlyn triphlyg a gynhaliwyd gan y 'South Wales Evening Post' dros ddegawd yn ôl—ymgyrch a oedd yn amlygu barn y meddyg a wrthbrofwyd. Hoffwn gofnodi—credaf y byddai cydweithwyr ym Mhlaid Cymru yn cytuno â mi—pe bai'n wir bod y Gweinidog neu'r Llywodraeth ar y pryd wedi sylweddoli na ddylai hyn fod wedi digwydd, neu fod safbwynt y 'South Wales Evening Post' yn un a oedd yn peri pryder, y gallent fod wedi edrych cyn hyn ar y nifer a oedd yn cael eu brechu yn yr ardal ac efallai wedi bod yn fwy rhagweithiol. Mae'n hawdd dweud wrth edrych yn ôl y dylid bod wedi gwneud hyn, ond hoffwn ofyn beth a wnaeth y Llywodraeth ar adeg yr ymgyrch benodol hon.

We also need to look at the uptake figures for LHBs across Wales among people at various stages in their lives. As I said a few weeks ago, unless I am missing something, ABMU LHB's figures do not appear to be any better or worse than those of other health board areas. Having spoken with a number of experts in the field, I was left with the impression that this could have happened anywhere in Wales. It was also suggested to me that the explanation may be no more complicated than an unvaccinated child returning from a holiday with measles and then it spreading quickly among other unvaccinated children. If that is the case—we will wait to see what the Welsh Government and Welsh NHS report back on this outbreak—we have a pan-Wales issue that requires a strategic response, and that response is best directed by the Minister for health and the Welsh Government.

Mae angen inni hefyd edrych ar niferoedd y bobl ar wahanol adegau yn eu bywydau sy'n cael y brechiad yn y gwahanol Fyrddau Iechyd Lleol ledled Cymru. Fel y dywedais rai wythnosau'n ôl, oni bai fy mod yn methu rhywbeth, nid yw'n ymddangos bod ffigurau BILl PABM yn well nac yn waeth na ffigurau ardaloedd y byrddau iechyd eraill. Ar ôl siarad â nifer o arbenigwyr yn y maes, cefais yr argraff y gallai hyn fod wedi digwydd yn unrhyw le yng Nghymru. Awgrymwyd wrthyf hefyd y gallai'r eglurhad fod mor syml â bod plentyn heb ei frechu wedi dychwelyd o wyliau gyda'r frech goch a'i bod yna wedi lledaenu'n gyflym ymhlith plant eraill heb eu brechu. Os yw hynny'n wir—byddwn yn aros i glywed adroddiad Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru am yr achosion hyn—mae'n fater i Gymru gyfan ac mae'n gofyn am ymateb strategol; ymateb y dylai'r Gweinidog iechyd a Llywodraeth Cymru ei lywio.

If this outbreak has taught us anything with regard to any future findings, it is that we must step up the effort to have every child in Wales vaccinated against measles. I do not think that everyone who fails to have their child vaccinated does so out of concerns in relation to the incorrect claims about MMR that were bandied about a few years ago. I believe that we now need to see a stepped-up awareness campaign, followed by a proactive response from the Welsh Government, working with health officials. We need to learn from what happened in Swansea so that we can prevent an outbreak from happening again.

Os yw'r achosion hyn wedi dysgu unrhyw beth inni o ran unrhyw ganfyddiadau yn y dyfodol, y wers yw bod rhaid inni gynyddu'r ymdrech i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru wedi'i frechu yn erbyn y frech goch. Nid wyf yn credu bod unrhyw un sy'n methu â sicrhau bod eu plentyn yn cael brechiad yn gwneud hynny o ganlyniad i bryderon am yr honiadau anghywir am MMR a glywyd ychydig flynyddoedd yn ôl. Rwyf yn credu bod angen yn awr inni weld ymgyrch ymwybyddiaeth gryfach, ac yna ymateb rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru, gan gydweithio â swyddogion iechyd. Mae angen inni ddysgu o'r hyn a ddigwyddodd yn Abertawe fel y gallwn atal sefyllfa debyg rhag digwydd eto.

We are happy to support the Liberal Democrats' amendment 3, but we will not be supporting the Conservatives' call for a public inquiry. I believe that the money you are advocating be spent on a public inquiry should be spent on a campaign for the uptake of vaccinations across the board. We know that lots of young people are not taking up the HPV vaccination, for example, because they were not in school on that particular day, or perhaps because some school nurses are not as proactive as others in encouraging them to take up that particular vaccination. My preference, and I think Plaid Cymru's preference, would be to have a public awareness campaign. I do not see, having read the figures about measles, that it warrants a public inquiry, because, as I said, it could have happened anywhere in Wales. We do not want to scaremonger any more; we want to encourage people to take up the vaccination, and I do not think that it is fair to just headline grab and call for a public inquiry, when, really, we could be putting the money into schools for headteachers to encourage people to take up the vaccinations, and doing so in a constructive way for the future of Wales.

Rydym yn hapus i gefnogi gwelliant 3 y Democratiaid Rhyddfrydol, ond ni fyddwn yn cefnogi galwad y Ceidwadwyr am ymchwiliad cyhoeddus. Rwyf yn credu y dylid gwario'r arian hwn, yr ydych chi'n dadlau y dylid ei wario ar ymchwiliad cyhoeddus, ar ymgyrch i annog mwy o bobl i gael brechiadau yn gyffredinol. Rydym yn gwybod am lawer o bobl ifanc nad ydynt yn manteisio ar y brechiad HPV, er enghraifft, oherwydd nad oeddent yn yr ysgol ar y diwrnod penodol, neu efallai oherwydd nad yw rhai nyrsys ysgol mor rhagweithiol ag eraill wrth eu hannog i fanteisio ar y brechiad penodol hwnnw. Fy newis i, a dewis Plaid Cymru hefyd, credaf, fyddai cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus. Ni allaf weld, ar ôl darllen y ffigurau am y frech goch, y gellid cyfiawnhau ymchwiliad cyhoeddus, oherwydd y gallai hyn, fel y dywedais, fod wedi digwydd unrhyw le yng Nghymru. Nid ydym am godi bwganod mwyach; rydym yn awyddus i annog pobl i fanteisio ar y brechiad, ac nid wyf yn credu ei bod yn deg mynd am y tudalennau blaen a galw am ymchwiliad cyhoeddus, pryd y gallem, mewn gwirionedd, fod yn rhoi'r arian i ysgolion er mwyn i benaethiaid annog pobl i fanteisio ar y brechiadau, a gwneud hynny mewn ffordd adeiladol ar gyfer dyfodol Cymru.

16:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 2 yn enw William Graham.

I call on Darren Millar to move amendment 2 in the name of William Graham.

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn galw am ymholiad cyhoeddus llawn ac annibynnol er mwyn dysgu gwersi yn sgîl yr achosion hyn, ac i leihau'r tebygrwydd o ragor o achosion yn y dyfodol.*

*Calls for a full and independent public inquiry to learn lessons from this outbreak and reduce chances of future outbreaks.*

16:14

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliant 2 yn enw William Graham.

I am pleased that the Government has brought forward a debate on the recent measles outbreak, and I think that it goes without saying that I echo the gratitude the Minister and the previous speaker expressed to those on the front line in our NHS who have been fighting against this outbreak. Indeed, it is encouraging that we are beginning to see a decline in the number of cases that have been coming in in recent weeks, and I want to give credit where credit is due to those people who have been working hard on the front line to get the situation under control.

Rwyf yn falch bod y Llywodraeth wedi cyflwyno dadl am yr achosion diweddar o'r frech goch, a chredaf fy mod yn adleisio'r diolch a fynegodd y Gweinidog a'r siaradwr blaenorol i'r bobl ar y rheng flaen yn ein GIG sydd wedi bod yn brwydro yn erbyn yr achosion hyn. Yn wir, mae'n galonogol ein bod yn dechrau gweld gostyngiad yn nifer yr achosion sydd wedi bod yn dod i mewn yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac rwyf am roi clod dyledus i'r bobl hynny sydd wedi bod yn gweithio'n galed ar y rheng flaen i reoli'r sefyllfa.

The Minister referred to what an incredible technology vaccinations are in preventing disease and, indeed, preventing deaths. It is incredible that we are now in a situation where a number of diseases have been eradicated and it is pleasing that the immunisation programmes that we have in Wales are continuing to develop as new technologies become available. When you think about the fact that people can now be immunised against the flu virus from a simple spray vaccine, it really does show that things have moved on in leaps and bounds in recent years.

Nododd y Gweinidog pa mor anhygoel yw technoleg brechiadau o ran atal clefydau ac, yn wir, atal marwolaethau. Mae'n anhygoel ein bod bellach mewn sefyllfa lle mae nifer o afiechydon wedi cael eu dileu ac mae'n dda bod y rhaglenni imiwneiddio sydd gennym yng Nghymru yn parhau i ddatblygu wrth i dechnolegau newydd ddod ar gael. Pan fyddwch yn meddwl am y ffaith y gall brechlyn chwistrell syml bellach imiwneiddio pobl yn erbyn feirws ffliw, mae wir yn dangos bod camau enfawr ymlaen wedi'u cymryd yn y blynyddoedd diwethaf.

It is clear that there are lessons that must be learned from this outbreak. Members will be aware that we have called for an independent public inquiry into the situation—not in order to wag a finger of blame at anybody, but simply to understand precisely what happened, the speed of the response and any delays that might have been incurred, and whether anything can be done to improve our response to outbreaks that may occur in future. This is not, Bethan, about headline grabbing in any way, shape or form; it is about wanting to be sure that we learn lessons from the outbreak and ensure that practices that emanate from the Government and anybody else in Public Health Wales or our local health boards in the future change as a result.

Mae'n amlwg bod rhaid dysgu gwersi o'r achos hwn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol ein bod wedi galw am ymchwiliad cyhoeddus annibynnol i'r sefyllfa—nid er mwyn pwyntio bys a beio unrhyw un, ond yn syml i ddeall yn union beth ddigwyddodd, beth oedd cyflymder yr ymateb ac a fu unrhyw oedi, ac a ellir gwneud unrhyw beth i wella ein hymateb i achosion a allai ddigwydd yn y dyfodol. Nid mater o geisio cyrraedd y tudalennau blaen yw hyn o gwbl, Bethan; mae'n fater o fod ag eisiau teimlo'n gwbl sicr ein bod yn dysgu gwersi o'r sefyllfa ac yn sicrhau bod arferion gwaith sy'n deillio o'r Llywodraeth a chan unrhyw un arall yn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu ein byrddau iechyd lleol yn y dyfodol yn newid o ganlyniad.

What is clear is that there are a number of unanswered questions. We may be able to answer some of those questions through the Health and Social Care Committee's inquiry into the measles outbreak, but I do not think that we will ever get to the bottom of those unless an independent expert who understands immunisation is able to look at what happened in this case and turn over every stone to make sure that those facts are brought into the open so that we can learn those lessons for the future. We all know, for example, the great benefits that Wales saw as a result of the work of Professor Pennington in the wake of the E. coli outbreak a few years ago that sadly resulted in a child's terrible death. We know that, as a result of that independent inquiry, we now have the Food Hygiene Rating (Wales) Act 2013, which will be implemented. Frankly, we would not be in this situation and we would not have that food hygiene Act if it were not for the work of Professor Pennington and his independent inquiry into what went wrong in terms of E. coli. Therefore, I am pleased to be tabling this particular amendment today, and I hope that people will reflect on what I have said and give it some support.

Yr hyn sy'n glir yw bod nifer o gwestiynau heb eu hateb. Efallai y gallwn ateb rhai o'r cwestiynau hynny drwy ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r achosion o'r frech goch, ond nid wyf yn meddwl y gallwn fyth fynd at wraidd y rheini oni bai bod arbenigwr annibynnol sy'n deall imiwneiddio yn gallu edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos hwn a throi pob carreg i wneud yn siŵr bod y ffeithiau hynny yn dod i'r amlwg fel y gallwn ddysgu'r gwersi hynny ar gyfer y dyfodol. Rydym i gyd yn gwybod, er enghraifft, y manteision mawr a gafodd Cymru o ganlyniad i waith yr Athro Pennington yn sgil yr achosion o E. coli rai blynyddoedd yn ôl a arweiniodd yn anffodus at farwolaeth erchyll un plentyn. Rydym yn gwybod y bydd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn cael ei rhoi ar waith, o ganlyniad i'r ymchwiliad annibynnol hwnnw. A dweud y gwir, ni fyddem yn y sefyllfa hon, ac ni fyddai gennym y Ddeddf hylendid bwyd honno, oni bai am waith yr Athro Pennington a'i ymchwiliad annibynnol i beth a aeth o'i le o ran E. coli. Felly, rwyf yn falch o gyflwyno'r gwelliant arbennig hwn heddiw, ac rwyf yn gobeithio y bydd pobl yn myfyrio ar yr hyn yr wyf wedi ei ddweud ac yn rhoi rhywfaint o gefnogaeth iddo.

In terms of the scale of the measles outbreak, it is remarkable that this is the largest outbreak of this kind that we have seen, certainly in Britain. It is almost on the same level as the situation that developed in the Republic of Ireland just a few years ago, where they saw a similar number of measles cases. Interestingly, with the 60,000 unscheduled vaccines that have been given, we still know that there are many people in the age bracket of between 10 and 18 years of age who still need to be immunised against this potentially deadly disease. I hope that today's debate will, once again, draw attention to the importance of immunisation, and that it will draw attention to the safety of the MMR vaccine, and the importance of immunising against the disease.

O ran nifer yr achosion o'r frech goch, mae'n rhyfeddol mai hwn yw'r achos mwyaf o'r math hwn yr ydym wedi'i weld, yn sicr ym Mhrydain. Mae bron ar yr un lefel â'r sefyllfa a ddatblygodd yng Ngweriniaeth Iwerddon rai blynyddoedd yn ôl, lle gwelsant nifer debyg o achosion o'r frech goch. Yn ddiddorol, gyda'r 60,000 o frechlynnau heb eu trefnu a roddwyd, rydym yn dal yn gwybod bod llawer o bobl yn y grŵp oedran rhwng 10 a 18 mlwydd oed sy'n dal ag angen eu himiwneiddio yn erbyn y clefyd hwn a allai fod yn angheuol. Gobeithiaf y bydd dadl heddiw, unwaith eto, yn tynnu sylw at bwysigrwydd imiwneiddio, ac y bydd yn tynnu sylw at ba mor ddiogel yw'r brechlyn MMR, ac at bwysigrwydd brechu yn erbyn y clefyd.

I will speak very briefly in respect of the Liberal Democrat amendment. I, too, was shocked and appalled at the media reports and some of the advertising that some unscrupulous private companies were doing in the Swansea area, playing on people's fears and misleading people regarding the safety of the MMR vaccine. I really do hope that we all agree in the Chamber that that is unacceptable and that we need to ensure that the Government in Cardiff bay and the Government in Westminster can deal with that sort of advertising very quickly in the future and deal with those unscrupulous operators who play on people's fears.

Siaradaf yn fyr iawn am welliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Cefais innau, hefyd, fy synnu a'm dychryn gan yr adroddiadau yn y cyfryngau a chan rai o'r hysbysebion yr oedd rhai cwmnïau preifat diegwyddor yn eu cyhoeddi yn ardal Abertawe, yn chwarae ar ofnau pobl ac yn camarwain pobl ynghylch diogelwch y brechlyn MMR. Rwyf yn gobeithio'n fawr ein bod i gyd yn cytuno yn y Siambr bod hynny'n annerbyniol, a bod angen inni sicrhau y gall y Llywodraeth ym mae Caerdydd a'r Llywodraeth yn San Steffan ymdrin â'r math hwnnw o hysbysebu yn gyflym iawn yn y dyfodol ac ymdrin â'r gweithredwyr diegwyddor hynny sy'n chwarae ar ofnau pobl.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I call on Kirsty Williams to move amendment 3 tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn mynegi pryder ynghylch arferion rhai cwmnïau preifat o ran marchnata brechlynnau heb eu trwyddedu a phresgripsiwn yn unig, ac am yr honiadau camarweiniol a wnaethpwyd gan rai clinigau brechiad sengl ynghylch y brechlyn MMR cyfun.*

*Expresses concern at the practice of some private companies in marketing unlicensed and prescription only vaccines and at the misleading claims made by some single vaccination clinics regarding the combined MMR vaccine.*

16:19 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 3 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliant 3 yn enw Aled Roberts.

Like the Minister for Health and Social Services, we on these benches recognise the huge strides in public health brought about by the introduction of immunisation programmes. The Minister is right to say that diseases that cut the lives of our forefathers have been, in some cases, wiped out or have become very rare events. In a way, I believe that we have become a victim of our own success. Whereas our great-grandmothers and grandmothers knew all too well about the devastating effects of some of these childhood diseases, perhaps people of my generation have forgotten how difficult and dangerous those diseases were and have become more blasé about what those conditions can mean to their children's health.

Fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym ni ar y meinciau hyn yn cydnabod y camau mawr a gymerwyd ym maes iechyd cyhoeddus yn sgil cyflwyno rhaglenni imiwneiddio. Mae'r Gweinidog yn gywir wrth ddweud bod clefydau a arferai gwtogi bywydau ein cyndadau wedi cael eu dileu mewn rhai achosion, neu wedi dod yn ddigwyddiadau prin iawn. Mewn ffordd, rwyf yn credu ein bod wedi dod i ddioddef oherwydd ein llwyddiant ein hunain. Er bod ein hen-neiniau a'n neiniau yn gwybod yn iawn am effeithiau dinistriol rhai o'r clefydau hyn o'u plentyndod, efallai fod pobl fy nghenhedlaeth i wedi anghofio pa mor anodd a pheryglus oedd y clefydau hynny ac wedi dod yn fwy didaro ynglŷn â'r hyn y gall y cyflyrau hynny ei olygu i iechyd eu plant.

However, the recent measles outbreak in south Wales has brought us all up short and has been a stark reminder of those dangers. It has also focused us once again on ensuring, I believe, that parents are given the information that they need and that they have the access to healthcare professionals that they need to address any concerns that they have about vaccination, if we are to prevent another outbreak from happening. This is particularly important in the face of what are often sensationalist reports in the media about the so-called ill-effects of vaccines. That was not just the case in the MMR debate, but I have also seen pretty horrendous reporting about the so-called side-effects of the human papilloma virus vaccine in some of our national newspapers. Personally, as a parent of three daughters, I thank the Lord for the intellectual capacity of modern medicine to provide my daughters with the protection against cervical cancer. It is distressing to see parents potentially put off from having their children vaccinated by incorrect reporting.

Fodd bynnag, mae'r achosion diweddar o'r frech goch yn y de wedi ein maglu ni i gyd, ac wedi ein hatgoffa'n ddiamwys o'r peryglon hynny. Mae hefyd wedi peri inni ganolbwyntio unwaith eto ar sicrhau, rwyf yn credu, bod rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt a bod y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol angenrheidiol ar gael iddynt i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt am frechu, os ydym am atal achosion eraill rhag digwydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn wyneb adroddiadau yn y cyfryngau, sy'n aml yn gorliwio er mwyn denu sylw, am 'ddrwg effeithiau' honedig brechlynnau. Nid dim ond yn y ddadl am MMR yr oedd hynny'n wir; rwyf hefyd wedi gweld adroddiadau eithaf erchyll am sgil effeithiau honedig brechlyn y feirws papiloma dynol yn rhai o'n papurau newydd cenedlaethol. Yn bersonol, fel rhiant i dair merch, rwyf yn diolch i'r Arglwydd am allu deallusol meddygaeth fodern i amddiffyn fy merched rhag canser ceg y groth. Mae'n dorcalonnus gweld rhieni o bosibl yn cael eu troi oddi ar frechu eu plant oherwydd adroddiadau anghywir.

Let us not forget what that coverage was like at the time. It was everywhere and all-pervasive. It was frightening. I know better than anybody because I was expecting my own child in 2000 and faced many questions at the time about what choices that I would make for my daughter. It was really difficult. The coverage that that one man's one paper got was completely disproportional compared with all the other research that had been done in this particular area. When those research findings were proven to be incorrect, where was the media coverage then? It was not quite so prevalent, so pervasive. However, let us also be clear that that reporting is still going on. Andrew Wakefield is still plying his discredited research, which is particularly focused on some ethnic minority groups in this country and the USA. We need to look in particular at whether all communities are now getting the message and the reassurance that they need about their children's immunisation.

Dewch inni beidio ag anghofio sut yr oedd y sylw ar y pryd. Roedd ym mhob man ac yn hollbresennol. Roedd yn frawychus. Rwyf yn gwybod yn well na neb oherwydd fy mod yn disgwyl fy mhlentyn fy hun yn 2000 ac yn wynebu nifer o gwestiynau ar y pryd am y dewisiadau y byddwn yn eu gwneud ar gyfer fy merch. Roedd yn anodd iawn. Roedd y sylw a gafodd un papur yr un dyn hwnnw'n gwbl anghymesur o'i gymharu â'r holl waith ymchwil arall a oedd wedi cael ei wneud yn y maes penodol hwn. Pan brofwyd bod canfyddiadau'r ymchwil hwnnw'n anghywir, lle'r oedd y sylw yn y cyfryngau ar yr adeg honno? Nid oedd mor amlwg, mor hollbresennol. Fodd bynnag, dewch inni fod yn glir hefyd bod adroddiadau hynny'n dal i ymddangos. Mae Andrew Wakefield yn dal i hyrwyddo ei ymchwil er iddo gael ei a wrthbrofi, gan ganolbwyntio'n benodol ar rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y wlad hon ac yn UDA. Mae angen inni edrych yn benodol i weld a yw'r holl gymunedau yn awr yn cael y neges a'r sicrwydd sydd eu hangen arnynt am imiwneiddio eu plant.

The figures are encouraging. The number of babies now completing their three courses of MMR is as good as it has been for almost a decade. What we need now is a renewed focus on the children in that early teen and young adult category that may have missed out because their parents were too frightened at the time to have them immunised. I am glad to note the support for the Liberal Democrat amendment this afternoon that highlights the unscrupulous behaviour of some private providers during this particular outbreak. I think it is to their shame that they have acted in this way. I would like to receive an update from the Minister on the work that he said that he was undertaking to look at what the Welsh Government could do to curtail such activities in the future.

Mae'r ffigurau yn galonogol. Mae nifer y babanod sydd nawr yn cwblhau eu tri chwrs o MMR cystal ag y mae wedi bod ers bron i ddegawd. Yr hyn sydd ei angen arnom nawr yw ffocws o'r newydd ar y plant yn eu harddegau a'r oedolion ifanc a allai fod heb gael eu brechu oherwydd bod eu rhieni'n rhy ofnus ar y pryd i'w himiwneiddio. Rwyf yn falch o nodi'r gefnogaeth i welliant y Democratiaid Rhyddfrydol y prynhawn yma sy'n tynnu sylw at ymddygiad diegwyddor rhai darparwyr preifat yn ystod yr achosion penodol hyn. Rwyf yn credu ei bod yn gywilydd arnynt eu bod wedi gweithredu yn y modd hwn. Hoffwn dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am y gwaith y dywedodd ei fod yn ei wneud i edrych ar yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i atal gweithgareddau o'r fath yn y dyfodol.

I, too, would like to commend very much the efforts of Public Health Wales and those doctors and nurses involved in dealing with this outbreak. However, let us be clear: much is talked about the issue of recruitment and retention of consultant staff in the NHS, but we now have fewer public health consultants in Wales than we have ever had. If the Government is truly committed to a public health agenda, then this is one part of the medical recruitment and retention service that also deserves attention. They might not be so high profile as accident and emergency doctors and obstetricians, but they are crucial to developing a healthier Wales.

Hoffwn innau, hefyd, ganmol yn fawr iawn ymdrechion Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r meddygon a'r nyrsys hynny a fu'n ymwneud ag ymdrin â'r achosion hyn. Fodd bynnag, dewch inni fod yn glir: mae llawer o siarad am recriwtio a chadw staff ymgynghorol yn y GIG, ond mae gennym yn awr lai o feddygon ymgynghorol iechyd cyhoeddus yng Nghymru nag a fu gennym erioed. Os yw'r Llywodraeth yn wirioneddol ymroddedig i agenda iechyd cyhoeddus, dyma un rhan o'r gwasanaeth recriwtio a chadw staff meddygol sydd hefyd yn haeddu sylw. Efallai nad ydynt mor uchel eu proffil ag obstetryddion a meddygon damweiniau ac achosion brys, ond maent yn hanfodol i ddatblygu Cymru iachach.

16:24 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We all know that this has been the biggest measles outbreak for a decade or more and I think that everyone of us is united in the praise for NHS staff, health boards and Public Health Wales for the speedy way in which they have responded.

Rydym i gyd yn gwybod y cafwyd mwy o achosion o'r frech goch nag a welwyd ers degawd a mwy, a chredaf fod pawb ohonom yn unfryd wrth ganmol staff y GIG, byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu hymateb cyflym.

Mass immunisation has worked very well, as has been mentioned, in areas specific to an outbreak. However, the message is still not getting through in areas where there have been no measles cases. It is that type of complacency that we must tackle, now and in the future.

Mae imiwneiddio torfol wedi gweithio'n dda iawn, fel y nodwyd, yn yr ardaloedd penodol lle y cafwyd nifer fawr o achosion. Fodd bynnag, nid yw'r neges yn cyrraedd y nod o hyd mewn ardaloedd lle nad oes achosion o'r frech goch wedi bod. Dyna'r math o ddifaterwch y mae'n rhaid inni ei drechu, yn awr ac yn y dyfodol.

I was listening to Kirsty talking about her forefathers. I must have been a foremother then, because I grew up with a mother who had suffered blindness and deafness after having measles, and believe me, she reminded us of it constantly. As children—and I hate to say this because I wonder whether anyone else would remember—if a road was being tarmacadamed, we would be taken along to smell and inhale the tar, because it was thought to be good for whooping cough, I think, but it could have been for scarlet fever, because as a family, we had whooping cough and scarlet fever. How wonderful it was, as Kirsty said, when along came vaccination and immunisation, because, apart from all those things, I could not go swimming in a river or even in the public baths until I had my polio injection. Those were things that we lived with on a daily basis, and these were miracles of technology that happened then, and they are happening all the time.

Roeddwn yn gwrando ar Kirsty yn siarad am ei chyndadau. Rhaid fy mod i'n gyn-fam felly, gan fy mod wedi fy magu gan fam a oedd wedi dioddef dallineb a byddardod ar ôl cael y frech goch, a chredwch fi, roedd hi'n ein hatgoffa o'r peth yn gyson. Pan oeddem yn blant—ac mae'n gas gennyf ddweud hyn oherwydd fy mod yn meddwl tybed a fyddai unrhyw un arall yn cofio—pe bai ffordd yn cael ei tharmacio, byddai'n mynd â ni draw i arogli ac anadlu'r tar, oherwydd mai'r gred oedd ei fod yn dda ar gyfer y pas, rwyf yn meddwl, neu'r dwymyn goch, efallai; fel teulu, roeddem wedi cael y pas a'r dwymyn goch. Roedd yn wych, fel y dywedodd Kirsty, pan gyflwynwyd brechu ac imiwneiddio, oherwydd, ar wahân i'r holl bethau hynny, ni allwn fynd i nofio mewn afon neu hyd yn oed yn y baddonau cyhoeddus hyd nes i mi gael fy mhigiad polio. Roeddem yn byw gyda'r pethau hynny o ddydd i ddydd, ac yna digwyddodd y gwyrthiau technolegol hyn bryd hynny, ac maent yn digwydd drwy'r amser.

I remember that unfounded, scaremongering and unwarranted publicity that the MMR vaccination received, and still does in some cases. Measles had been an illness that belonged to the past and had disappeared, but even today we have been reminded that things come back. Mumps is reappearing, and it is once again on our agenda. That, too, is because of ignoring the MMR vaccine.

Rwyf yn cofio'r codi bwganod a'r cyhoeddusrwydd direswm, di-sail, a gafodd y brechiad MMR, ac y mae'n dal i'w gael mewn rhai achosion. Roedd y frech goch yn salwch a oedd yn perthyn i'r gorffennol ac wedi diflannu, ond hyd yn oed heddiw, rydym wedi cael ein hatgoffa bod pethau'n dod yn ôl. Mae clwy'r pennau yn ailymddangos, ac mae unwaith eto ar ein hagenda. Mae hynny, hefyd, oherwydd anwybyddu'r brechlyn MMR.

The Minister for health clearly outlined the numbers of 10 to 18-year-olds who remain unvaccinated, and Public Health Wales has said today that it is concerned that this could lead to future outbreaks of measles and mumps. I raised the measles issue some 12 months ago in the Chamber when there was a rise, albeit a comparatively small one, in north Wales and north-west England in the number of measles cases. I thought then that the writing was on the wall and that an outbreak was going to happen. We cannot allow that to happen again.

Amlinellodd y Gweinidog iechyd yn glir nifer y plant a phobl ifanc 10 i 18 mlwydd oed sy'n dal i fod heb eu brechu, ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dweud heddiw eu bod yn pryderu y gallai hyn arwain at achosion o'r frech goch a chlwy'r pennau yn y dyfodol. Codais fater y frech goch tua 12 mis yn ôl yn y Siambr pan gafwyd cynnydd yn nifer yr achosion o'r frech goch yng ngogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, er mai cynnydd cymharol fach ydoedd. Roeddwn yn meddwl ar y pryd ei bod yn anochel y byddai nifer fawr o achosion yn digwydd. Ni allwn ganiatáu i hynny ddigwydd eto.

I congratulate the Welsh Government on the work that has been done. It has stated that the only way to prevent future outbreaks is to ensure that at least 95% of children in Wales receive two doses of the MMR vaccine. However, recent figures from Public Health Wales show that we have a bit of a way to go to get up to where we want to be.

Rwyf yn llongyfarch Llywodraeth Cymru am y gwaith sydd wedi cael ei wneud. Maent wedi dweud mai'r unig ffordd o atal cynnydd tebyg yn nifer yr achosion yn y dyfodol yw sicrhau bod o leiaf 95% o blant yng Nghymru yn cael dau ddos o'r brechlyn MMR. Fodd bynnag, mae ffigurau diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod gennym gryn dipyn o ffordd i fynd o hyd i gyrraedd ein targed.

Vaccination and immunisation must remain constant. We must have a strategy and we must go on immunising our babies and children. It is a public health priority. We must get back to a population where children are routinely vaccinated and herd immunisation is established.

Rhaid i frechu ac imiwneiddio aros yn gyson. Rhaid inni gael strategaeth a rhaid inni barhau i imiwneiddio ein babanod a'n plant. Mae'n flaenoriaeth o ran iechyd cyhoeddus. Rhaid inni droi'n ôl at fod yn boblogaeth lle mae plant yn cael eu brechu fel mater o drefn a sefydlu imiwneiddio torfol.

16:28

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to concentrate my contribution on trying to understand some of the barriers that stand in the way of parents ensuring that their children are protected against what are potentially debilitating and life-threatening illnesses.

Hoffwn ganolbwyntio fy nghyfraniad ar geisio deall rhai o'r rhwystrau sy'n atal rhieni rhag sicrhau bod eu plant yn cael eu hamddiffyn yn erbyn afiechydon a allai eu gwanychu a bygwth eu bywydau.

In April, Public Health Wales undertook a survey of 192 parents who had been invited to vaccinate their children at two school sessions in Swansea, but had not attended. A hundred and nineteen of these parents agreed to be interviewed. This survey offers an important insight into some of the barriers, and throws up some interesting questions.

Ym mis Ebrill, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg o 192 o rieni a gafodd eu gwahodd i frechu eu plant mewn dwy sesiwn ysgol yn Abertawe, ond nad oeddent wedi mynd. Cytunodd cant a phedwar ar bymtheg o'r rhieni hyn i gael eu cyfweld. Mae'r arolwg hwn yn cynnig cipolwg pwysig ar rai o'r rhwystrau, ac yn cyflwyno rhai cwestiynau diddorol.

Only 15% of these parents still believed the vaccine to be unsafe. While public health officials and experts have confirmed time and again that there is no evidence that the MMR vaccine is unsafe, this survey suggests that there is still a lot of work to do to allay parents' fears and concerns. However, more positively, the majority of these parents were willing to be contacted by a health professional to discuss the issue in more detail.

Dim ond 15% o'r rhieni hyn oedd yn dal i gredu bod y brechlyn yn anniogel. Er bod swyddogion iechyd cyhoeddus ac arbenigwyr wedi cadarnhau dro ar ôl tro nad oes dim tystiolaeth bod y brechlyn MMR yn anniogel, mae'r arolwg hwn yn awgrymu bod llawer o waith i'w wneud o hyd i leddfu ofnau a phryderon rhieni. Fodd bynnag, yn fwy cadarnhaol, roedd y rhan fwyaf o'r rhieni hyn yn fodlon i weithiwr iechyd proffesiynol gysylltu â hwy i drafod y mater yn fanylach.

The results of the survey also show that around 40% of the parents said that they had made other arrangements for their children to be vaccinated with MMR, rather than attend the session that had been arranged for them at school. This raises some questions about the sharing of information between medical professionals, and how these different arrangements are being recorded in order to stay on top of a quickly developing picture.

Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn dangos bod tua 40% o'r rhieni wedi dweud eu bod wedi gwneud trefniadau eraill i'w plant gael eu brechu ag MMR, yn hytrach na mynd i'r sesiwn a drefnwyd ar eu cyfer yn yr ysgol. Mae hyn yn codi rhai cwestiynau ynglŷn â rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr meddygol proffesiynol, ac ynglŷn â sut y mae'r gwahanol drefniadau hyn yn cael eu cofnodi er mwyn cadw trefn ar ddarlun sy'n datblygu'n gyflym.

However, I am particularly keen to understand why the remaining 45% of parents did not take the opportunity to vaccinate their children in the midst of an outbreak, when sessions were available at school. Public Health Wales found that a small number of parents reported that they had not received the letter from school about the vaccination session. This suggests to me that there might be a wider question for us to consider in terms of how schools pass on information like this to parents. Are there other simple things that we can do, such as text messages, e-mails, phone calls and so on to supplement the letters?

Fodd bynnag, rwyf yn arbennig o awyddus i ddeall pam na wnaeth y 45% o rieni sy'n weddill gymryd y cyfle i frechu eu plant pan gafwyd cynifer o achosion o'r clefyd, pan oedd sesiynau ar gael yn yr ysgol. Canfu Iechyd Cyhoeddus Cymru fod nifer fechan o rieni'n dweud nad oeddent wedi cael y llythyr gan yr ysgol am y sesiwn frechu. Mae hyn yn awgrymu imi y gallai fod angen inni ystyried cwestiwn ehangach o ran sut y mae ysgolion yn rhoi gwybodaeth fel hyn i rieni. A oes pethau syml eraill y gallwn eu gwneud, megis negeseuon testun, e-bost, galwadau ffôn ac yn y blaen i ategu'r llythyrau?

Other parents reported that because they did not speak English or Welsh as a first language, they had not been able to understand the letter. Again, other important information from school might be being missed and we need to think about what we can do in terms of providing information more appropriately and perhaps tailored to the individual family. It also opens up a wider discussion on how we can ensure that people who do not speak English or Welsh as a first language are able to participate fully in society, but perhaps that is a discussion for another day.

Dywedodd rhieni eraill nad oeddent wedi gallu deall y llythyr, oherwydd nad oeddent yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf. Unwaith eto, gallai gwybodaeth bwysig arall gan yr ysgol fod yn cael ei cholli ac mae angen inni feddwl am yr hyn y gallwn ei wneud o ran darparu gwybodaeth mewn dull mwy priodol ac efallai wedi'i theilwra i'r teulu unigol. Mae hefyd yn agor trafodaeth ehangach am sut y gallwn sicrhau bod pobl nad ydynt yn siarad Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf yn gallu cymryd rhan lawn yn y gymdeithas, ond efallai mai trafodaeth ar gyfer diwrnod arall yw honno.

Although it was not highlighted by Public Health Wales, we know that there are families in which parents are unable to read, so we need to think about how these families can be identified and communicated with in a way that suits them. Despite these identified barriers, it is clear that significant numbers of parents did not offer a reason why they did not have their children vaccinated. So, more work needs to be done in terms of having an open discussion with parents about what the additional barriers are, so that we can overcome them. There is a seriously important role for Public Health Wales in taking that work forward.

Er na wnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru amlygu'r peth, rydym yn gwybod bod rhai teuluoedd lle nad yw'r rhieni'n gallu darllen, felly mae angen inni ystyried sut y gallwn ganfod y teuluoedd hyn a chyfathrebu â hwy mewn ffordd sy'n addas iddynt. Er gwaethaf y rhwystrau a nodwyd, mae'n glir na wnaeth nifer sylweddol o rieni gynnig rheswm dros beidio â mynd â'u plant i gael eu brechu. Felly, mae angen gwneud mwy o waith i gael trafodaeth agored gyda rhieni i ganfod beth yw'r rhwystrau ychwanegol hyn, fel y gallwn eu goresgyn. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru swyddogaeth ddifrifol bwysig o ran bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw.

In a recent Health and Social Services Committee session to scrutinise the Social Services and Well-being (Wales) Bill, a health board official told us that, from a health perspective, vaccination is the single most important preventative measure for children.In other words, vaccinating children against diseases such as measles is the single most important thing that a parent can do to prevent ill health in their child. This makes me wonder how the Welsh Government uses vaccination data in its wider work in seeking to identify and support families and promote children's health. Is it a key factor that is considered alongside such things as school attendance or regular dental check-ups, for example, when we seek to gain an overall picture of a child's health and welfare, so that professionals can work with families and tailor specific support?

Yn un o sesiynau diweddar y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), dywedodd un o swyddogion y bwrdd iechyd wrthym, o safbwynt iechyd, mai brechu yw'r un mesur ataliol pwysicaf ar gyfer plant. Mewn geiriau eraill, brechu plant rhag clefydau fel y frech goch yw'r un peth pwysicaf y gall rhieni ei wneud i atal afiechyd yn eu plentyn. Mae hyn yn gwneud imi feddwl tybed sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data brechu yn ei gwaith ehangach o geisio adnabod a chefnogi teuluoedd a hyrwyddo iechyd plant. A yw'n ffactor allweddol sy'n cael ei hystyried ochr yn ochr â phethau fel presenoldeb yn yr ysgol neu archwiliadau deintyddol rheolaidd, er enghraifft, pan fyddwn yn ceisio cael darlun cyflawn o iechyd a lles plentyn, fel y gall gweithwyr proffesiynol weithio gyda theuluoedd a theilwra cymorth penodol?

Finally, we are not the only people in the world who are facing this kind of outbreak. New York city and Pakistan's Punjab province are both currently experiencing measles outbreaks. Both have similarities and differences to Wales in their approach to tackling measles, so perhaps there is some merit in exploring what lessons can be learnt from the approach of other countries in dealing with outbreaks.

Yn olaf, nid ni yw'r unig bobl yn y byd sydd yn wynebu achosion fel hyn. Mae dinas Efrog Newydd a thalaith Punjab ym Mhacistan ill dau yn profi achosion o'r frech goch ar hyn o bryd. Mae ganddynt ill dau agweddau tebyg a gwahanol i Gymru o ran sut y maent yn ymdrin â'r frech goch, felly efallai fod rhywfaint o werth mewn archwilio pa wersi y gellir eu dysgu o ddulliau gwledydd eraill o ymdrin ag achosion.

16:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call on the Minister to reply to the debate.

16:32

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I have not left myself sufficient time to do justice to the many important points that have been raised during the debate. It got off to a very important start when Bethan Jenkins pointed out that a measles outbreak could happen at any time in any place in Wales. There still is that reservoir of people who are unvaccinated, and it is not just something that is confined to the Swansea area. We need and have a pan-Wales response to that epidemic.

Nid wyf wedi gadael digon o amser i mi fy hun i wneud cyfiawnder â'r nifer o bwyntiau pwysig a godwyd yn ystod y ddadl. Cafwyd cychwyn pwysig iawn wrth i Bethan Jenkins nodi y gallai achosion o'r frech goch ddigwydd ar unrhyw adeg yn unrhyw le yng Nghymru. Mae nifer o bobl yn dal i fod heb gael eu brechu; nid dim ond rhywbeth sydd wedi'i gyfyngu i ardal Abertawe yw hynny. Mae arnom angen ymateb ledled Cymru gyfan i'r epidemig hwnnw, ac mae gennym un.

Darren Millar pointed to the technological advances that there have been in vaccination. The nasal spray for two and three-year-olds is not simply an easier way to take a vaccine, but it is a much more effective form of vaccine. I did not think that any of the points that Darren raised, or the questions that he identified were unreasonable, or unimportant. The only difference between us is whether a public inquiry is the best or only way in which to get the sort of lessons that we need to learn from this.

Soniodd Darren Millar am y datblygiadau technolegol a fu ym maes brechu. Nid dim ond ffordd haws i gymryd brechlyn yw'r chwistrell trwyn i blant dwy a thair blwydd oed—mae'n ffurf llawer mwy effeithiol o'r brechlyn. Nid oeddwn yn meddwl bod yr un o'r pwyntiau a gododd Darren, na'r cwestiynau a nododd, yn afresymol, nac yn ddibwys. Yr unig wahaniaeth rhyngom ni yw ai ymchwiliad cyhoeddus yw'r ffordd orau, neu'r unig ffordd, inni sicrhau'r math o wersi y mae angen inni eu dysgu o hyn.

Kirsty pointed to the hard-to-reach groups and the need to do more in order to get to those parts of the population where those messages that put people off vaccination have a particular sort of resonance. Public Health Wales already has actions in hand to do just that.

Soniodd Kirsty am y grwpiau anodd eu cyrraedd a'r angen i wneud mwy er mwyn cyrraedd y rhannau hynny o'r boblogaeth lle mae'r negeseuon sy'n troi pobl oddi ar frechu'n taro deuddeg. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gamau gweithredu ar y gweill eisoes i wneud hynny.

Sandy Mewies pointed to the real extra problems that flow from not having the MMR vaccine. Sense—the voluntary sector organisation that represents deafblind people—has been particularly active during the outbreak, bringing home to people the effect that a measles attack can have on a child, let alone the failure to be protected from mumps and rubella.

Soniodd Sandy Mewies am y problemau ychwanegol go iawn sy'n deillio o beidio â chael y brechlyn MMR. Mae Sense—y mudiad sector gwirfoddol sy'n cynrychioli pobl ddall a byddar—wedi bod yn arbennig o weithgar yn ystod yr achosion, gan ddangos i bobl yr effaith y gall y frech goch ei chael ar blentyn, heb sôn am beidio â chael eu diogelu rhag clwy'r pennau a rwbela.

Rebecca Evans, I pointed in my initial contribution to the work of the University of Warwick in quantitative data, but really important qualitative research has been undertaken as well in order to understand, at the level of the individual family, the barriers that might exist to people taking advantage of that MMR vaccine.

Rebecca Evans, soniais yn fy nghyfraniad cychwynnol am waith Prifysgol Warwick o ran data meintiol, ond mae ymchwil ansoddol pwysig iawn wedi cael ei wneud hefyd er mwyn deall, ar lefel teuluoedd unigol, y rhwystrau a allai fod yn atal pobl rhag manteisio ar y brechlyn MMR.

Dirprwy Lywydd, when I was growing up and the same age as those most vulnerable in this year's Swansea outbreak, annual notification of measles across the United Kingdom varied between 160,000 and 800,000 cases a year, with a peak every two years and 100 deaths from measles every single year. This is not something that belongs to some far away country of our remote ancestors; this is in the lifetime of most people in this Chamber. The introduction of the MMR vaccine a quarter of a century ago in October 1988 revolutionised that position. In the 20 years between 1992 and 2012, there have been only two deaths from acute measles infection across the whole of the United Kingdom. Yet, as this year's events have demonstrated, there is a reservoir of difficulty that remains in the population, and conditions still exist in which the disease can flare up again.

Ddirprwy Lywydd, pan oeddwn yn tyfu a'r un oed â'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn achosion Abertawe eleni, roedd nifer yr achosion o'r frech goch yr hysbyswyd amdanynt ledled y Deyrnas Unedig yn amrywio rhwng 160,000 a 800,000 o achosion y flwyddyn, gyda brig bob dwy flynedd a 100 o farwolaethau o'r frech goch bob blwyddyn. Nid rhywbeth sy'n perthyn i wlad ein cyndadau pell mo hyn; roedd yn digwydd yn ystod oes y rhan fwyaf o'r bobl yn y Siambr hon. Cafodd y sefyllfa honno ei chwyldroi yn sgil cyflwyno'r brechlyn MMR chwarter canrif yn ôl ym mis Hydref 1988. Yn ystod yr 20 mlynedd rhwng 1992 a 2012, dim ond dwy farwolaeth o haint acíwt y frech goch a fu ledled y Deyrnas Unedig gyfan. Ac eto, fel y mae digwyddiadau eleni wedi dangos, mae cronfa o anhawster yn dal i fodoli yn y boblogaeth, ac mae'r amgylchiadau'n dal i fodoli lle gall y clefyd godi eto.

While the response across Wales demonstrates that there are emergency plans in place for mass vaccination and that those plans have been capable of being translated successfully into reality, the real protection lies in persuading more of those who missed out on vaccination in early years to come forward for it now. If there is a message that we want to leave at the end of this debate, I think it is the one that many of us here in the Assembly have repeated when we have had the opportunity to do so: the MMR vaccine is safe and it is effective. Do not wait until measles is in your town or your street to give your children the protection that they can get. That applies across Wales, where measles could happen at any time. If anyone is in any doubt, act now and get the protection that vaccination makes available to us.

Er bod yr ymateb ledled Cymru yn dangos y sefydlwyd cynlluniau argyfwng ar gyfer brechu torfol a bod y cynlluniau hynny wedi cael eu rhoi ar waith yn ymarferol yn llwyddiannus, yr amddiffyniad go iawn yw darbwyllo mwy o'r rheini na chawsant eu brechu yn y blynyddoedd cynnar i gael eu brechu yn awr. Os oes neges yr hoffem ei gadael ar ddiwedd y ddadl hon, rwyf yn credu mai'r neges honno yw'r un y mae llawer ohonom yma yn y Cynulliad wedi'i hailadrodd pan gawsom y cyfle i wneud hynny: mae'r brechlyn MMR yn ddiogel ac mae'n effeithiol. Peidiwch ag aros tan y bydd y frech goch yn eich tref neu eich stryd chi i roi'r amddiffyniad sydd ar gael i'ch plant. Mae hynny'n wir ledled Cymru, lle y gallai'r frech goch ddigwydd ar unrhyw adeg. Os oes unrhyw un mewn unrhyw amheuaeth, gweithredwch yn awr i gael eich amddiffyn gan y brechiad sydd ar gael i ni.

16:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynnir gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The question is that amendment 1 be agreed. Is there any objection? I see that there is not. I therefore declare amendment 1 agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 agreed.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Gohiriaf bob pleidlais arall ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 2 be agreed. Is there any objection? I see that there is. All voting on this item is deferred until voting time.

Before we move to voting time, do three Members wish for the bell to be rung? I see that they do. Clerk, please ring the bell.

Cyn i ni symud at y cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf fod. Glerc, canwch y gloch.

# Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5260.](#)

# Voting Time

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5260.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 13, Against 42, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5260.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5260.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5260 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5260 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r ymateb i'r achosion diweddar o'r frech goch;

1. Notes the response to the recent measles outbreak;

2. Yn mynegi ei ddiolch i staff gweithgar Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a swyddogion cyhoeddus eraill yn Abertawe ac mewn mannau eraill am y gwaith y maent wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â'r achosion o'r frech goch; a

2. Expresses its gratitude to the hardworking staff of Abertawe Bro Morgannwg UHB and other public officials in Swansea and elsewhere for all the work they have done in countering the measles outbreak; and

3. Yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni brechu plant.

3. Recognises the importance of childhood vaccination programmes.

4. Yn mynegi pryder ynghylch arferion rhai cwmnïau preifat o ran marchnata brechlynnau heb eu trwyddedu a phresgripsiwn yn unig, ac am yr honiadau camarweiniol a wnaethpwyd gan rai clinigau brechiad sengl ynghylch y brechlyn MMR cyfun.

4. Expresses concern at the practice of some private companies in marketing unlicensed and prescription only vaccines and at the misleading claims made by some single vaccination clinics regarding the combined MMR vaccine.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5260 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5260 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5260 fel y'i diwygiwyd: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5260 as amended agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

16:44

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel?

16:45

## Dadl Fer a Ohiriwyd o 8 Mai 2013: Gwybod am y Gwenyn: Rôl Gwyddoniaeth o ran Gwarchod Iechyd Gwenyn fel Peillwyr

## Short Debate Postponed from 8 May 2013: Bee Aware: The Role of Science in Protecting the Health of Bees as Pollinators

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on Antoinette Sandbach to speak on the topic that she has chosen.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i siarad am y pwnc y mae wedi'i ddewis.

16:45

### Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The title of this debate is 'Bee Aware: The Role of Science in Protecting the Health of Bees as Pollinators'. I am very pleased to be able to have this debate. I have given a minute to William Powell and to Joyce Watson and, if there is time, to Llyr Huws Gruffydd. I am also very grateful that the Presiding Officer allowed the debate to be postponed last month in order to take account of the latest scientific and political developments.

Teitl y ddadl hon yw 'Gwybod am y Gwenyn: Rôl Gwyddoniaeth o ran Gwarchod Iechyd Gwenyn fel Peillwyr'. Rwyf yn falch iawn o allu cael y ddadl hon. Rwyf wedi rhoi munud i William Powell ac i Joyce Watson ac, os bydd amser, i Llyr Huws Gruffydd. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'r Llywydd am ganiatáu i'r ddadl gael ei gohirio fis diwethaf i ystyried y datblygiadau gwyddonol a gwleidyddol diweddaraf.

Despite their small size, the fate of bees looms large in the public consciousness, and I think that Assembly Members will have had a copy of 'Buzz the little honey-bee' in their post box this week. It is an initiative by schoolchildren in Merthyr Tydfil.

Er eu bod yn greaduriaid bach, mae tynged gwenyn yn beth mawr yn ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac rwyf yn meddwl y bydd Aelodau'r Cynulliad yr wythnos hon wedi cael copi o 'Buzz the little honey bee' yn eu blwch post, sef menter gan blant ysgol ym Merthyr Tudful.

While other wild insect pollinators have continued to decline in number in recent decades, it is bees that have captured the public imagination. In strict economic terms, the value of pollinators to the UK economy has been estimated as being anywhere between £430 million to £603 million, and honey-bees alone account for £200 million of that. Bees and other pollinators are also an integral part of the ecosystem, and it is clear that their loss would lead to a huge environmental cost, as well as an economic cost, to Wales and the UK. However, the exact reasons behind these declines are not clear. Given their role in agriculture, honey-bees have been the focus of the overwhelming majority of research, which points to three main things: the loss of habitat and food, particularly wildflower meadows; the varroa mite, which has infested colonies and spread diseases; and pesticides, specifically neonicotinoids, three of which have been subject to a partial ban within the EU for two years.

Er bod niferoedd pryfed peillio gwyllt eraill wedi parhau i ostwng yn ystod y degawdau diwethaf, gwenyn sydd wedi dal dychymyg y cyhoedd. Mewn termau economaidd yn unig, amcangyfrifwyd bod peillwyr yn werth rhwng £430 miliwn a £603 miliwn i economi'r DU, ac mae gwenyn mêl yn unig yn gyfrifol am £200 miliwn o hynny. Mae gwenyn a pheillwyr eraill hefyd yn rhan annatod o'r ecosystem, ac mae'n amlwg y byddai eu colli yn arwain at gost amgylcheddol enfawr, yn ogystal â chost economaidd, i Gymru a'r DU. Fodd bynnag, nid yw'r union resymau am y gostyngiadau hyn yn glir. O ystyried eu swyddogaeth mewn amaethyddiaeth, mae'r mwyafrif llethol o ymchwil wedi canolbwyntio ar wenyn mêl, ac mae'r ymchwil hwnnw'n tynnu sylw at dri phrif beth: colli cynefinoedd a bwyd, yn enwedig dolydd blodau gwyllt; y gwiddonyn varroa, sydd yn bla ar nythfeydd ac yn lledaenu clefydau; a phlaladdwyr, yn benodol neonicotinoidau—cyhoeddwyd gwaharddiad rhannol ar dri o'r rhain o fewn yr UE am ddwy flynedd.

The question of what exactly is responsible for the decline has become a polarised debate between the pesticide manufacturers and environmental groups. What scientific consensus there is points to a combination of all these pressures, but there remains a considerable degree of uncertainty over the scientific evidence. I would argue, in the face of this uncertainty, that Government should apply the precautionary principle. I therefore support the steps taken in the EU in respect of the three neonicotinoids being banned for two years.

Mae'r cwestiwn beth yn union sy'n gyfrifol am y dirywiad wedi troi'n ddadl begynol rhwng y gwneuthurwyr plaladdwyr a grwpiau amgylcheddol. Mae'r ychydig gonsensws gwyddonol sy'n bodoli'n cyfeirio at gyfuniad o'r holl bwysau hyn, ond ceir cryn ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r dystiolaeth wyddonol. Byddwn i'n dadlau, yn wyneb yr ansicrwydd hwn, y dylai'r Llywodraeth ddilyn yr egwyddor o fod yn rhagofalus. Felly, rwyf yn cefnogi'r camau a gymerwyd yn yr UE i wahardd y tri neonicotinoid am ddwy flynedd.

Anyone unfamiliar with this debate may wonder why this particular group of pesticides has been singled out. By way of explanation, they are the most widely used type of insecticide in the world, and it is easy to understand why. They are commonly applied as a dressing to seeds. The compound remains within the plant as it grows. The whole plant is protected, above and below ground, and this obviously has benefits to farmers. Also, they are considered to be considerably safer to wildlife and to human health than other pesticides that have been used in the past. The value of neonics has been estimated as somewhere between €2 billion and €4.5 billion. Without neonics, they warn that winter wheat yields could drop by 20%, although this figure is confused by winter wheat actually being excluded from the EU ban.

Mae'n siŵr y byddai unrhyw un sy'n anghyfarwydd â'r ddadl hon yn meddwl tybed pam mae'r grŵp penodol hwn o blaladdwyr wedi cael ei ddewis. Yr esboniad yw mai dyma'r math mwyaf cyffredin o bryfladdwyr yn y byd, ac mae'n hawdd deall pam. Maent yn cael eu defnyddio'n gyffredin fel dresin i hadau. Mae'r cyfansoddyn yn aros yn y planhigyn wrth iddo dyfu. Caiff y planhigyn cyfan ei ddiogelu, uwchben ac o dan y ddaear, ac mae hyn yn amlwg yn fuddiol i ffermwyr. Hefyd, ystyrir eu bod yn llawer mwy diogel i fywyd gwyllt ac i iechyd dynol na phlaladdwyr eraill sydd wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol. Amcangyfrifwyd bod plaladdwyr neonig yn werth rhwng €2 biliwn a €4.5 biliwn. Heb blaladdwyr neonig, maent yn rhybuddio y gallai cynnyrch gwenith yn y gaeaf ostwng 20%, er bod y ffigur hwn yn cael ei ddrysu gan y ffaith bod gwenith gaeaf mewn gwirionedd wedi'i eithrio o waharddiad yr UE.

There are also practical difficulties in disentangling exactly how much neonics have improved crop yields, given other changes in agricultural practices. For example, in the UK, oilseed rape yields were the same in 1994, before neonics where available, as they were 15 years later, when almost 100% of the UK crop was treated. Indeed, some of the critics of neonics point to the international evidence, which shows that, in some instances, it is more effective for farmers to use less expensive pesticides, or integrated pest management methods that minimise the use of pesticides.

Ceir anawsterau ymarferol hefyd o ran deall yn union faint y mae plaladdwyr neonig wedi gwella cynnyrch cnydau, o ystyried newidiadau eraill i arferion amaethyddol. Er enghraifft, yn y DU, roedd cynnyrch rêp had olew yr un fath ym 1994, cyn i blaladdwyr neonig fod ar gael, ag yr oedd 15 mlynedd yn ddiweddarach, pan oedd bron i 100% o gnydau'r DU yn cael eu trin. Yn wir, mae rhai o feirniaid plaladdwyr neonig yn cyfeirio at y dystiolaeth ryngwladol, sy'n dangos ei bod yn fwy effeithiol, mewn rhai achosion, i ffermwyr ddefnyddio plaladdwyr llai drud, neu ddulliau rheoli plâu integredig sy'n golygu defnyddio llai o blaladdwyr.

While neonics have been valued for their ability to control pests, it has been their sub-lethal effect on bees that has led to their being singled out for a partial ban following recently published research. The risks are that bees will ingest trace amounts of neonics through nectar, and that neonics accumulate in the soil and in groundwater. There is also evidence that dust from the seed dressing can be directly fatal to bees during sowing. Three laboratory studies—Henry, Whitehorn and Gill—demonstrate the effect of sub-lethal doses in reducing feeding, movement and fertility, which has led to difficulties for bees in navigating and foraging. All of that would have serious implications for colony health.

Er bod gwerth mawr wedi ei roi ar allu plaladdwyr neonig i reoli plâu, eu heffaith led farwol ar wenyn sydd wedi achosi iddynt gael eu dethol ar gyfer gwaharddiad rhannol yn dilyn ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Y risgiau yw y bydd gwenyn yn llyncu symiau bach iawn o blaladdwyr neonig drwy neithdar, a bod plaladdwyr neonig yn cronni yn y pridd ac mewn dŵr daear. Ceir tystiolaeth hefyd y gall llwch o'r dresin hadau fod yn uniongyrchol angheuol i wenyn yn ystod adeg hau. Mae tair astudiaeth labordy—astudiaethau Henry, Whitehorn a Gill—yn dangos effaith dosiau lled farwol o ran lleihau bwydo, symudiad a ffrwythlondeb, gan ei gwneud yn anoddach i wenyn ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas a chwilio am fwyd. Byddai hynny i gyd yn achosi goblygiadau difrifol i iechyd y nythfa.

However, despite this emerging evidence persuading member states to vote for a partial ban—although not the UK—there simply is not enough evidence to answer the question about whether the sub-lethal effects of neonics in the laboratory are causing the decline in the environment. There are no data on the actual exposure pollinators receive to multiple pesticides, including neonics, in the environment. There is very little information on the accumulation in soils. The half-lives of neonics typically vary between 200 and 1,000 days. There is nothing on the uptake of neonics from the soil by non-target plants, for example in hedgerows and field margins. There is nothing on other pollinators such as butterflies and hover flies. There has been no landscape-scale field trial on bees.

Fodd bynnag, er bod y dystiolaeth newydd hon wedi darbwyllo aelod-wladwriaethau i bleidleisio o blaid gwaharddiad rhannol—er nad oedd y DU yn un ohonynt—nid oes digon o dystiolaeth i ateb y cwestiwn ynghylch a yw effeithiau lled farwol plaladdwyr neonig yn y labordy yn achosi'r dirywiad yn yr amgylchedd. Nid oes data ar gael ynglŷn â faint o amryw o blaladdwyr, gan gynnwys plaladdwyr neonig, y mae peillwyr yn ei gael mewn gwirionedd yn yr amgylchedd. Nid oes llawer o wybodaeth o gwbl am sut y maent yn cronni yn y pridd. Mae hanner oesau plaladdwyr neonig fel arfer yn amrywio rhwng 200 a 1,000 o ddiwrnodau. Nid oes dim byd am faint o blaladdwyr neonig a gymerir o'r pridd gan blanhigion ar wahân i'r rhai a dargedir, er enghraifft mewn gwrychoedd ac ymylon caeau. Nid oes dim byd am beillwyr eraill megis ieir bach yr haf a phryfed hofran. Ni fu treial maes ar wenyn ar raddfa tirwedd.

The use of neonics is so widespread that, when DEFRA carried out its latest field trial, it could only identify one field of oil seed rape in the whole of the UK that had not been treated. So, there was no control available—or not a large enough control—for the DEFRA experiment. There are also no data on the widespread use of neonicotinoids in gardens. In the face of such uncertainty, I believe that the precautionary principle should be adopted. As the 1992 Rio declaration stated:

Mae plaladdwyr neonig yn cael eu defnyddio mor eang fel mai dim ond un cae o rêp had olew a ganfuwyd yn y DU gyfan nad oedd wedi cael ei drin, pan gynhaliodd DEFRA eu treial maes diweddaraf. Felly, nid oedd data cymharu ar gael—neu nid oedd digon ohono—ar gyfer arbrawf DEFRA. Nid oes dim data ychwaith am ddefnyddio neonicotinoidau yn eang mewn gerddi. Yn wyneb ansicrwydd o'r fath, rwyf yn credu y dylid mabwysiadu'r egwyddor o fod yn rhagofalus. Fel y dywedodd datganiad Rio 1992:

'where there are threats of serious or irreversible damage, lack of full scientific certainty shall not be used as a reason for postponing cost-effective measures to prevent environmental degradation'.

lle ceir bygythiadau o ddifrod difrifol neu na ellir ei wyrdroi, ni ddylid defnyddio diffyg sicrwydd gwyddonol llawn fel rheswm dros ohirio mesurau cost-effeithiol i atal diraddiad amgylcheddol.

What the partial ban has bought is time: two years to address this scientific uncertainty. There are two further neonic pesticides that are authorised for use under European Union rules.

Yr hyn y mae'r gwaharddiad rhannol wedi'i brynu yw amser: dwy flynedd i fynd i'r afael â'r ansicrwydd gwyddonol hwn. Mae dau blaladdwr neonig arall wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio dan reolau'r Undeb Ewropeaidd.

In the meantime, I look forward to the development of the Welsh Government's action plan for pollinators, which I believe has much to commend it. The Minister will be aware that, last week, I raised the idea of a fund for small projects that might permit individuals who have access to land to sow wild flowers, for example—perhaps in conjunction with third sector organisation—to put that land to a use that could support our pollinators here in the UK. I would also urge Assembly Members to look at the Plantlife campaign on roadside verges, which could be used to support bees and other pollinators, and to bring that to the attention of local councils in their areas.

Yn y cyfamser, rwyf yn edrych ymlaen at weld cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer pryfed peillio'n cael ei ddatblygu; rwyf yn credu bod llawer i'w ganmol amdano. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol fy mod, yr wythnos diwethaf, wedi codi'r syniad o gael cronfa ar gyfer prosiectau bach a allai ganiatáu i unigolion sydd â mynediad at dir hau blodau gwyllt, er enghraifft—efallai ar y cyd â mudiad trydydd sector—i ddefnyddio'r tir hwnnw mewn ffordd a allai gefnogi ein peillwyr yma yn y DU. Byddwn hefyd yn annog Aelodau'r Cynulliad i edrych ar yr ymgyrch Plantlife ar ymylon ffyrdd; gellid defnyddio'r ymgyrch hon i gefnogi gwenyn a pheillwyr eraill, ac i dynnu sylw'r cynghorau lleol yn eu hardaloedd at yr ymgyrch.

I would like to thank my constituent Geoff Critchley, a bee keeper, for raising the importance of verges to wildlife. Given that this is an emerging area of science, I would ask the Minister to consider what the Welsh Government can do to contribute to the scientific research. I note the developments today at Swansea University, with the possibility of a natural pesticide that would not have the side effects of the neonics, and I would ask the Minister to look at funding research into the effects of neonics on bees, and to develop the scientific evidence base beyond what it currently does through the national bee unit.

Hoffwn ddiolch i'm hetholwr Geoff Critchley, sy'n cadw gwenyn, am godi pwysigrwydd ymylon ffyrdd i fywyd gwyllt. O ystyried bod hwn yn faes newydd mewn gwyddoniaeth, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog ystyried beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gyfrannu at yr ymchwil gwyddonol. Nodaf y datblygiadau heddiw ym Mhrifysgol Abertawe, gyda'r posibilrwydd o blaladdwr naturiol na fyddai'n achosi sgil effeithiau'r plaladdwyr neonig. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog ystyried ariannu ymchwil i effeithiau plaladdwyr neonig ar wenyn, ac i ddatblygu sail y dystiolaeth wyddonol y tu hwnt i'r hyn y mae'n ei wneud ar hyn o bryd yn yr uned wenyn genedlaethol.

Finally, I thank Professor Dave Goulson from the University of Sussex, Dr Lynn Dicks from the University of Cambridge, and the Assembly's research service for providing information that has informed this debate.

Yn olaf, diolch i'r Athro Dave Goulson o Brifysgol Sussex, Dr Lynn Dicks o Brifysgol Caergrawnt, a gwasanaeth ymchwil y Cynulliad am ddarparu gwybodaeth sydd wedi llywio'r ddadl hon.

16:54

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Antoinette Sandbach for bringing forward this vital debate today. The Welsh Liberal Democrats are seriously concerned about the possibility of a link between the use of the neonicotinoid pesticides and the evident decline in the UK bee population. Among the many issues that currently face farmers and rural communities, it is vital that we do not lose sight of the potentially devastating effects of declining bee populations. That is absolutely vital if we are to uphold biodiversity, protect wildlife and preserve our natural environment, which is of course an objective that we all seek to foster.

Diolch i Antoinette Sandbach am gyflwyno'r ddadl hanfodol hon heddiw. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn pryderu o ddifrif am y posibilrwydd o gysylltiad rhwng plaladdwyr neonicotinoid a'r dirywiad amlwg ym mhoblogaeth gwenyn y DU. Ymhlith y materion niferus sy'n wynebu ffermwyr a chymunedau gwledig ar hyn o bryd, mae'n hanfodol nad ydym yn colli golwg ar effeithiau'r dirywiad ym mhoblogaethau gwenyn—dirywiad a allai fod yn ddinistriol. Mae hynny'n gwbl hanfodol os ydym am gynnal bioamrywiaeth, diogelu bywyd gwyllt a gwarchod ein hamgylchedd naturiol, sydd wrth gwrs yn amcan yr ydym i gyd yn ceisio ei feithrin.

While there is evidence that insecticides may indeed be killing bees, there are a number of other factors that contribute to their plight, including disease, climate change and the removal of hedgerows. There is no single solution and that is why we strongly back the approach adopted by the Minister, which had strong cross-party support here just last week. We need to take that forward.

Er y ceir tystiolaeth y gall pryfladdwyr yn wir fod yn lladd gwenyn, mae nifer o ffactorau eraill yn cyfrannu at eu sefyllfa, gan gynnwys clefyd, newid yn yr hinsawdd a chael gwared ar berthi. Nid oes un ateb sengl a dyna pam yr ydym yn cefnogi'n gryf y dull a fabwysiadwyd gan y Gweinidog, a gafodd gefnogaeth gref drawsbleidiol yma yr wythnos diwethaf. Mae angen inni fwrw ymlaen â hynny.

16:55 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to thank Antoinette for the debate. I am pleased that the Welsh Government has launched a plan to increase the number of bees and other pollinators in Wales. Some 20% of UK cropped areas is made up of pollinator-dependent crops. Therefore, the decline in pollinators poses a real threat to Wales's wildlife and could have a serious effect on our ability to produce food. In Pembrokeshire, the ultimate aim of the beekeepers association is to develop a specific strain of Pembrokeshire bee that is more resistant to damp weather and disease. The estimates, as we have heard already, are £430 million per annum in terms of the value of pollinators in the UK.

Hoffwn ddiolch i Antoinette am y ddadl. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun i gynyddu nifer y gwenyn a pheillwyr eraill yng Nghymru. Mae tuag 20% o ardaloedd cnydau'r DU yn cynnwys cnydau sy'n ddibynnol ar beillwyr. Felly, mae'r dirywiad yn niferoedd y peillwyr yn fygythiad gwirioneddol i fywyd gwyllt Cymru a gallai gael effaith ddifrifol ar ein gallu i gynhyrchu bwyd. Yn Sir Benfro, nod y gymdeithas gwenynwyr yn y pen draw yw datblygu math penodol o wenyn Sir Benfro sy'n gwrthsefyll tywydd llaith a chlefydau'n well. Fel yr ydym wedi clywed eisoes, amcangyfrifwyd mai £430 miliwn y flwyddyn yw gwerth peillwyr yn y DU.

There is also a wider role that everybody has talked about, which is the role of everybody here and outside to do something, such as growing wildflowers or not pulling up weeds in their garden. I ask the Minister if he will look at the role of roadside verge cutting and the effect that that might be having on bee mortality and also to try to encourage, as has been mentioned, the growing of wildflowers on roundabouts instead of those flowers that do absolutely nothing for our bee population.

Ceir swyddogaeth ehangach hefyd y mae pawb wedi sôn amdani, sef swyddogaeth pawb yma a'r tu allan i wneud rhywbeth, er enghraifft tyfu blodau gwyllt neu beidio â chodi chwyn yn eu gardd. Gofynnaf i'r Gweinidog a wnaiff edrych ar yr arfer o dorri ymylon ffyrdd a'r effaith y gallai hynny fod yn ei chael ar farwolaethau gwenyn, a hefyd a wnaiff geisio annog y syniad, fel y crybwyllwyd, o dyfu blodau gwyllt ar gylchfannau yn hytrach na'r blodau hynny nad ydynt yn gwneud dim byd o gwbl ar gyfer ein poblogaeth gwenyn.

16:57 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae plaleiddiaid yn rhan arwyddocaol o'r jig-so. Dyna pam rwy'n cytuno â Chyfeillion y Ddaear Cymru y dylid datganoli'r cyfrifoldeb dros blaleiddiaid i'r Cynulliad Cenedlaethol o San Steffan. Byddwn yn awyddus i'r Gweinidog ystyried yr alwad honno hefyd.

Pesticides are a significant part of the jigsaw. That is why I agree with Friends of the Earth Cymru that responsibility for pesticides should be devolved to the National Assembly from Westminster. I would be keen for the Minister to consider that demand also.

Mae cynefinoedd hefyd yn ganolog i'r mater hwn, a'r angen i'w hamddiffyn a'u datblygu. Rydym wedi clywed am bwysigrwydd lleiniau wrth ymyl y ffordd; mae'n debyg bod bron 0.25 miliwn hectar o leiniau ym Mhrydain. Teimlaf fod angen rhaglen fawr nas gwelwyd erioed mo'i thebyg o blannu ar hyd y darnau tir cyhoeddus hynny er mwyn cryfhau'r cynefinoedd sydd ar gael.

Habitats are also central to this issue, as is the need to protect them and develop them. We have heard about the importance of roadside verges; it appears that there are almost 0.25 million hectares of verges in Britain. I feel that we need a major programme, the likes of which we have not seen before, of planting along these pieces of public land in order to strengthen the habitats available.

Gwerth economaidd yw'r unig iaith y mae rhai pobl yn ei deall, ond rhaid cofio bod gan hyd yn oed wenyn yr hawl sylfaenol i gyd-fodoli â ni ar y ddaear hon.

Economic value is the only language that some people understand, but we must remember that even bees have a fundamental right to co-exist with us on this earth.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Natural Resources and Food to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i ymateb i'r ddadl.

16:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I am tempted just to say 'Hear, hear'. [Interruption.] I said that I was tempted; I knew that if I did, you would take me up on my offer.

Caf fy nhemtio i beidio â dweud dim ond 'Clywch, clywch'. [Torri ar draws.] Dywedais mai cael fy nhemtio a wnes; roeddwn yn gwybod y byddech chi'n ddigon bodlon i dderbyn y cynnig hwnnw.

I am grateful to Antoinette for the time she has taken to prepare this debate and bring the matter to the Assembly. It is also good to hear the extent and depth of the agreement on all sides of the Chamber on this matter. I will, in reply, say that I agree with what Members have said about roadside verges, about public land in its entirety and about the way in which we deal with, in particular, the mowing of lawns and stuff. That is something that we need to address. I have discussed those matters informally with my ministerial colleagues and we will be taking those issues forward in coming weeks. I am grateful to people for bringing that to our attention this afternoon.

Rwyf yn ddiolchgar i Antoinette am yr amser y mae hi wedi'i gymryd i baratoi'r ddadl hon a chyflwyno'r mater i'r Cynulliad. Mae hefyd yn braf clywed hyd a lled a dyfnder y cytundeb ar bob ochr i'r Siambr ar y mater hwn. Fel ymateb, dywedaf fy mod yn cytuno â'r hyn y mae Aelodau wedi'i ddweud am ymylon ffyrdd, am dir cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac am y ffordd yr ydym yn ymdrin, yn benodol, â thorri lawntiau ac ati. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni roi sylw iddo. Rwyf wedi trafod y materion hynny'n anffurfiol gyda'm cyd-Weinidogion a byddwn yn symud ymlaen â'r materion hynny yn ystod yr wythnosau i ddod. Rwyf yn ddiolchgar i bobl am dynnu ein sylw at hynny y prynhawn yma.

The constellation of pollinators is crucial to maintaining biodiversity in Wales. We have already discussed issues regarding biodiversity over the last few weeks, since the 'State of Nature' report. When I made a statement on this matter a week or so ago there was broad agreement across the Chamber on the importance of these matters and on the fact that we have to respond to these issues. Llyr made the point very well that we cannot simply walk away from this. We cannot simply hope that a subsequent generation will address the problems that we have created. This has to be dealt with now and today.

Mae'r clwstwr o beillwyr yn hanfodol i gynnal bioamrywiaeth yng Nghymru. Rydym eisoes wedi trafod materion yn ymwneud â bioamrywiaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, ers yr adroddiad 'State of Nature'. Pan wnes ddatganiad am y mater hwn tua wythnos yn ôl, cafwyd cytundeb eang ar draws y Siambr am bwysigrwydd y materion hyn ac am y ffaith bod rhaid inni ymateb i'r materion hyn. Gwnaeth Llyr y pwynt yn dda iawn na allwn gefnu ar y broblem. Ni allwn obeithio y bydd cenhedlaeth ddilynol yn datrys y problemau yr ydym ni wedi'u creu. Rhaid ymdrin â hyn yn awr a heddiw.

We agree that providing new habitats, and protecting existing flower-rich habitats, with forage and nesting sites will help to save pollinators. This has other benefits, of course, but we hope that we will be able to include a number of different initiatives to support healthy populations of pollinators when we publish the action plan for pollinators at the Royal Welsh Show. We will be taking this forward and will be making it very clear. I am happy to talk, on an informal basis, to Members here this afternoon about that action plan. I think that I said that we would extend the period of consultation available to include this debate, and we have done so. If Members wish to work with the Government on this action plan, I extend an invitation to Members on all sides of the Chamber to take part in developing it. It would be useful if we all then launched it together, to demonstrate not simply political agreement, but political unity on the importance of this matter.

Rydym yn cytuno y gellir helpu i achub peillwyr trwy ddarparu cynefinoedd newydd, a gwarchod cynefinoedd presennol sy'n llawn blodau, gyda phorthiant a safleoedd nythu. Mae gan hyn fanteision eraill, wrth gwrs, ond rydym yn gobeithio y gallwn gynnwys nifer o wahanol fentrau i gynnal poblogaethau iach o beillwyr pan fyddwn yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer pryfed peillio yn Sioe Frenhinol Cymru. Byddwn yn symud ymlaen â hyn a byddwn yn gwneud y mater yn glir iawn. Rwyf yn hapus i siarad yn anffurfiol ag Aelodau yma brynhawn heddiw am y cynllun gweithredu. Rwyf yn meddwl fy mod wedi dweud y byddem yn ymestyn y cyfnod ymgynghori sydd ar gael i gynnwys y ddadl hon, ac rydym wedi gwneud hynny. Os yw'r Aelodau yn dymuno gweithio gyda'r Llywodraeth ar y cynllun gweithredu hwn, estynnaf wahoddiad i Aelodau ar bob ochr i'r Siambr i gymryd rhan yn y broses o'i ddatblygu. Byddai'n ddefnyddiol pe bai pawb wedyn yn ei lansio gyda'i gilydd, er mwyn dangos cytundeb gwleidyddol, ond hefyd undod gwleidyddol ar bwysigrwydd y mater hwn.

I hope that the initiatives that have been launched by the research councils, funded by the Department for Environment, Food and Rural Affairs on behalf of the Welsh Government, will also help to contribute to our understanding of the reasons behind the pollinator decline. We have tried to bring together researchers from many different disciplines to inform the development of our strategies and approaches to ensure that the pollination of agricultural and horticultural crops is protected and that biodiversity in natural ecosystems is maintained. We believe that, in Wales, the data will show that there has been a decline in some of our insect pollinator populations, which reflects similar declines elsewhere in the United Kingdom.

Rwyf yn gobeithio y bydd y mentrau sydd wedi cael eu lansio gan y cynghorau ymchwil, a ariannwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar ran Llywodraeth Cymru, hefyd yn helpu i gyfrannu at ein dealltwriaeth o'r rhesymau y tu ôl i'r dirywiad yn niferoedd y peillwyr. Rydym wedi ceisio dod ag ymchwilwyr at ei gilydd o lawer o wahanol ddisgyblaethau i lywio'r gwaith o ddatblygu ein strategaethau a'n dulliau gweithredu er mwyn sicrhau bod peillio cnydau amaethyddol a garddwriaethol yn cael ei ddiogelu a bod bioamrywiaeth ecosystemau naturiol yn cael ei gynnal. Rydym yn credu y bydd y data yng Nghymru yn dangos y bu dirywiad yn rhai o boblogaethau ein pryfed peillio, sy'n adlewyrchu dirywiad tebyg mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

In terms of pesticides, particularly the points that were made about neonics, we have, as a UK ministerial team, taken a very similar approach to these matters across the United Kingdom. The work that DEFRA has done, and the position that DEFRA has taken on behalf of devolved administrations in the United Kingdom, is one that we have all agreed on. At the moment, we have five neonic compounds approved for use as pesticides in the UK and EU; three of these are of similar acute toxicity to bees, with the remaining two far less acutely toxic because they are structurally different.

O ran plaladdwyr, yn enwedig y pwyntiau a wnaed am blaladdwyr neonig, rydym, fel tîm gweinidogol y DU, wedi mabwysiadu agwedd debyg iawn ar y materion hyn ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r gwaith y mae DEFRA wedi'i wneud, a'r safbwynt y mae DEFRA wedi'i gymryd ar ran y gweinyddiaethau datganoledig yn y Deyrnas Unedig, yn un yr ydym i gyd wedi cytuno arno. Ar hyn o bryd, mae gennym bum cyfansoddyn neonig a gymeradwywyd i'w defnyddio fel plaladdwyr yn y DU a'r UE; mae tri o'r rhain yn ddifrifol wenwynig i wenyn, a'r ddau arall yn llawer llai difrifol wenwynig oherwydd bod eu strwythur yn wahanol.

Concerns about the effects of neonics on bees have focused on the most acutely toxic of these chemicals over a period of time. These neonics are predominantly used as seed treatments. They are systemic pesticides that are taken up by the plant and transported to all tissues. The insecticide toxin remains active in the plant for many weeks, protecting the crop season-long. Concerns surrounding neonics have led to partial bans on the use of some of them for specific crops in a small number of European countries, including France, Germany, Italy and Slovenia. It is, quite rightly, a cornerstone of the EU regime that, if new evidence emerges, it must be properly examined and the implications addressed. A review may find a need for urgent regulatory action to restrict pesticide use, or it may find that there are data gaps that need to be filled.

Mae pryderon am effeithiau plaladdwyr neonig ar wenyn wedi canolbwyntio ar y cemegion mwyaf difrifol wenwynig dros gyfnod. Mae'r plaladdwyr neonig yn cael eu defnyddio yn bennaf i drin hadau. Maent yn blaladdwyr systemig sy'n cael eu cymryd gan y planhigyn a'u cludo i bob meinwe. Mae tocsin y pryfladdwr yn parhau i fod yn weithgar yn y planhigyn am nifer o wythnosau, gan amddiffyn y cnwd drwy gydol y tymor. Mae pryderon am blaladdwyr neonig wedi arwain at waharddiad rhannol ar ddefnyddio rhai ohonynt ar gnydau penodol mewn nifer fach o wledydd Ewrop, gan gynnwys Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal a Slofenia. Yn gwbl briodol, un o gonglfeini trefn yr UE yw bod rhaid archwilio'n briodol unrhyw dystiolaeth newydd a ddaw i'r amlwg, a rhoi sylw i'w goblygiadau. Fe allai adolygiad ganfod bod angen cymryd camau rheoleiddio brys i gyfyngu ar ddefnyddio plaladdwyr, neu gall ddarganfod bod bylchau yn y data y mae angen eu llenwi.

Based on the current research, the European Commission has requested that the European Food Safety Authority undertakes a scientific evaluation of the risk assessment of these insecticides. The scientific findings were published on 16 January this year. On the basis of this opinion, the Commission tabled a proposal for discussion with member states to ban the three neonics that I mentioned. The EFSA has also found that there are gaps in the scientific data. We believe that this is to be expected when the products are approved for specific uses. In my view, the key data that are missing are the effects on bees and other pollinators under real field conditions.

Yn seiliedig ar yr ymchwil ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi gofyn i Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop gynnal gwerthusiad gwyddonol o'r asesiad risg o'r pryfladdwyr hyn. Cyhoeddwyd y canfyddiadau gwyddonol ar 16 Ionawr eleni. Ar sail y farn hon, cyflwynodd y Comisiwn gynnig ar gyfer trafodaeth gyda'r aelod-wladwriaethau i wahardd y tri phlaladdwr neonig y soniais amdanynt. Mae Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop hefyd wedi canfod bylchau yn y data gwyddonol. Credwn fod hyn i'w ddisgwyl pan gaiff y cynhyrchion eu cymeradwyo ar gyfer dibenion penodol. Yn fy marn i, y data allweddol sydd ar goll yw'r effeithiau ar wenyn a pheillwyr eraill dan amgylchiaddau gwirioneddol yn y maes.

In the light of these developments, at its meeting on 29 January this year, the Advisory Committee on Pesticides advised the relevant UK and devolved-administration Ministers that they may wish to carry out a review of authorisations. Ministers accepted the committee's view that authorisations should be reviewed and that further analysis of the latest research should be carried out urgently. The ACP considered the latest research available on neonics and concluded that laboratory studies showed that bees can be significantly affected by them. However, after considering the additional analysis of a research project to evaluate the effect on bumblebees in the field, the ACP advised that this field study did not alter the weight of evidence. The committee's view, therefore, is that there is no single piece of evidence clearly identifying a significant adverse effect of neonicotinoid insecticides on bee species in the United Kingdom, that the accumulation of information does not rule out the possibility that there may be effects on bees in the field in the UK, and that much of this new information points in the direction of potential adverse effects. That is the latest advice that has been given to Ministers in the United Kingdom on this issue by the ACP.

Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, yn eu cyfarfod ar 29 Ionawr eleni, rhoddodd y Pwyllgor Cynghori ar Blaladdwyr gyngor i Weinidogion perthnasol y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig y dylent gynnal adolygiad o awdurdodiadau. Derbyniodd Gweinidogion farn y pwyllgor y dylid adolygu awdurdodiadau ac y gallent fod yn dymuno cynnal dadansoddiad ychwanegol o'r ymchwil diweddaraf ar frys. Ystyriodd y Pwyllgor Cynghori ar Blaladdwyr yr ymchwil diweddaraf a oedd ar gael ar blaladdwyr neonig, a daeth i'r casgliad fod astudiaethau labordy yn dangos y gallant gael effaith sylweddol ar wenyn. Fodd bynnag, ar ôl ystyried dadansoddiad ychwanegol prosiect ymchwil i werthuso effaith ar gacwn yn y maes, dywedodd y Pwyllgor Cynghori ar Blaladdwyr nad oedd yr astudiaeth faes hon yn newid pwysau'r dystiolaeth. Barn y pwyllgor, felly, yw nad oes un darn o dystiolaeth sy'n nodi'n glir bod pryfladdwyr neonicotinoid yn cael effaith andwyol sylweddol ar rywogaethau gwenyn yn y Deyrnas Unedig, na ellir diystyru'r posibilrwydd y gallai fod effeithiau ar wenyn yn y maes yn y DU yn sgil y wybodaeth sydd wedi'i chasglu, a bod llawer o'r wybodaeth newydd hon yn awgrymu effeithiau andwyol posibl. Dyna'r cyngor diweddaraf a roddwyd i Weinidogion yn y Deyrnas Unedig ar y mater hwn gan y Pwyllgor Cynghori ar Blaladdwyr.

At the EU appeal committee on 29 April of this year, the EC confirmed that it will move ahead with a moratorium on neonicotinoids and will introduce a ban later this year. Member states are bound by this decision. The ban is on the use of the three neonics for seed treatment, soil application and foliar treatment on bee-attractive plants and cereals. There are few exemptions in respect of greenhouses and open-air trials. As soon as new information is available, and at the latest within two years, the Commission proposed to review the conditions of approval of the three neonics to take into account relevant scientific and technical developments. The Health and Safety Executive as a competent UK authority will write to all UK authorisation holders, detailing the changes that will be made to their authorisations.

Ym mhwyllgor apêl yr UE ar 29 Ebrill eleni, cadarnhaodd y Comisiwn Ewropeaidd y bydd yn symud ymlaen â'r moratoriwm ar neonicotinoidau ac y bydd yn cyflwyno gwaharddiad yn ddiweddarach eleni. Mae aelod-wladwriaethau yn rhwym wrth y penderfyniad hwn. Yr hyn sydd wedi'i wahardd yw defnyddio'r tri phlaladdwr neonig i drin hadau, eu defnyddio ar y pridd ac i drin dail ar blanhigion a grawnfwydydd sy'n denu gwenyn. Ceir rhai eithriadau ar gyfer treialon yn yr awyr agored ac mewn tai gwydr. Cynigiodd y Comisiwn y dylid adolygu amodau cymeradwyo'r tri phlaladdwr neonig cyn gynted ag y bydd gwybodaeth newydd ar gael, a fan hwyraf o fewn dwy flynedd, er mwyn ystyried datblygiadau gwyddonol a thechnegol perthnasol. Bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel awdurdod cymwys y DU yn ysgrifennu at bob deiliad awdurdodiad yn y DU, gan roi manylion y newidiadau a wneir i'w hawdurdodiad.

Although more integrated pest management practices are being developed, farmers will undoubtedly use the available products that have their own potential environmental risks. The alternative products will be helpful in some situations, but there will be reduced pest control and consequent economic losses.

Er bod arferion rheoli plâu mwy integredig yn cael eu datblygu, bydd ffermwyr yn sicr yn defnyddio'r cynhyrchion sydd ar gael sy'n peri eu risgiau amgylcheddol posibl eu hunain. Bydd y cynhyrchion amgen yn ddefnyddiol mewn rhai sefyllfaoedd, ond ceir llai o reolaeth dros blâu a cholledion economaidd o ganlyniad i hynny.

17:06

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am most grateful to the Minister for taking an intervention. The Deputy Presiding Officer and others will know that in much Welsh and English literature there are references to talking to bees. Therefore, I took the opportunity to speak to my bees yesterday. I cannot pretend that I got an immediate answer, but when posing certain questions I listened to the reaction from the hive. Sadly, of three, we have only one left. The action plan was well received, but more particularly that about extending margins, both private and public, to fields and planting them with wild flowers. That seemed to be the reaction. When does the Minister hope to implement that?

Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn ymyriad. Bydd y Dirprwy Lywydd ac eraill yn gwybod bod llawer o lenyddiaeth Gymraeg a Saesneg yn cyfeirio at siarad â gwenyn. Felly, cymerais y cyfle i siarad â'm gwenyn ddoe. Ni allaf honni fy mod wedi cael ateb ar unwaith, ond wrth holi cwestiynau penodol, gwrandewais ar ymateb y cwch gwenyn. Yn anffodus, dim ond un o dri sydd ar ôl gennym. Cafodd y cynllun gweithredu dderbyniad da, yn enwedig ynglŷn ag ymestyn ymylon caeau, preifat a chyhoeddus, a phlannu blodau gwyllt ynddynt. Dyna oedd yr ymateb, yn ôl pob golwg. Pryd y mae'r Gweinidog yn gobeithio gweithredu hynny?

17:07 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I must spend some time talking to your bees. I will join you, perhaps, if you would be so kind as to extend that invitation, so that we can have a longer conversation on these matters.

Bydd rhaid imi dreulio rhywfaint o amser yn siarad â'ch gwenyn. Ymunaf â chi, efallai, pe byddech mor garedig ag estyn y gwahoddiad hwnnw, fel y gallwn gael sgwrs hwy am y materion hyn.

I tried to say in my introduction that I have spoken informally to ministerial colleagues, and the point that you make about margins and verges is well made and accepted. I do not in any way disagree with that. If there is a hesitation, perhaps it is about how to take that forward. I will be talking to ministerial colleagues later this week, and I hope that we will be able to make a further statement on it in the coming weeks. However, certainly, I will say to the Conservative Member for South Wales East that we expect to take action on this before recess, this side of the summer. Therefore, please feel reassured. If you are able to have a conversation with your bees before they turn in for the evening tonight, I hope that they will also feel the same level of reassurance that Members will feel.

Ceisiais ddweud yn fy nghyflwyniad fy mod wedi siarad yn anffurfiol â chyd-Weinidogion, ac mae'r pwynt a wnewch am ymylon caeau ac ymylon ffyrdd wedi'i wneud yn dda ac yn cael ei dderbyn. Nid wyf yn anghytuno â hynny mewn unrhyw ffordd. Os oes oedi, efallai ei fod yn ymwneud â sut i fwrw ymlaen â hynny. Byddaf yn siarad â chyd-Weinidogion yn ddiweddarach yr wythnos hon, ac rwyf yn gobeithio y gallwn wneud datganiad ychwanegol am hyn yn yr wythnosau nesaf. Fodd bynnag, yn sicr, byddaf yn dweud wrth Aelod Ceidwadol Dwyrain De Cymru ein bod yn disgwyl cymryd camau cyn y toriad, yr ochr hon i'r haf. Gobeithio y bydd hynny'n tawelu eich meddwl. Os gallwch gael sgwrs gyda'ch gwenyn cyn iddynt noswylio heno, rwyf yn gobeithio y byddant hefyd yn teimlo'r un lefel o sicrwydd â'r Aelodau.

I wanted to read into the record some of that detail, because I think that it is important that Members appreciate and understand the position of the Government on this matter and the position that we are taking in terms of these discussions and negotiations.

Roeddwn wedi gobeithio rhoi rhywfaint o'r manylion hynny yn y cofnod, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig bod yr Aelodau yn gwerthfawrogi ac yn deall safbwynt y Llywodraeth ar y mater hwn a'n safbwynt o ran y trafodaethau hyn.

On the effect on Wales, our focus on livestock and dairy farming in Wales means that the area of land where pesticides are used is relatively small. Wales accounts for around 1.5% of the UK use of pesticides, and the pesticides that are used tend to be weighted toward grassland use. By our estimation, the percentage of neonic usage in Wales makes up less than 1% of the neonic use of Great Britain, and the impact of any ban will be felt far more strongly in other parts of Great Britain, especially in England. However, we believe that we must seek to reduce, to the lowest possible level, the effect of pesticide use on people, widelife, plants and the environment, while making sure that pests, diseases and weeds are effectively controlled. In deciding the actions that are required to achieve this difficult balancing act, we must first collect good scientific evidence to enable the best possible assessment of the risks involved.

O ran yr effaith ar Gymru, rydym yn canolbwyntio ar ffermio da byw a llaeth yng Nghymru, sy'n golygu bod yr ardal o dir lle y caiff plaladdwyr eu defnyddio yn gymharol fach. Mae Cymru yn gyfrifol am tua 1.5% o'r plaladdwyr sy'n cael eu defnyddio yn y DU, ac mae'r plaladdwyr sy'n cael eu defnyddio yn tueddu i fod yn fwy cyffredin ar laswelltir. Yn ôl ein hamcangyfrif, mae canran y defnydd o blaladdwyr neonig yng Nghymru yn llai nag 1% o'r defnydd o blaladdwyr neonig ledled Prydain, a chaiff effaith unrhyw waharddiad ei deimlo'n llawer cryfach mewn rhannau eraill o Brydain, yn enwedig yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym yn credu bod rhaid inni geisio gostwng, i'r lefel isaf posibl, effaith plaladdwyr ar bobl, bywyd gwyllt, planhigion a'r amgylchedd, gan sicrhau bod plâu, clefydau a chwyn yn cael eu rheoli'n effeithiol. Wrth benderfynu ar y camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r cydbwysedd anodd hwn, rhaid inni yn gyntaf gasglu tystiolaeth wyddonol dda i alluogi'r asesiad gorau posibl o'r risgiau dan sylw.

The consolation of pollinators is crucial in order to maintain biodiversity in Wales. In addition, pollinators have a significant economic value as an ecosystem service to Welsh agriculture. The Welsh Government has kept evidence on neonic insecticides under open-minded scrutiny, relying on the ACP to assess new studies as they emerge and to consider how those studies alter the overall situation. Therefore, we have been an active participant in the discussion about the use of pesticides in relation to this matter.

Mae'r clwstwr o beillwyr yn hanfodol er mwyn cynnal bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae gan beillwyr werth economaidd sylweddol hefyd fel gwasanaeth ecosystem i amaethyddiaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw meddwl agored wrth graffu ar dystiolaeth am bryfladdwyr neonig, gan ddibynnu ar y Pwyllgor Cynghori ar Blaladdwyr i asesu astudiaethau newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg ac i ystyried sut y mae'r astudiaethau hynny'n newid y sefyllfa gyffredinol. Felly, rydym wedi bod yn cymryd rhan weithgar yn y drafodaeth am ddefnyddio plaladdwyr mewn cysylltiad â'r mater hwn.

I hope that Members will appreciate and agree that we have gone far further than that in developing an action plan that will point the way forward and will make a very real difference. I extend an invitation to Members on all sides of the Chamber to join the Government in working towards an action plan that will change the situation for bees and other pollinators so that we will jointly be able to launch a programme for Wales at the Royal Welsh Show and demonstrate not just political unity, but political commitment to making these changes.

Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi ac yn cytuno ein bod wedi mynd yn llawer pellach na hynny wrth ddatblygu cynllun gweithredu a fydd yn dangos y ffordd ymlaen ac a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Estynnaf wahoddiad i Aelodau ar bob ochr i'r Siambr ymuno â'r Llywodraeth i weithio tuag at gynllun gweithredu a fydd yn newid sefyllfa gwenyn a pheillwyr eraill fel y byddwn ar y cyd yn gallu lansio rhaglen ar gyfer Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru a dangos nid yn unig undod gwleidyddol, ond ymrwymiad gwleidyddol i wneud y newidiadau hyn.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. That brings today's business to a close.

Diolch, Weinidog. Daw hynny â busnes heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 p.m.*

*The meeting ended at 5.10 p.m.*